sy'n tywallt cariad Duw ar led yn ein calonau;  
i'r un gwir Dduw  
y bo'r holl gariad a'r holl ogoniant  
dros amser a thros dragwyddoldeb. **Amen.**

*Naill ai*

Yr Arglwydd a fo gyda chwi.  
**A hefyd gyda thi.**

Bendithiwn yr Arglwydd.  
**I Dduw y bo'r diolch.**

*Neu*

Yr Arglwydd a fo gyda chwi.  
**A hefyd gyda thi.**

Ewch yn nhangnefedd Crist.  
**I Dduw y bo'r diolch.**

Now to him who is able through the power which is at work among us to do immeasurably more than we can ask or conceive, to him be glory in the church and in Christ Jesus from generation to generation for ever. **Amen.**

To the King eternal, immortal, invisible, the only God, be honour and glory for ever. **Amen.**

Now to him who can keep us from falling and set us in the presence of his glory, jubilant and above reproach, to the only God our Saviour, be glory and majesty, power and authority, through Jesus Christ our Lord, before all time, now and for ever. **Amen.**

To him who loves us and has set us free from our sins with his blood, who has made us a royal house, to serve as the priests of his God and Father: to him be glory and dominion for ever. **Amen.**

To the holy and glorious Trinity, Father, Son, and Holy Spirit, be blessing and honour, thanksgiving and praise, now and for ever. **Amen.**

To God the Father, who first loved us,  
and made us accepted in the Beloved;  
to God the Son, who loved us,  
and washed us from our sins by his own blood;  
to God the Holy Spirit,  
who sheds the love of God abroad in our hearts;  
to the one true God  
be all love and all glory,  
for time and for eternity. **Amen.**

*Either*

The Lord be with you.  
**And also with you.**

Let us bless the Lord.  
**Thanks be to God.**

*Or*

The Lord be with you.  
**And also with you.**

Go in the peace of Christ.  
**Thanks be to God.**

*Gellir defnyddio'r canlynol, gyda'r fendith neu hebddi, naill ai ar eu pen eu hunain neu yn union cyn Bendithiwn yr Arglwydd ac Ewch yn nhangnefedd Crist yn y ddau gyfarchiad terfynol olaf uchod.*

- 1 Bydded i dangnefedd Duw sydd uwchlaw pob deall gadw eich calonnau yng ngwybodaeth a chariad Duw a'i Fab Iesu Grist ...
- 2 Bydded i'r Arglwydd eich bendithio a'ch cadw; bydded i'r Arglwydd lewyrchu ei wyneb arnoch a bod yn drugarog wrthych; bydded i'r Arglwydd edrych arnoch yn gariadus a rhoi i chwi dangnefedd ...
- 3 Bydded i Dduw pob gras, a'ch galwodd i'w ogoniant tragwyddol yng Nghrist, eich adfer, eich cadarnhau a'ch nerthu yn y Ffydd ...
- 4 Bydded i Dduw, a'ch dygodd o farwolaeth pechod i fywyd newydd yng Nghrist, eich cadw rhag syrthio a'ch gosod ym mhresenoldeb ei ogoniant â llawenydd mawr ...
- 5 Bydded i Grist, sydd yn eich maethu ag ef ei hun, y bara bywiol a'r wir winwydden, eich gwneud yn un mewn mawl a gwasanaeth, a'ch atgyfodi ar y dydd diwethaf ...
- 6 Bydded i Dduw, ffynhonnell gobaith, eich llenwi â phob llawenydd a thangnefedd wrth ichwi arfer eich ffydd, nes eich bod, trwy nerth yr Ysbryd Glân, yn gorlifo â gobaith ...
- 7 Bydded i gariad yr Arglwydd Iesu eich tynnu ato'i hun; i nerth yr Arglwydd Iesu eich cryfhau yn ei wasanaeth; ac i lawenydd yr Arglwydd Iesu lenwi eich calonnau ...
- 8 Cadwch eich golwg ar Iesu a glwyfwyd am ein pechodau, fel y bo i chwi amlygu yn eich bywydau y cariad, y llawenydd a'r tangnefedd sy'n amlygu Iesu yn ei ddisgyblion ...

*The following dismissals may be used, with or without a blessing, either on their own or immediately before Let us bless the Lord and Go in the peace of Christ respectively in the above two sets of final greetings.*

- 1 The peace of God which is beyond all understanding guard your hearts in the knowledge and love of God and of his Son Jesus Christ ...
- 2 The Lord bless you and keep watch over you; the Lord's face shine on you and be gracious to you; the Lord look lovingly on you and give you peace ...
- 3 The God of all grace who called you to his eternal glory in Christ, restore, establish and strengthen you in the Faith ...
- 4 God, who from the death of sin raised you to new life in Christ, keep you from falling and set you in the presence of his glory with great joy ...
- 5 Christ, who nourishes you with himself, the living bread and the true vine, make you one in praise and service, and raise you up at the last day ...
- 6 The God of hope fill you with all joy and peace in believing, that by the power of the Holy Spirit you may be filled with hope ...
- 7 The love of the Lord Jesus draw you to himself; the power of the Lord Jesus strengthen you in his service; the joy of the Lord Jesus fill your hearts ...
- 8 Keep your eyes fixed on Jesus who was wounded for our sins, that you may bear in your life the love and joy and peace which are the marks of Jesus in his disciples ...

# TREFN AMGEN AR GYFER YR HWYROL WEDDI

## **1** Y RHAGARWEINIAD

**(A) Gweddïau o Edifeirwch** [Sefyll]  
*Y mae'r gweinidog yn darllen un o'r canlynol, neu frawddeg addas arall o'r Ysgrhythur Lân.*

Hon yw'r genadwri yr ydym wedi ei chlywed ganddo ef, ac yr ydym yn ei chyhoeddi i chwi: goleuni yw Duw, ac nid oes ynddo ef ddim tywyllwch. *1 Ioan 1:5*

Ysbryd yw Duw, a rhaid i'w addolwyr ef addoli mewn ysbryd a gwirionedd. *Ioan 4:24*

Gras a thangnefedd i chwi oddi wrth Dduw ein Tad a'r Arglwydd Iesu Grist. *Rhufeiniaid 1:7*

A dywedodd Duw, "Bydded goleuni." A bu goleuni. Gwelodd Duw fod y goleuni yn dda; a gwahanodd Duw y goleuni oddi wrth y tywyllwch. A bu hwyr a bu bore, y dydd cyntaf. *Genesis 1:3-5*

Dyma'r dydd y gweithredodd yr Arglwydd; gorfoleddwn a llawenhawn ynddo. *Salm 118:24*

*Dywed y gweinidog*

Daethom ynghyd yn deulu Duw ym mhresenoldeb ein Tad, i roddi iddo foliant a diolch, i glywed a derbyn ei air, i gyflwyno iddo anghenion yr holl fyd ac i geisio ei ras, fel y gallwn, trwy ei Fab, Iesu Grist, ein rhoi ein hunain i'w wasanaeth.

Dywedodd Iesu: "Y gorchymyn cyntaf yw, 'Gwranddo, O Israel, yr Arglwydd ein Duw yw'r unig Arglwydd, a châr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon ac â'th holl enaid ac â'th holl feddwl ac â'th holl nerth.' Yr ail yw hwn, 'Câr dy gymydog fel ti dy hun.' Nid oes gorchymyn arall mwy na'r rhain."

*Distawrwydd.*

[Penlinio]

# AN ALTERNATIVE ORDER FOR EVENING PRAYER (EVENSONG)

## **1** THE INTRODUCTION

**(A) Prayers of Penitence** [Stand]  
*The minister reads one of the following, or another appropriate sentence of Holy Scripture.*

This is what we have heard from him, and the message we are announcing to you: God is light; there is no darkness in him at all. *1 John 1:5*

God is Spirit and those who worship him must worship in Spirit and in truth. *John 4:24*

Grace to you and peace from God our Father and the Lord Jesus Christ. *Romans 1:7*

God said, 'Let there be light', and there was light; and God saw the light was good, and he separated light from darkness. So evening came, and morning came; it was the first day. *Genesis 1:3-5*

This is the day which the Lord has made; let us rejoice and be glad in it. *Psalm 118:24*

*The minister says*

We have come together as the family of God in our Father's presence, to offer him praise and thanksgiving, to hear and receive his word, to bring before him the needs of the world and to seek his grace, that, through his Son, Jesus Christ, we may give ourselves to his service.

Jesus said: 'The first commandment is: "Listen Israel! the Lord our God is the only Lord. Love the Lord your God with all your heart, with all your soul, with all your mind and with all your strength." The second is this: "Love your neighbour as yourself." There is no other commandment greater than these.'

*Silence.*

[Kneel]



Cyffeswn ein pechodau wrth y Tad a cheisio ei faddeuant a'i dangnefedd.

**Hollalluog a thrugarog Dduw,  
yr ydym wedi pechu yn dy erbyn  
ar feddwl, gair a gweithred.  
Nid ydym wedi dy garu â'n holl galon;  
nac wedi caru eraill fel y mae Crist yn ein caru ni.  
Y mae'n wir ddrwg gennym.  
Yn dy drugaredd, maddau inni.  
Cynorthwya ni i ddiwygio ein bywydau;  
fel y byddwn yn ymhyfrydu yn dy ewylls  
ac yn rhodio yn dy ffyrdd,  
er gogoniant i'th enw. Amen.**

Bydded i Dduw hollalluog,  
sy'n maddau i bawb sy'n wir edifeiriol,  
drugarhau wrthyh a'ch rhyddhau o bechod,  
eich cadarnhau mewn daioni  
a'ch cadw yn y bywyd tragwyddol;  
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

*Yn lle rhoi'r gollyngdod, dywed diacon neu weinidog lleyg.*  
Bydded i Dduw ein Tad,  
a gymododd y byd ag ef ei hun  
trwy ein Harglwydd Iesu Grist,  
ac sy'n maddau pechodau pawb sy'n wir edifeiriol,  
faddau i ni a'n gwared oddi wrth ein holl bechodau,  
a rhoddi inni ras a nerth yr Ysbryd Glân. **Amen.**

**(D) Gwersiglau ac Ymatebion Agoriadol** [Sefyll]

Arglwydd, agor ein gwefusau,  
**A'n genau a fynega dy foliant.**

Duw, brysia i'n cynorthwyo.  
**Arglwydd, prysura i'n cymorth.**

**Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab, ac i'r Ysbryd Glân;  
fel yr oedd yn y dechrau y mae yn awr,  
ac y bydd yn wastad, yn oes oesoedd. Amen.**

Addolwch yr Arglwydd.  
**I'w enw ef y bo'r mawl.**

*(Yn Nhyrnor y Pasg, ychwanegir  
Halelwia! Atgyfododd Crist.  
Atgyfododd yn wir. Halelwia!)*

Let us confess our sins to the Father and seek his pardon and peace.

**Almighty and merciful God,  
we have sinned against you  
in thought, word and deed.  
We have not loved you with all our heart;  
and we have not loved others as Christ loves us.  
We are truly sorry.  
In your mercy, forgive us.  
Help us to amend our lives;  
that we may delight in your will  
and walk in your ways,  
to the glory of your name. Amen.**

Almighty God, who forgives all who truly repent, have mercy on you and set you free from sin, strengthen you in goodness and keep you in eternal life; through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

*In place of the absolution, a deacon or lay minister says.*

May God our Father,  
who by our Lord Jesus Christ  
has reconciled the world to himself  
and forgives the sins of all who truly repent,  
pardon and deliver us from all our sins,  
and grant us the grace and power of the Holy Spirit.  
**Amen.**

**(E) Opening Versicles and Responses** [Stand]

O Lord, open our lips,  
**And our mouth shall proclaim your praise.**

O God, make speed to save us.  
**O Lord, make haste to help us.**

**Glory to the Father, and to the Son,  
and to the Holy Spirit;  
as it was in the beginning, is now,  
and shall be for ever. Amen**

Worship the Lord.  
**All praise to his name.**

*(The following is added in Eastertide  
Alleluia! Christ is risen.  
He is risen indeed. Alleluia!)*



*Gellir canu'r canlynol, neu emyn hwyrrol arall, neu emyn addas i'r tymor.*

*Phos Hilaron*

- 1 O rasol oleuni •  
llewyrch pur y Tad bythfywiol / yn y / nefoedd :  
O sanctaidd a ben/digaid / Iesu / Grist!
- 2 Yn awr, a ninnau'n nesáu at / fachlud / haul :  
a'n llygaid yn / gweld go/leuni'r / hwyr,
- 3 Canwn dy / fawl, O / Dduw :  
Tad / Mab ac / Ysbryd / Glân.
- 4 O Fab Duw, Rhoddwr bywyd •  
teilwng wyt ti bob amser o foliant / lleisiau / llawen :  
ac i'th ogo/neddu• drwy'r / bydoedd / oll.

*Mae'r gwasanaeth yn parhau gyda Gweinidogaeth y Gair (Tudalen 54, Patrwm 1, neu Dudalen 58, Patrwm 2).*

**(DD) Bendithio'r Goleuni**

[Sefyll]

*Gellir cynnau kannwyll.*

Yr Arglwydd yw fy ngoleuni a'm gwaredigaeth:  
**rhag pwy yr ofnaf?**

Yr Arglwydd yw cadernid fy mywyd:  
**rhag pwy y dychrynaf?**

*Dywedir y canlynol, neu fendith agoriadol dymhorol.*

*Ar Suliau*

Hollalluog Dduw,  
diolchwn i ti am dy Fab Iesu Grist.  
Wedi iddo orchfygu galluoedd y tywyllwch,  
fe gyfododd o'r bedd i baratoi i ni  
le yn y Jerwsalem newydd.  
Dwg ni, sy'n llawenhau yn ei fywyd atgyfodedig,  
i'th foliannu di yn y ddinas dragwyddol honno  
y mae ef iddi yn oleuni tragwyddol.  
**Bendigedig fyddo Duw am byth.**

*The following, or another evening hymn, or a hymn appropriate to the season, may be sung.*

*Phos Hilaron*

- 1 O gracious light,  
pure brightness of the everliving / Father in / heaven :  
O Jesus / Christ / holy and / blessed!
- 2 Now, as we come to the / setting • of the / sun :  
and our eyes be/hold the / evening / light,
- 3 We sing your / praises, O / God :  
Father / Son and /Holy / Spirit.
- 4 You are worthy at all times to be praised by happy voices •  
O Son of God, O / Giver • of / life :  
and to be / glorified through / all • the / worlds.

*The office continues with The Ministry of the Word (Page 55, Pattern 1, or Page 59, Pattern 2).*

**(F) Evening Blessing of the Light**

[Stand]

*A lamp or candle may be lit.*

The Lord is my light and my salvation:  
**whom then shall I fear?**

The Lord is the strength of my life:  
**of whom then shall I be afraid?**

*One of the following, or a seasonal opening prayer of blessing, is said.*

*On Sundays*

Almighty God,  
we give you thanks for your Son, Jesus Christ.  
Triumphing over the powers of darkness,  
he rose from the grave to prepare for us  
a place in the new Jerusalem.  
Bring us, who rejoice in his risen life,  
to praise you in that eternal city  
of which he is the everlasting light.  
**Blessed be God for ever.**

*Neu, ar ddyddiau gwaith*

Bendigedig wyt ti, Arglwydd Dduw, creawdwr dydd a nos:  
i ti y bo'r gogoniant a'r moliant am byth.  
Wrth i'r tywyllwch ddisgyn  
yr wyt yn adnewyddu dy addewid  
i ddatguddio yn ein plith oleuni dy bresenoldeb.  
Trwy oleuni Crist, dy Air bywiol,  
ymlid o'n calonnau bob tywyllwch  
fel y rhodiom yn blant y goleuni  
a chanu dy foliant ledled y byd.  
**Bendigedig fyddo Duw am byth.**

*Cenir Phos Hilaron (Atodiad III, Cantigl 49), neu emyn neu gantigl addas arall. Gellir cynnau rhagor o ganhwyllau. Oni ddefnyddir yn y fan hon yr adnodau a ganlyn allan o Salm 141, bydd y gwasanaeth yn parhau gyda Gweinidogaeth y Gair (Tudalen 54, Patrwm 1, neu Dudalen 58, Patrwm 2).*

**(E) Adnodau o Salm 141**

*[Sefyll]*

*Gellir defnyddio'r adnodau hyn yn union ar ôl Bendithio'r Goleuni, neu fel Rhagarweiniad ar wahân. Gellir aroglarthu tra dywedir hwy.*

**Bydded fy ngweddi fel a/roglarth • o'th / flaen :  
ac estyniad fy / nwylo • fel / offrwm / hwylol.**

O Arglwydd, gwaeddaf arnat / brysia / ataf :  
gwrando ar fy / llef pan / alwaf / arnat.  
O Arglwydd, gosod warchod / ar fy / ngenau :  
gwylia dros / ddrws – / fy ngwe/fusau.

**Bydded fy ngweddi fel a/roglarth • o'th / flaen :  
ac estyniad fy / nwylo • fel / offrwm / hwylol.**

Paid â throi fy nghalon at / bethau / drwg :  
i fod yn brysur / wrth weith/redoedd • dryg/ionus.  
Y mae fy llygaid arnat ti, O / Arglwydd / Dduw :  
ynot ti y llochesaf • paid â'm / gadael / heb am/ddiffyn.

**Bydded fy ngweddi fel a/roglarth • o'th / flaen :  
ac estyniad fy / nwylo • fel / offrwm / hwylol.**

*Gellir dweud y weddi agoriadol hon*

Ar i'r noson hon fod yn sanctaidd a thangnefeddus a da,  
gweddiwn ar yr Arglwydd.

*Cedwir distawrwydd.*

*Or, on weekdays*

Blessed are you, Lord God, creator of day and night:  
to you be glory and praise for ever.  
As darkness falls you renew your promise  
to reveal among us the light of your presence.  
By the light of Christ, your living Word,  
drive out all darkness from our hearts  
that we may walk as children of light  
and sing your praise throughout the world.  
**Blessed be God for ever.**

*Phos Hilaron (Appendix III, Canticle 49), or another suitable hymn or canticle, is sung. Other candles may be lit. Unless the following verses from Psalm 141 are used at this point, the office continues with The Ministry of the Word (Page 55, Pattern 1, or Page 59, Pattern 2).*

**(G) Verses from Psalm 141**

*[Stand]*

*These verses may be used immediately after the Evening Blessing of the Light, or as a separate Introduction. Incense may be burned while they are being recited.*

**Let my prayer rise be/fore you as / incense :  
the lifting up of my hands / as the / evening / sacrifice.**

O Lord, I call to you; / come to me / quickly :  
hear my voice / when I / cry to / you.  
Set a watch before my / mouth, O / Lord :  
and / guard the / door of my / lips.

**Let my prayer rise be/fore you as / incense :  
the lifting up of my hands / as the / evening / sacrifice.**

Let not my heart incline to any / evil / thing :  
let me not be occupied in / wickedness with / evil/doers.  
But my eyes are turned to / you, Lord / God :  
in you I take refuge; / do not / leave me de/fenceless.

**Let my prayer rise be/fore you as / incense :  
the lifting up of my hands / as the / evening / sacrifice.**

*This opening prayer may be said*

That this evening may be holy, good and peaceful, let us  
pray to the Lord.

*Silence is kept.*

Wrth i'n hwyrol weddi esgyn o'th flaen, O Dduw,  
disgynned felly dy drugaredd arnom  
i lanhau ein calonnau  
a'n rhyddhau i ganu dy fawl  
yn awr ac am byth. **Amen.**

*Mae'r gwasanaeth yn parhau gyda Gweinidogaeth y Gair (Tudalen 54,  
Patrwm 1, neu Dudalen 58, Patrwm 2).*

**(F) Rhagarweiniad Syml i'r Hwyl Weddi** [Sefyll]

Duw, bryisia i'n cynorthwyo.  
**Arglwydd, prysura i'n cymorth.**

**Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab,  
ac i'r Ysbryd Glân;  
fel yr oedd yn y dechrau y mae yn awr,  
ac y bydd yn wastad, yn oes oesoedd. Amen.**

*Gweddi ddistaw / myfyrdod ar y diwrnod a fu.*

Bydded fy ngweddi fel aroglarth o'th flaen,  
ac estyniad fy nwylo fel offrwm hwylrol.

Arglwydd, trugarha.  
**Arglwydd, trugarha.**

Yr Arglwydd yw fy mugail,  
ni bydd eisiau arnaf.

Crist, trugarha.  
**Crist, trugarha.**

Dysg i mi, Arglwydd, ffordd dy ddeddfau,  
ac fe'i cadwaf hi i'r diwedd.

Arglwydd, trugarha.  
**Arglwydd, trugarha.**

*Mae'r gwasanaeth yn parhau gyda Gweinidogaeth y Gair (Tudalen 54,  
Patrwm 1, neu Dudalen 58, Patrwm 2).*

As our evening prayer rises before you, O God,  
so may your mercy come down upon us  
to cleanse our hearts  
and set us free to sing your praise  
now and for ever. **Amen.**

*The office continues with The Ministry of the Word (Page 55, Pattern 1,  
or Page 59, Pattern 2).*

**(H) A Simple Introduction to Evening Prayer** [Stand]

O God, make speed to save us.  
**O Lord, make haste to help us.**

**Glory to the Father, and to the Son,  
and to the Holy Spirit;  
as it was in the beginning, is now,  
and shall be for ever. Amen.**

*Silent prayer / reflection on the past day.*

Let my prayer rise before you as incense,  
the lifting up of my hands as the evening sacrifice.

Lord, have mercy.  
**Lord, have mercy.**

The Lord is my shepherd,  
I shall not be in want.

Christ, have mercy.  
**Christ, have mercy.**

Teach me, Lord, the way of your statutes,  
and I shall keep it to the end.

Lord, have mercy.  
**Lord, have mercy.**

*The office continues with The Ministry of the Word (Page 55, Pattern 1,  
or Page 59, Pattern 2).*

## 2 GWEINIDOGAETH Y GAIR

*Patrwm 1, gyda dau ddarlleniad*

*Salm(au)* [Sefyll/Eistedd]

*Bydd pob salm a benodwyd am y dydd yn diweddu gyda*

**Gogoniant i'r Tad / ac i'r / Mab :**  
**ac / i'r- / Ysbryd / Glân;**  
**fel yr oedd yn y dechrau, \***  
**y mae yn awr ac y / bydd yn / wastad :**  
**yn oes / oesoedd. / A-/men.**

*Y darlleniad o'r Hen Destament* [Eistedd]

*Cyn y darlleniad*  
Darlleniad o ...

*Ar ôl y darlleniad*  
Dyma air yr Arglwydd.  
**I Dduw y bo'r diolch.**

*Neu*  
Gwrandewch ar yr hyn y mae'r Ysbryd  
yn ei ddweud wrth yr Eglwys.  
**I Dduw y bo'r diolch.**

*Neu*  
Dyma ddiwedd y darlleniad o'r Hen Destament.

*Distawrwydd.*

*Cantigl o'r Efyngyl: Magnificat anima mea Dominum* [Sefyll]

*Gellir defnyddio antiffon (cytgan), er enghraifft*  
Gwnaethost bethau mawr, O Dduw, a sanctaidd yw dy enw.

*Neu*  
Y mae fy ysbryd yn llawenhau ynot ti, O Dduw,  
y mae fy enaid yn cyhoeddi dy fawredd.

*Neu*  
Y mae dy drugaredd ar y rhai sy'n dy ofni ym mhob cenhedlaeth.

- 1 Y mae fy enaid yn maw/rygu. yr / Arglwydd :  
a gorfoleddodd fy / ysbryd \* yn / Nuw fy \* Ngwa/redwr,
- 2 Am / iddo \* ys/tyried :  
di/stadled / ei law/forwyn.

## 2 THE MINISTRY OF THE WORD

*Pattern 1, with two readings*

*Psalmody* [Stand/Sit]

*Each of the psalms appointed for the day ends with*

**Glory to the Father, and / to the / Son :**  
**and / to the / Holy / Spirit;**  
**as it was in the be/ginning, is / now :**  
**and shall be for / ever. / A-/men.**

*The Old Testament reading* [Sit]

*Before the reading*  
A reading from ...

*After the reading*  
This is the word of the Lord.  
**Thanks be to God.**

*Or*  
Hear what the Spirit is saying to the Church.  
**Thanks be to God.**

*Or*  
Here ends the Old Testament reading.

*Silence.*

*The Gospel Canticle: Magnificat anima mea Dominum* [Stand]

*An antiphon (refrain) may be used, for instance*  
You have done great things, O God, and holy is your name.

*Or*  
My spirit rejoices in you, O God,  
my soul proclaims your greatness.

*Or*  
You have mercy on those who fear you, in every generation.

- 1 My soul proclaims the / greatness \* of the / Lord :  
my spirit re/joices in / God my / Saviour;
- 2 Who has looked with favour on his / lowly / servant :  
from this day all gener/atons \* will / call me / blessed;

- 3 Oherwydd wele / o hyn / allan :  
fe'm gelwir yn wynfydedig / gan yr / holl • gened/laethau,
- 4 Oherwydd gwnaeth yr hwn sydd nerthol bethau / mawr i / mi :  
a sanctaidd / yw ei / enw / ef;
- 5 Y mae ei drugaredd o genhedlaeth / i gen/hedlaeth :  
i'r rhai sydd / yn ei / ofni / ef.
- 6 Gwnaeth ry/muster • â'i / fraich :  
gwasgaraodd / y rhai / balch eu / calon;
- 7 Tynnodd dywysogion oddi ar / eu gor/seddau :  
a dyr/chafodd / y rhai / distadl;
- 8 Llwythodd y ne/wynog • â / rhoddion :  
ac anfonodd y cyfoe/thogion / ymaith • yn / waglaw.
- 9 Cynorthwyodd ef / Israel • ei / was :  
gan / ddwyn i'w / gof • ei dru/garedd –
- 10 Fel y llefarodd / wrth ein • hyn/afiaid :  
ei drugaredd wrth Abraham a'i / had – / yn dra/gywydd.

**Gogoniant i'r Tad / ac i'r / Mab :**

**ac / i'r– / Ysbryd / Glân;**

**fel yr oedd yn y dechrau, •**

**y mae yn awr ac y / bydd yn / wastad :**

**yn oes / oesoedd. / A–/men.**

*Y darlleniad o'r Testament Newydd*

[Eistedd]

*Cyn y darlleniad*

Darlleniad o ...

*Ar ôl y darlleniad*

Dyma air yr Arglwydd.

**I Dduw y bo'r diolch.**

*Neu*

Gwrandewch ar yr hyn y mae'r Ysbryd  
yn ei ddweud wrth yr Eglwys.

**I Dduw y bo'r diolch.**

*Neu*

Dyma ddiwedd y darlleniad o'r Hen Destament.

*Distawrwydd.*

*Ar ôl y darlleniad o'r Testament Newydd gellir dweud neu ganu cantigl.*

[Sefyll/Eistedd]

- 3 The Almighty has done / great things / for me :  
and / holy / is his / name.
- 4 God has mercy on / those who / fear him :  
from gener/ation to / gener/ation.
- 5 The Lord has shown / strength with • his / arm :  
and scattered the / proud in / their con/ceit,
- 6 Casting down the mighty / from their / thrones :  
and / lifting / up the / lowly.
- 7 God has filled the hungry with / good / things :  
and has / sent the / rich • away / empty.
- 8 He has come to the aid of his / servant / Israel :  
to re/member his / promise • of / mercy,
- ‡9 The promise / made • to our / forebears :  
to Abraham / and his / children for / ever.

**Glory to the Father, and / to the / Son :**

**and / to the / Holy / Spirit;**

**as it was in the be/ginning, is / now :**

**and shall be for / ever. / A–/men.**

*The New Testament reading*

[Sit]

*Before the reading*

A reading from ...

*After the reading*

This is the word of the Lord.

**Thanks be to God.**

*Or*

Hear what the Spirit is saying to the Church.

**Thanks be to God.**

*Or*

Here ends the Old Testament reading.

*Silence.*

*A canticle may be said or sung after the New Testament reading.*

[Stand/Sit]

## **Datgan y Ffydd**

*Dywedir y Credo ar y Suliau, ac ar y Gwyliau a restrir yn Grwpiau I a II yn Y Calendr Newydd (2003). Ar ddyddiau eraill, gall y gwasanaeth barhau gyda'r Gweddïau (Tudalen 64).*

*Credo'r Apostolion*

*[Sefyll]*

**Credaf yn Nuw, Dad hollgyfoethog,  
creawdwr nefoedd a daear.  
Credaf yn Iesu Grist, unig Fab Duw, ein Harglwydd ni,  
a genhedlwyd o'r Ysbryd Glân,  
a aned o Fair Forwyn,  
a ddiodefodd dan Pontius Pilat,  
a groeshoeliwyd, a fu farw ac a gladdwyd;  
disgynnodd i blith y meirw.  
Ar y trydydd dydd fe atgyfododd;  
esgynnodd i'r nefoedd,  
ac y mae'n eistedd ar ddeheu law'r Tad,  
ac fe ddaw i farnu'r byw a'r meirw.  
Credaf yn yr Ysbryd Glân,  
yr Eglwys lân gatholig,  
cymun y saint,  
maddeuant pechodau,  
atgyfodiad y corff,  
a'r bywyd tragwyddol. Amen.**

*Gellir defnyddio Credo'r Bedydd yn lle Credo'r Apostolion. (Gweler Atodiad IV.)*

*Mae'r gwasanaeth yn parhau gyda'r Gweddïau (Tudalen 64).*

## **Patrwm 2, gydag un darlleniad**

**Salm(au)**

*[Sefyll/Eistedd]*

*Bydd pob salm a benodwyd am y dydd yn diweddu gyda*

**Gogoniant i'r Tad / ac i'r / Mab :  
ac / i'r- / Ysbryd / Glân;  
fel yr oedd yn y dechrau, •  
y mae yn awr ac y / bydd yn / wastad :  
yn oes / oesoedd. / A-/men.**

*Gellir ychwanegu cantigl ar derfyn y salm(au) a benodwyd.*

## **An Affirmation of the Faith**

*The Creed is said on Sundays and Holy Days listed in Groups 1 and II in The New Calendar (2003). On other days, the office may continue immediately with The Prayers (Page 65).*

*The Apostles' Creed*

*[Stand]*

**I believe in God, the Father almighty,  
creator of heaven and earth.  
I believe in Jesus Christ, God's only Son, our Lord,  
who was conceived by the Holy Spirit,  
born of the Virgin Mary,  
suffered under Pontius Pilate,  
was crucified, died and was buried;  
he descended to the dead.  
On the third day he rose again;  
he ascended into heaven,  
and is seated at the right hand of the Father,  
and he will come to judge the living and the dead.  
I believe in the Holy Spirit,  
the holy catholic Church,  
the communion of saints,  
the forgiveness of sins,  
the resurrection of the body,  
and the life everlasting. Amen.**

*The Baptismal Creed may be used in place of the Apostles' Creed. (See Appendix IV.)*

*The office continues with The Prayers (Page 65).*

## **Pattern 2, with one reading**

**Psalmody**

*[Stand/Sit]*

*Each of the psalms appointed for the day ends with*

**Glory to the Father, and / to the / Son :  
and / to the / Holy / Spirit;  
as it was in the be/ginning, is / now :  
and shall be for / ever. / A-/men.**

*A canticle may be added at the end of the appointed psalms.*

**Y darlleniad o'r Beibl**

[Eistedd]

Cyn y darlleniad  
Darlleniad o ...

Ar ôl y darlleniad  
Dyma air yr Arglwydd.  
**I Dduw y bo'r diolch.**

Neu  
Gwrandewch ar yr hyn y mae'r Ysbryd  
yn ei ddweud wrth yr Eglwys.  
**I Dduw y bo'r diolch.**

Neu  
Dyma ddiwedd y darlleniad o'r Hen Destament.

Distawrwydd.

**Cantigl o'r Efengyl:** *Magnificat anima mea Dominum* [Sefyll]

Gellir defnyddio antiffon (cytgan), er enghraifft  
Gwnaethost bethau mawr, O Dduw, a sanctaidd yw dy enw.

Neu  
Y mae fy ysbryd yn llawenhau ynot ti, O Dduw,  
y mae fy enaid yn cyhoeddi dy fawredd.

Neu  
Y mae dy drugaredd ar y rhai sy'n dy ofni ym mhob cenhedlaeth.

- 1 Y mae fy enaid yn maw/rygu. yr / Arglwydd :  
a gorfoleddodd fy / ysbryd • yn / Nuw fy • Ngwa/redwr,
- 2 Am / iddo • ys/tyried :  
di/stadled / ei law/forwyn.
- 3 Oherwydd wele / o hyn / allan :  
fe'm gelwir yn wynfydedig / gan yr / holl • gened/laethau,
- 4 Oherwydd gwnaeth yr hwn sydd nerthol bethau / mawr i / mi :  
a sanctaidd / yw ei / enw / ef;
- 5 Y mae ei drugaredd o genhedlaeth / i gen/hedlaeth :  
i'r rhai sydd / yn ei / ofni / ef.
- 6 Gwnaeth ry/muster • â'i / fraich :  
gwasgaraodd / y rhai / balch eu / calon;
- 7 Tynnodd dywysogion oddi ar / eu gor/seddau :  
a dyr/chafodd / y rhai / distadl;

**The Biblical reading**

[Sit]

Before the reading  
A reading from ...

After the reading  
This is the word of the Lord.  
**Thanks be to God.**

Or  
Hear what the Spirit is saying to the Church.  
**Thanks be to God.**

Or  
Here ends the Old Testament reading.

Silence.

**The Gospel Canticle:** *Magnificat anima mea Dominum* [Stand]

An antiphon (refrain) may be used, for instance  
You have done great things, O God, and holy is your name.

Or  
My spirit rejoices in you, O God,  
my soul proclaims your greatness.

Or  
You have mercy on those who fear you, in every generation.

- 1 My soul proclaims the / greatness • of the / Lord :  
my spirit re/joices in / God my / Saviour;
- 2 Who has looked with favour on his / lowly / servant :  
from this day all gener/ations • will / call me / blessed;
- 3 The Almighty has done / great things / for me :  
and / holy / is his / name.
- 4 God has mercy on / those who / fear him :  
from gener/ation to / gener/ation.
- 5 The Lord has shown / strength with • his / arm :  
and scattered the / proud in / their con/ceit,
- 6 Casting down the mighty / from their / thrones :  
and / lifting / up the / lowly.
- 7 God has filled the hungry with / good / things :  
and has / sent the / rich • away / empty.

- 8 Llwythodd y ne/wynog • â / rhoddion :  
ac anfonodd y cyfoe/thogion / ymaith • yn / waglaw.
- 9 Cynorthwyodd ef / Israel • ei / was :  
gan / ddwyn i'w / gof • ei dru/garedd –
- 10 Fel y llefarodd / wrth ein • hyn/afiaid :  
ei drugaredd wrth Abraham a'i / had – / yn dra/gywydd.

**Gogoniant i'r Tad / ac i'r / Mab :**  
**ac / i'r– / Ysbryd / Glân;**  
**fel yr oedd yn y dechrau, •**  
**y mae yn awr ac y / bydd yn / wastad :**  
**yn oes / oesoedd. / A–/men.**

### *Datgan y Ffydd*

*Dywedir y Credo ar y Suliau, ac ar y Gwyliau a restrir yn Grwpiau 1 a 11 yn Y Calendr Newydd (2003). Ar ddyddiau eraill, gall y gwasanaeth barhau gyda'r Gweddïau (Adran 3).*

*Credo'r Apostolion*

*[Sefyll]*

**Credaf yn Nuw, Dad hollgyfoethog,  
creawdwr nefoedd a daear.  
Credaf yn Iesu Grist, unig Fab Duw, ein Harglwydd ni,  
a genhedlwyd o'r Ysbryd Glân,  
a aned o Fair Forwyn,  
a ddiodefodd dan Pontius Pilat,  
a groeshoeliwyd, a fu farw ac a gladdwyd;  
disgynnodd i blith y meirw.  
Ar y trydydd dydd fe atgyfododd;  
esgynnodd i'r nefoedd,  
ac y mae'n eistedd ar ddeheulaw'r Tad,  
ac fe ddaw i farnu'r byw a'r meirw.  
Credaf yn yr Ysbryd Glân,  
yr Eglwys lân gatholig,  
cymun y saint,  
maddeuant pechodau,  
atgyfodiad y corff,  
a'r bywyd tragwyddol. Amen.**

*Gellir defnyddio Credo'r Bedydd yn lle Credo'r Apostolion. (Gweler Atodiad IV.)*

- 8 He has come to the aid of his / servant / Israel :  
to re/member his / promise • of / mercy,
- †9 The promise / made • to our / forebears :  
to Abraham / and his / children for / ever.

**Glory to the Father, and / to the / Son :**  
**and / to the / Holy / Spirit;**  
**as it was in the be/ginning, is / now :**  
**and shall be for / ever. / A–/men.**

### *An Affirmation of the Faith*

*The Creed is said on Sundays and Holy Days listed in Groups 1 and 11 in The New Calendar (2003). On other days, the office may continue immediately with The Prayers (Section 3).*

*The Apostles' Creed*

*[Stand]*

**I believe in God, the Father almighty,  
creator of heaven and earth.  
I believe in Jesus Christ, God's only Son, our Lord,  
who was conceived by the Holy Spirit,  
born of the Virgin Mary,  
suffered under Pontius Pilate,  
was crucified, died and was buried;  
he descended to the dead.  
On the third day he rose again;  
he ascended into heaven,  
and is seated at the right hand of the Father,  
and he will come to judge the living and the dead.  
I believe in the Holy Spirit,  
the holy catholic Church,  
the communion of saints,  
the forgiveness of sins,  
the resurrection of the body,  
and the life everlasting. Amen.**

*The Baptismal Creed may be used in place of the Apostles' Creed. (See Appendix IV.)*



### 3 Y GWEDDIAU

[Penlinio/Sefyll]

*Yn yr Hwyl Weddi, offrymir gweddiâu am dangnefedd a thros unigolion yn eu hanghenion, a gellir rhoi diolch am y dydd. Defnyddir y gweddiâu yn Atodiad v, y Litani (Atodiad vi), neu weddiâu addas eraill.*

*Gellir defnyddio ymatebion addas, er enghraifft*

Arglwydd, yn dy drugaredd,  
**Gwrando ein gweddi.**

Arglwydd, clyw ni.  
**Yn rasol, clyw ni, O Arglwydd.**

Arnat ti, Arglwydd, y gweddiwn.  
**Arglwydd, trugarha.**

Clyw ni, O Arglwydd,  
**oherwydd mawr yw dy drugaredd.**

Gweddiwn mewn ffydd.  
**Gweddiwn arnat ti, O Dduw.**

Arglwydd, trugarha.  
**Clyw ni, Arglwydd da.**

*Dywedir Gweddi'r Arglwydd. Gellir ei chyflwyno fel a ganlyn, neu â geiriau addas eraill.*

Gweddiwn yn hyderus ar y Tad:  
**Ein Tad yn y nefoedd ...**

*Neu*

Fel y dysgodd ein Hiachawdwr ni, gweddiwn yn eofn:  
**Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd ...**

*Ar y Suliau, ac ar y Gwyliau a restrir yn Grwpiau I a II yn Y Calendr Newydd (2003), dywedir Colect y Dydd. Gellir wedyn ddweud yr ail a'r trydydd colect.*

*Ar ddyddiau eraill dywedir un o'r canlynol, neu'r ddau.*

*Yr ail golect, am dangnefedd.*

Dragwyddol Dduw, ffynhonnell pob dyhead sanctaidd,  
pob cyngor da a phob gweithred gyfiawn,  
dyro i'th wasanaethyddion y tangnefedd hwnnw na all y byd ei roddi,  
fel y bo inni o'n gwirfodd ufuddhau i'th orchmynion,  
ac, wedi ein rhyddhau rhag ofn ein gelynion,  
dreulio ein hamser mewn heddwch a thangnefedd;  
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

### 3 THE PRAYERS

[Kneel/Stand]

*At Evening Prayer, prayers are offered for peace and for individuals and their needs, and thanksgiving may be made for the day. The prayers in Appendix v, the Litany (Appendix vi), or other suitable prayers, are used.*

*Appropriate responses may be used, for example*

Lord, in your mercy,  
**hear our prayer.**

Lord, hear us.  
**Lord, graciously hear us.**

We pray to you, O Lord.  
**Lord, have mercy.**

Hear us, O Lord,  
**for your mercy is great.**

In faith we pray.  
**We pray to you, O God.**

Lord, have mercy.  
**Hear us, good Lord.**

*The Lord's Prayer is said. It may be introduced as follows, or with other suitable words.*

Let us pray with confidence to the Father:  
**Our Father in heaven ...**

*Or*

As our Saviour taught us, we boldly pray:  
**Our Father, who art in heaven ...**

*On Sundays and the Holy Days listed in Groups I and II of The New Calendar (2003), the Collect of the Day is said. It may be followed by the second and third collects.*

*On other days, one or both of the following is said.*

*The second collect, for peace.*

Eternal God, source of all holy desires,  
all good counsels and all just works:  
give your servants that peace which the world cannot give,  
that we may willingly obey your commandments,  
and that, free from the fear of our enemies,  
we may pass our time in rest and quietness;  
through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

*Y trydydd colect.*

Goleua ein tywyllwch, gweddiwn arnat, O Arglwydd,  
ac yn dy fawr drugaredd  
amddiffyn ni rhag pob perygl ac enbydrwydd y nos hon;  
trwy gariad dy unig Fab,  
ein Gwaredwr Iesu Grist. **Amen.**

*Neu*

Greawdwr y bydysawd, gwylia drosom  
a chadw ni yng ngoleuni dy bresenoldeb.  
Bydded ein moliant mewn cynghanedd gyson  
â moliant y cread cyfan,  
a dwg ni, ynghyd â phawb yr ydym yn gweddio drostynt,  
i'r llawenydd tragwyddol yr wyt yn ei addo inni yn dy gariad;  
trwy Iesu Grist ein Gwaredwr. **Amen.**

## 4

### **Y DIWEDDGLO**

*Gellir defnyddio un o'r canlynol, neu anfon allan tymhorol (Atodiad II)  
neu eiriau addas eraill.*

Gras ein Harglwydd Iesu Grist,  
a chariad Duw,  
a chymdeithas yr Ysbryd Glân  
fyddo gyda ni oll byth bythoedd. **Amen.**

Bendithied yr Arglwydd ni, cadwed ni rhag drwg  
a'n dwyn i fywyd tragwyddol. **Amen.**

Iddo ef, sydd â'r gallu ganddo i wneud yn anhraethol well  
na dim y gallwn ni ei ddeisyfu na'i ddychmygu, trwy'r  
gallu sydd ar waith ynom ni, iddo ef y bo'r gogoniant yn yr  
eglwys ac yng Nghrist Iesu, o genhedlaeth i genhedlaeth,  
byth bythoedd. **Amen.**

I Frenin tragwyddoldeb, yr anfarwol a'r anweledig a'r unig  
Dduw, y byddo'r anrhydedd a'r gogoniant byth bythoedd.  
**Amen.**

Iddo ef, sydd â'r gallu ganddo i'ch cadw rhag syrthio, a'ch  
gosod yn ddi-fai a gorfoleddus gerbron ei ogoniant, iddo ef,  
yr unig Dduw, ein Gwaredwr, trwy Iesu Grist ein Harglwydd,  
y byddo gogoniant a mawrhydi, gallu ac awdurdod, cyn yr  
oesoedd, ac yn awr, a byth bythoedd. **Amen.**

*The third collect.*

Lighten our darkness, Lord, we pray,  
and by your great mercy  
defend us from all perils and dangers of this night;  
for the love of your only Son,  
our Saviour Jesus Christ. **Amen.**

*Or*

Creator of the universe, watch over us  
and keep us in the light of your presence.  
Let our praise continually blend with that of all creation,  
and bring us, with all for whom we pray,  
to the eternal joys which you promise in your love;  
through Jesus Christ our Saviour. **Amen.**

## 4

### **THE CONCLUSION**

*One of the following, a seasonal dismissal (Appendix II), or other  
appropriate words may be used.*

The grace of our Lord Jesus Christ,  
the love of God  
and the fellowship of the Holy Spirit  
be with us all, evermore. **Amen.**

The Lord bless us and protect us from evil  
and keep us in eternal life. **Amen.**

Now to him who is able through the power which is at  
work among us to do immeasurably more than we can ask  
or conceive, to him be glory in the church and in Christ  
Jesus from generation to generation for ever. **Amen.**

To the King eternal, immortal, invisible, the only God, be  
honour and glory for ever. **Amen.**

Now to him who can keep us from falling and set us in  
the presence of his glory, jubilant and above reproach, to  
the only God our Saviour, be glory and majesty, power and  
authority, through Jesus Christ our Lord, before all time,  
now and for ever. **Amen.**

I'r hwn sydd yn ein caru ni ac a'n rhyddhaodd ni oddi wrth ein pechodau â'i waed, ac a'n gwnaeth yn urdd frenhinol, yn offeiriaid i Dduw ei Dad, iddo ef y bo'r gogoniant a'r gallu byth bythoedd. **Amen.**

I'r Drindod sanctaidd a gogoneddus, Tad, Mab ac Ysbryd Glân, y bo'r fendith a'r anrhydedd, y diolch a'r moliant, yn awr a hyd byth. **Amen.**

I Dduw'r Tad, a'n carodd ni,  
a'n gwneud yn gymeradwy yn yr Anwylyd;  
i Dduw'r Mab, a'n carodd ni,  
a'n golchi oddi wrth ein pechodau trwy ei waed ei hun;  
i Dduw'r Ysbryd Glân,  
sy'n tywallt cariad Duw ar led yn ein calonnau;  
i'r un gwir Dduw  
y bo'r holl gariad a'r holl ogoniant  
dros amser a thros dragwyddoldeb. **Amen.**

#### *Naill ai*

Yr Arglwydd a fo gyda chwi.  
**A hefyd gyda thi.**

Bendithiwn yr Arglwydd.  
**I Dduw y bo'r diolch.**

#### *Neu*

Yr Arglwydd a fo gyda chwi.  
**A hefyd gyda thi.**

Ewch yn nhangnefedd Crist.  
**I Dduw y bo'r diolch.**

*Gellir defnyddio'r canlynol, gyda'r fendith neu hebdi, naill ai ar eu pen eu hunain neu yn union cyn Bendithiwn yr Arglwydd ac Ewch ymaith yn nhangnefedd Crist yn y ddau gyfarchiad terfynol olaf uchod.*

- 1 Bydded i dangnefedd Duw sydd uwchlaw pob deall gadw eich calonnau yng ngwybodaeth a chariad Duw a'i Fab Iesu Grist ...
- 2 Bydded i'r Arglwydd eich bendithio a'ch cadw; bydded i'r Arglwydd lewyrchu ei wyneb arnoch a bod yn drugarog wrthy; bydded i'r Arglwydd edrych arnoch yn gariadus a rhoi i chwi dangnefedd ...

To him who loves us and has set us free from our sins with his blood, who has made of us a royal house to serve as the priests of his God and Father: to him be glory and dominion for ever. **Amen.**

To the holy and glorious Trinity, Father, Son, and Holy Spirit, be blessing and honour, thanksgiving and praise, now and for ever. **Amen.**

To God the Father, who first loved us,  
and made us accepted in the Beloved;  
to God the Son, who loved us,  
and washed us from our sins by his own blood;  
to God the Holy Spirit,  
who sheds the love of God abroad in our hearts;  
to the one true God  
be all love and all glory,  
for time and for eternity. **Amen.**

#### *Either*

The Lord be with you.  
**And also with you.**

Let us bless the Lord.  
**Thanks be to God.**

#### *Or*

The Lord be with you.  
**And also with you.**

Go in the peace of Christ.  
**Thanks be to God.**

*The following dismissals may be used, with or without a blessing, either on their own or immediately before Let us bless the Lord and Go in the peace of Christ respectively in the above two sets of final greetings.*

- 1 The peace of God which is beyond all understanding guard your hearts in the knowledge and love of God and of his Son Jesus Christ ...
- 2 The Lord bless you and keep watch over you; the Lord's face shine on you and be gracious to you; the Lord look lovingly on you and give you peace ...

- 3 Bydded i Dduw pob gras, a'ch galwodd i'w ogoniant tragwyddol yng Nghrist, eich adfer, eich cadarnhau a'ch nerthu yn y Ffydd ...
- 4 Bydded i Dduw, a'ch dygodd o farwolaeth pechod i fywyd newydd yng Nghrist, eich cadw rhag syrthio a'ch gosod ym mhresenoldeb ei ogoniant â llawenydd mawr ...
- 5 Bydded i Grist, sydd yn eich maethu ag ef ei hun, y bara bywiol a'r wir winwydden, eich gwneud yn un mewn mawl a gwasanaeth, a'ch atgyfodi ar y dydd diwethaf ...
- 6 Bydded i Dduw, ffynhonnell gobaith, eich llenwi â phob llawenydd a thangnefedd wrth ichwi arfer eich ffydd, nes eich bod, trwy nerth yr Ysbryd Glân, yn gorlifo â gobaith ...
- 7 Bydded i gariad yr Arglwydd Iesu eich tynnu ato'i hun; i nerth yr Arglwydd Iesu eich cryfhau yn ei wasanaeth; ac i lawenydd yr Arglwydd Iesu lenwi eich calonau ...
- 8 Cadwch eich golwg ar Iesu a glwyfwyd am ein pechodau, fel y bo i chwi amlygu yn eich bywydau y cariad, y llawenydd a'r tangnefedd sy'n amlygu Iesu yn ei ddisgyblion ...

- 3 The God of all grace who called you to his eternal glory in Christ, restore, establish and strengthen you in the Faith ...
- 4 God, who from the death of sin raised you to new life in Christ, keep you from falling and set you in the presence of his glory with great joy ...
- 5 Christ, who nourishes you with himself, the living bread and the true vine, make you one in praise and service, and raise you up at the last day ...
- 6 The God of hope fill you with all joy and peace in believing, that by the power of the Holy Spirit you may be filled with hope ...
- 7 The love of the Lord Jesus draw you to himself; the power of the Lord Jesus strengthen you in his service; the joy of the Lord Jesus fill your hearts ...
- 8 Keep your eyes fixed on Jesus who was wounded for our sins, that you may bear in your life the love and joy and peace which are the marks of Jesus in his disciples ...

## ATODIADAU

**i**

### **FFURFIAU ERAILL AR Y GWEDDIAU O EDIFEIRWCH AR DDECHRAU'R FOREOL NEU'R HWYROL WEDDI**

- 1 Ceisiwch yr Arglwydd tra gellir ei gael;  
**galwch arno tra bydd yn agos.**
- Gadawed y drygionus eu ffyrdd  
**a'r anghyfiawn eu meddyliau.**
- Dychwelwch at yr Arglwydd, a fydd yn trugarhau;  
**at ein Duw, a fydd yn maddau yn helaeth.**

*Distawrwydd.*

**Arglwydd Dduw,  
yr ydym wedi pechu yn dy erbyn;  
yr ydym wedi gwneud yr hyn sydd ddrwg yn dy olwg.  
Y mae'n ddrwg gennym ac yr ydym yn edifarhau.  
Yn dy gariad, trugarha wrthym;  
glanha ni o'n pechod,  
adnewyddda ysbryd uniawn o'n mewn  
a dyro inni lawenydd dy iachawdwriaeth,  
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.**

Bydded i Dad pob trugaredd  
eich glanhau o'ch pechodau  
a'ch adnewyddu ar ei ddelw ei hun  
er mawl a gogoniant i'w enw,  
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

- 2 Dywedodd ein Harglwydd Iesu Grist: "Y gorchymyn cyntaf yw, 'Gwranddo, O Israel, yr Arglwydd ein Duw yw'r unig Arglwydd, a châr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon ac â'th holl enaid ac â'th holl feddwl ac â'th holl nerth.' Yr ail yw hwn, 'Câr dy gymydog fel ti dy hun.' Nid oes gorchymyn arall mwy na'r rhain."  
**Amen. Arglwydd, trugarha.**

*Distawrwydd.*

## APPENDICES

**i**

### **ALTERNATIVE FORMS OF THE PRAYERS OF PENITENCE AT THE BEGINNING OF MORNING OR EVENING PRAYER**

- 1 Seek the Lord while he may be found;  
**call upon him while he is near.**
- Let the wicked abandon their ways  
**and the unrighteous their thoughts.**
- Turn back to the Lord, who will have mercy;  
**to our God who will richly pardon.**

*Silence.*

**Lord God,  
we have sinned against you;  
we have done what is wrong in your sight.  
We are sorry and repent.  
In your love, have mercy on us;  
cleanse us from our sin,  
renew a right spirit within us  
and grant us the joy of your salvation,  
through Jesus Christ our Lord. Amen.**

May the Father of all mercies  
cleanse you from your sins  
and restore you in his image  
to the praise and glory of his name,  
through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

- 2 Our Lord Jesus Christ said: "The first commandment is: "Listen Israel! The Lord our God is the only Lord. Love the Lord your God with all your heart, with all your soul, with all your mind and with all your strength." The second is this: "Love your neighbour as yourself." There is no other commandment greater than these."  
**Amen. Lord have mercy.**

*Silence.*

Cyffeswn yn ostyngedig ein pechodau wrth yr hollalluog Dduw.

**Arglwydd ein Duw,  
yn ein pechod yr ydym wedi osgoi dy alwad.  
Y mae ein cariad atat fel cwmwl y bore,  
fel y gwllith a gilia'n gynnar.  
Trugarha wrthym;  
gwared ni rhag barn;  
rhwyma ein clwyfau ac adfywia ni  
yn Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.**

Rhodded yr Arglwydd i chwi faddeuant  
a rhyddhad o'ch pechodau,  
amser i wella eich bywyd  
a gras a chysur yr Ysbryd Glân. **Amen.**

- 3 *Gellir hefyd ddefnyddio'r ffurf o edifeirwch ar ddechrau Gweddi'r Nos.*

Let us humbly confess our sins to almighty God.

**Lord our God,  
in our sin we have avoided your call.  
Our love for you is like a morning cloud,  
like the dew that goes away early.  
Have mercy on us;  
deliver us from judgement;  
bind up our wounds and revive us  
in Jesus Christ our Lord. Amen.**

May the Lord grant you  
pardon and remission of all your sins,  
time for amendment of life  
and the grace and comfort of the Holy Spirit. **Amen.**

- 3 *The form of penitence at the beginning of Night Prayer may also be used.*

## ii

### TESTUNAU ADDAS I'W DEFNYDDIO YN Y FOREOL A'R HWYROL WEDDI YN YSTOD TYMHORAU ARBENNIG NEU AR THEMÂU ARBENNIG

*Awgrymiadau yn unig sydd yn y detholiad hwn. Nis bwriedir i fod yn detholiad cyflawn.*

#### ADFENT

##### *Brawddegau*

Paratowch yn yr anialwch ffordd yr Arglwydd, unionwch  
yn y diffeithwch briffordd i'n Duw ni. *Eseia 40:3*

O Immanuel, ein Brenin a'n Deddfroddwr,  
Gobaith y cenhedloedd a'u Gwardedwr:  
tyrd, ac achub ni, O Arglwydd ein Duw.

Edifarhewch, oherwydd y mae teyrnas nefoedd wedi dod  
yn agos. *Mathew 3:2*

##### *Bendith Agoriadol*

Bendigedig wyt ti, Dduw Goruchaf, Arglwydd pob peth!  
O'th dyner drugaredd  
y tyr arnom y wawrddydd oddi uchod,  
i chwalu gweddillion cysgodion y nos.  
A ninnau'n disgwyl dy ddyfod i'n plith,  
agor ein llygaid i ganfod dy bresenoldeb  
a chryfha ein dwylo i wneud dy ewyllys,  
fel y gall y byd dy feliannu'n llawen.  
**Bendigedig fyddo Duw am byth.**

##### *Antiffonau i'r Cantiglau*

Llawenyched yr anial a'r sychdir,  
gorfoledded y diffeithwch, a blodeuo.

*Neu*

Fe wêl holl gyrrau'r ddaear  
iachawdwriaeth ein Duw ni.

*Neu*

Gwyn eu byd y rhai sydd wedi eu gwahodd  
i wledd briodas yr Oen.

*Neu*

Dywed yr Arglwydd, "Yn wir, yr wyf yn dod yn fuan."  
Amen. Tyrd, Arglwydd Iesu.

## ii

### SUGGESTED TEXTS FOR USE AT MORNING AND EVENING PRAYER DURING PARTICULAR SEASONS AND ON PARTICULAR THEMES

*The selection given contains suggestions only and is not intended to be exhaustive.*

#### ADVENT

##### *Sentences*

In the wilderness prepare the way of the Lord; make  
straight in the desert a highway for our God. *Isaiah 40:3*

O Emmanuel, our King and Lawgiver,  
Hope of the nations and their Saviour:  
come and save us, O Lord our God.

Repent, for the Kingdom of heaven is at hand. *Matthew 3:2*

##### *Opening Prayer of Blessing*

You are blessed, Sovereign God, Lord of all!  
In your tender compassion  
the dawn from on high breaks upon us,  
to dispel the lingering shadows of night.  
As we look for your coming among us,  
open our eyes to behold your presence  
and strengthen our hands to do your will,  
that the world may rejoice to give you praise.  
**Blessed be God for ever.**

##### *Canticle Antiphons*

The wilderness and the dry land shall rejoice,  
the desert shall blossom and burst into song.

*Or*

All the ends of the earth  
shall see the salvation of our God.

*Or*

Happy are those who are invited  
to the wedding banquet of the Lamb.

*Or*

The Lord says, 'Surely I am coming soon.'  
Amen. Come, Lord Jesus.

Neu

*Yr Antiffonau "O" Mawr (i'w defnyddio o 17 i 23 Rhagfyr)*

*17 Rhagfyr: O Sapientia*

O Ddoethineb, sy'n dyfod o enau'r Goruchaf  
ac yn estyn o un eithaf y ddaear i'r llall,  
gan osod popeth mewn trefn â llaw gref a thyner:  
Tyrd a dysg inni lwybr barn gywir.

*18 Rhagfyr: O Adonai*

O Adonai, Tywysog tŷ Israel,  
a ymddangosaist i Foses mewn fflam dân yn y berth,  
a rhoi iddo'r gyfraith ar Sinai:  
Tyrd, â braich estynedig, i'n hachub.

*19 Rhagfyr: O Radix Jesse*

O Wreiddyn Jesse,  
sy'n sefyll megis baner o flaen y cenedloedd,  
ac y mae brenhinoedd yn tewi ger dy fron  
a'r holl bobloedd yn canu dy fawl:  
Tyrd i'n rhyddhau, nac oeda.

*20 Rhagfyr: O Clavis David*

O Allwedd Dafydd, Teyrnwialen tŷ Israel,  
yr hyn a gaei, nis egyr neb:  
a'r hyn a agori, nis caea neb:  
Tyrd, a dwg o'r carchar  
y rhai sy'n gorwedd mewn cadwynau  
a'r rhai sy'n trigo mewn tywyllwch a chysgod angau.

*21 Rhagfyr: O Oriens*

O Seren y Bore,  
Llewyrch y goleuni tragwyddol a haul cyfiawnder:  
Tyrd a thaena dy oleuni  
ar y rhai sy'n trigo mewn tywyllwch a chysgod angau.

*22 Rhagfyr: O Rex gentium*

O Frenin y cenedloedd, yr Arglwydd yr hiraethant amdano,  
Y conglfaen sy'n uno Iddew a Chenedl-ddyn:  
Tyrd ac achub ddynolryw,  
achub y gwŷr a'r gwragedd a luniaist ti o'r pridd.

Or

*Great 'O' Antiphons (for use from 17 to 23 December)*

*17 December: O Sapientia*

O Wisdom, coming forth from the mouth of the Most High,  
and stretching from end to end of creation,  
setting all things in order with strong and gentle hand:  
Come and teach us the path of true judgement.

*18 December: O Adonai*

O Adonai, O Prince of the house of Israel,  
who appeared to Moses in the burning bush,  
and delivered to him the law on Sinai:  
Come and deliver us with outstretched arm.

*19 December: O Radix Jesse*

O Root of Jesse,  
standing like a banner before the nations,  
in whose presence kings fall silent,  
whose praise all peoples shall sing:  
Come and set us free, do not delay.

*20 December: O Clavis David*

O Key of David, Sceptre of the house of Israel,  
what you close none shall open,  
what you open none shall close:  
Come and lead forth from prison those who lie in chains,  
who dwell in darkness and the shadow of death.

*21 December: O Oriens*

O Morning Star,  
O radiance of the everlasting light, O sun of righteousness:  
Come and shed your light  
on those who dwell in darkness and the shadow of death.

*22 December: O Rex gentium*

O King of the nations, Lord for whom they long,  
O cornerstone that binds in one Jew and Gentile:  
Come and save mankind,  
save the men and women you have moulded from the earth.



23 *Rhagfyr: O Immanuel*

O Immanuel,  
ein brenin a'n deddfroddwr,  
y mae'r cenhedloedd yn disgwyl amdano,  
O Waredwr yr holl bobloedd:  
Tyrd, Arglwydd ein Duw, a gwared ni.

**Cantiglau**

15 Cân am yr Anialwch (*Eseia 35:1, 2b-4a, 4c-6, 10*)  
18 Cân am Ddychweliad yr Arglwydd (*Eseia 52:7-10*)  
36 Llawenhewch yn yr Arglwydd (*Philippiaid 4:4-7*)  
44 Cân am yr Oen (*Datguddiad 19:1b, 5b, 6b, 7, 9b*)

**Anfon Allan**

Llewyrched Crist, Haul Cyfiawnder, arnoch,  
a chwalu'r tywyllwch o'ch blaen ...

*Neu*

Bydded i Dduw Dad,  
a garodd y byd gymaint nes iddo anfon ei unig Fab,  
roddi i chwi ras i baratoi at fywyd tragwyddol. **Amen.**

Bydded i Dduw Fab,  
sy'n dod atom yn Waredwr ac yn Farnwr,  
ddangos i chwi'r llwybr o dywyllwch i oleuni. **Amen.**

Bydded i Dduw Ysbryd Glân,  
trwy'r hwn y beichiogodd y Forwyn Fair ar Grist,  
eich cynorthwyo i ddwyn ffrwythau sancteiddrwydd. **Amen.**

A bendith ...

23 *December: O Emmanuel*

O Emmanuel,  
our king and lawgiver, for whom the nations wait,  
O Saviour of all people:  
Come, Lord our God, and save us.

**Canticles**

15 A Song of the Wilderness (*Isaiah 35:1, 2b-4a, 4c-6, 10*)  
18 A Song of the Lord's Return (*Isaiah 52:7-10*)  
36 Rejoice in the Lord (*Philippians 4:4-7*)  
44 A Song of the Lamb (*Revelation 19:1b, 5b, 6b, 7, 9b*)

**Dismissals**

Christ the Sun of Righteousness shine upon you, scatter  
the darkness from before you ...

*Or*

May God the Father  
who loved the world so much he sent his only Son,  
give you grace to prepare for eternal life. **Amen.**

May God the Son,  
who comes to us as Redeemer and Judge,  
show you the path from darkness to light. **Amen.**

May God the Holy Spirit,  
by whom the Virgin Mary conceived the Christ,  
help you to bear the fruits of holiness. **Amen.**

And the blessing ...

## NADOLIG

### *Brawddegau*

Wele, yr wyf yn cyhoeddi i chwi y newydd da am lawenydd mawr a ddaw i'r holl bobl: ganwyd i chwi heddiw yn nhref Dafydd, Waredwr, yr hwn yw'r Meseia, yr Arglwydd.

*Luc 2:10–11*

Wele, y mae preswylfa Duw gyda'r ddynoliaeth; bydd ef yn preswyllo gyda hwy, byddant hwy yn bobloedd iddo ef, a bydd Duw ei hun gyda hwy, yn Dduw iddynt. *Datguddiad 21:3*

A daeth y Gair yn gnawd a phreswyllo yn ein plith, yn llawn gras a gwirionedd; gwelsom ei ogoniant ef, ei ogoniant fel unig Fab yn dod oddi wrth y Tad. *Ioan 1:14*

### *I'w defnyddio ar Noswyl Nadolig*

“Wele, bydd y wryf yn beichiogi, ac yn esgor ar fab, a gelwir ef Immanuel”, hynny yw, o'i gyfieithu, “Y mae Duw gyda ni”.

*Mathew 1:23*

### *Bendith Agoriadol*

Gogoniant i Dduw yn nef y nefoedd,  
a thangnefedd ar y ddaear y daeth ef iddi.  
Fel y bugeiliaid, ar anogaeth angylion,  
bydded inni dy geisio a'th ganfod,  
wedi dy eni o Fair ym Methlehem orlawn,  
a'th ogoneddu a'th foliannu  
am y cwbl a glywsom ac a welsom.

**Bendigedig fyddo Duw am byth.**

### *Antiffonau i'r Cantiglau*

Bachgen a aned i ni, mab a roed i ni,  
ac fe'i gelwir “Tywysog Heddychlon”.

*Neu*

Cyfod, llewyrcha, oherwydd daeth dy oleuni,  
cyfododd gogoniant yr Arglwydd arnat.

*Neu*

Gogoniant yn y goruchaf i Dduw,  
a thangnefedd i'w bobl ar y ddaear.

*Neu*

Y bobl oedd yn rhodio mewn tywyllwch  
a welodd oleuni mawr.

## CHRISTMAS

### *Sentences*

I bring you news of great joy, a joy to be shared by the whole people. Today in the town of David a Saviour has been born to you; he is Christ the Lord. *Luke 2:10–11*

Here God lives among men. He will make his home among them; they shall be his people, and he will be their God; his name is God-with-them. *Revelation 21:3*

The word became flesh; he made his home among us, and we saw his glory, such glory as befits the Father's only Son, full of grace and truth. *John 1:14*

### *For use on Christmas Eve*

'A virgin will conceive and bear a son, and he shall be called Emmanuel', a name which means 'God is with us'.

*Matthew 1:23*

### *Opening Prayer of Blessing*

Glory to God in highest heaven,  
and peace on the earth to which he came.  
Like the shepherds, encouraged by angels,  
may we still seek and find you,  
born of Mary in crowded Bethlehem,  
and glorify and praise you  
for all we have heard and seen.

**Blessed be God for ever.**

### *Canticle Antiphons*

A child is born to us, a son is given to us,  
and his name will be called 'Prince of Peace'.

*Or*

Arise, shine, for your light has come,  
the glory of the Lord has risen upon you.

*Or*

Glory to God in highest heaven,  
and peace to his people on earth.

*Or*

The people who walked in darkness  
has seen a great light.

*Neu, ar 24 Rhagfyr*

O Wryf y gwryfon, sut y gall hyn fod?  
Ferched Jerwsalem, na ryfeddwch ataf fi,  
oherwydd dirgelwch dwyfoi  
yw'r hyn a welwch chwi.

### **Cantiglau**

- 12 Cân am y Meseia (*Eseia 9:2–4b, 6–7*)  
13 Cân am Un Dewisedig yr Arglwydd (*Eseia 11:1–4a, 6, 9*)  
52 Cantigl Blygain (*Y Brawd Madog ap Gwallter*)

### **Anfon Allan**

Bydded i Grist, a gasglodd yn un bopeth daearol a nefol,  
trwy gymryd ein cnawd ni, eich llenwi â'i lawenydd a'i  
dangnefedd ...

*Neu*

Bydded i Grist Fab Duw, a aned o Fair, eich llenwi â'i ras  
fel yr ymddiriedoch yn ei addewidion ac ufuddhau i'w  
ewylllys ...

*Neu*

Bydded i Dduw Dad,  
sy'n teyrnasu yn nef y nefoedd,  
ddwyn i chwi ras a gwirionedd y Gair a wnaed yn gnawd. **Amen.**

Bydded i Grist Fab Duw, a aned o Fair,  
eich llenwi â'i ras  
i ymddiried yn ei addewidion ac i ufuddhau i'w ewylllys. **Amen.**

Bydded i Dduw Ysbryd Glân,  
y beichiogodd Mair trwy ei ras,  
breswyllo yn eich calonnau mewn cariad. **Amen.**

A bendith ...

*Or, on 24 December*

O Virgin of virgins, how may this be?  
Daughters of Jerusalem, marvel not at me,  
for that which you behold  
is a divine mystery.

### **Canticles**

- 12 A Song of the Messiah (*Isaiah 9:2–4b, 6–7*)  
13 A Song of God's Chosen One (*Isaiah 11:1–4a, 6, 9*)  
52 Plygain canticle (*Brother Madog ap Gwallter*)

### **Dismissals**

Christ, who by taking our flesh, gathered into one all  
things earthly and heavenly, fill you with his joy and  
peace ...

*Or*

Christ the Son of God, born of Mary, fill you with his  
grace to trust his promises and obey his will ...

*Or*

God the Father,  
who reigns in highest heaven,  
bring you the grace and truth of the Word made flesh. **Amen.**

Christ the Son of God, born of Mary,  
fill you with his grace  
to trust his promises and obey his will. **Amen.**

God the Holy Spirit,  
by whose power Mary conceived,  
dwell in your hearts in love. **Amen.**

And the blessing ...

## YSTWYLL

### *Brawddegau*

Fe'th wnaif di yn oleuni i'r cenedloedd, i'm  
hiachawdwriaeth gyrraedd hyd eithaf y ddaear. *Eseia 49:6*

Ond yn awr, yng Nghrist Iesu, yr ydych chwi, a fu  
unwaith ymhell, wedi eich dwyn yn agos trwy waed Crist.  
Oherwydd ef yw ein heddwch ni. *Effesiaid 2:13–14*

Syrthiasant i lawr a'i addoli, ac wedi agor eu trysorau  
offrymasant iddo anrhegion, aur a thus a myrr. *Mathew 2:11*

### *Bendith Agoriadol*

Dduw gogoneddus,  
yr wyt yn dy ddatguddio dy hun i'r byd  
ac yn ein galw ni i fod yn offeiriadaeth frenhinol,  
i foliannu Crist  
a'n galwodd ni o dywyllwch  
i'w ryfeddol oleuni ef.  
Bydded inni ein hoffrymu ein hunain yn aberth byw,  
sanctaidd a derbynol i ti,  
Frenin breninoedd, ac Arglwydd arglwyddi.  
**Bendigedig fyddo Duw am byth.**

### *Antiffonau i'r Cantiglau*

Addolwch yr Arglwydd mewn prydfferthwch sancteiddrwydd,  
ofned yr holl ddaear ger ei fron ef.

*Neu*

Fe ddaw'r cenedloedd at dy oleuni,  
a brenhinoedd at ddisgleirdeb dy wawr.

*Neu*

Tywys ni, O Dduw, mewn llawenydd,  
i rodio yng ngoleuni dy ogoniant.

*Neu*

Bydded fy ngweddi fel arogl dardh o'th flaen,  
ac estyniad fy nwylo fel offrwm hwyrol.

*Neu, ar 6 Ionawr*

Ar y dydd sanctaidd hwn cofir tri dirgelwch:  
y mae'r seren heddiw yn arwain y Seryddion at y baban Iesu;  
y mae'r dŵr heddiw yn troi yn win i'r wledd briodas;  
y mae Crist heddiw yn ewyllysio cael ei fedyddio  
gan Ioan yn afon Iorddonen  
i ddwyn ni i iachawdwriaeth i ni.

## EPIPHANY

### *Sentences*

I shall appoint you a light to the nations so that my  
salvation may reach earth's farthest bounds. *Isaiah 49:6*

Once you were far off, but now you have been brought  
near through the shedding of Christ's blood. For he is  
himself our peace. *Ephesians 2:13–14*

They opened their treasure chests and presented gifts to  
him: gold, frankincense and myrrh. *Matthew 2:11*

### *Opening Prayer of Blessing*

Glorious God,  
you reveal yourself to the world  
and call us to be a royal priesthood,  
to show forth the praises of Christ  
who has called us out of darkness  
into his marvellous light.  
May we present ourselves as a living sacrifice,  
holy and acceptable to you,  
King of all kings and Lord of all lords.  
**Blessed be God for ever.**

### *Canticle Antiphons*

Worship the Lord in the beauty of holiness,  
let the whole earth stand in awe of him.

*Or*

Nations will stream to your light,  
and kings to your dawning brightness.

*Or*

Lead us, God, with joy,  
to walk in the light of your glory.

*Or*

Let my prayer rise before you as incense,  
the lifting up of my hands as the evening sacrifice.

*Or, on 6 January*

Three mysteries mark this holy day:  
today the star leads the Magi to the infant Christ;  
today water is changed into wine for the wedding feast;  
today Christ wills to be baptized by John in the river Jordan  
to bring us salvation.

### **Cantiglau**

- 17 Cân am y Cyfamod (*Eseia 42:5–8a*)  
20 Daeth dy Oleuni (*Eseia 60:1–3, 11, 18–19*)  
43 Cân y Rhai a Brynwyd (*Datguddiad 4:8b, 11; 5:9–10; 15:3–4*)

### **Anfon Allan**

Bydded i Grist Fab Duw  
lonni eich calonnau â newyddion da ei Deyrnas ...

### **Neu**

Bydded i Dduw Dad,  
a arweiniodd y doethion â seren ddisglair  
i ddod o hyd i'r Crist, llewyrch o lewyrch,  
eich arwain chwithau yn eich pererindod  
i ddod o hyd i'r Arglwydd. **Amen.**

Bydded i Dduw Fab,  
a droes y dŵr yn win yn y wledd briodas yng Nghana,  
drawsffurfio eich bywydau a llonni eich calonnau. **Amen.**

Bydded i Dduw Ysbryd Glân,  
a ddisgynnodd megis colomen ar ei Fab, yr Anwylyd,  
yn afon Iorddonen,  
dywallt ei roddion arnoch chwi  
a olchwyd yn nyfroedd yr ailenedigaeth. **Amen.**

A bendith ...

### **GARAWYS**

#### **Brawddegau**

Ceisiwch yr Arglwydd tra gellir ei gael, galwch arno tra bydd yn agos. Gadawed y drygionus ei ffordd, a'r un ofer ei fwriadau, a dychwelyd at yr Arglwydd, iddo drugarhau wrtho, ac at ein Duw ni, oherwydd fe faddau'n helaeth. *Eseia 55:6–7*

Dywedodd Iesu: "Ewch i mewn trwy'r porth cyfyng; oherwydd llydan yw'r porth ac eang yw'r ffordd sy'n arwain i ddistryw, a llawer yw'r rhai sy'n mynd ar hyd-ddi. Ond cyfyng yw'r porth a chul yw'r ffordd sy'n arwain i fywyd, ac ychydig yw'r rhai sy'n ei chael." *Mathew 7:13–14*

Ond prawf Duw o'r cariad sydd ganddo tuag atom ni yw bod Crist wedi marw drosom pan oeddem yn dal yn bechaduriaid. *Rhufeiniaid 5:8*

### **Canticles**

- 17 A Song of the Covenant (*Isaiah 42:5–8a*)  
20 Your Light has come (*Isaiah 60: 1–3, 11, 18–19*)  
43 A Song of the Redeemed (*Revelation 4:8b, 11; 5:9–10; 15:3–4*)

### **Dismissals**

Christ the Son of God  
gladden your hearts with the good news of his Kingdom ...

### **Or**

May God the Father,  
who led the wise men by the shining of a star  
to find the Christ, the light from light,  
lead you also in your pilgrimage to find the Lord. **Amen.**

May God the Son,  
who turned water into wine at the wedding feast at Cana,  
transform your lives and make glad your hearts. **Amen.**

May God the Holy Spirit,  
who, at the river Jordan,  
descended upon the Beloved Son, in the likeness of a dove,  
pour out his gifts on you  
who have been washed in the waters of new birth. **Amen.**

And the blessing ...

### **LENT**

#### **Sentences**

Seek the Lord while he may be found, call upon him while he is near. Let the wicked forsake their way and the unrighteous their thoughts; let them return to the Lord, that he may have mercy on them, and to our God, for he will abundantly pardon. *Isaiah 55:6–7*

Jesus said: 'Enter through the narrow gate; for the gate is wide and the road is easy that leads to destruction, and there are many who take it. For the gate is narrow and the road is hard that leads to life and there are few who find it.' *Matthew 7:13–14*

God proves his love for us in that while we were still sinners Christ died for us. *Romans 5:8*

### ***Bendith Agoriadol***

Hollalluog Dduw,  
porthaist dy bobl yn yr anialwch,  
a'u tywys â chwmwl a thân,  
a rhoi gorchmynion i osod trefn ar eu bywydau.  
Dyro inni lygaid i ganfod dy fwriad,  
dyfalbarhad i ddilyn lle yr arweini di,  
a dewrder i adnabod y gwirionedd sy'n ein rhyddhau;  
fel y bendithir ein bywydau  
ac y gwneler dy ewyllys.

**Bendigedig fyddo Duw am byth.**

### ***Antiffonau i'r Cantiglau***

Daw cyfiawnder Duw atom fel y cawodydd,  
fel glaw y gwanwyn yn dyfrhau y ddaear.

*Neu*

Crea galon lân ynof, O Dduw,  
ac adnewyddda ysbryd uniawn o'm mewn.

*Neu*

Yn y tywyllwch fe gyfyd Crist, eich goleuni,  
ac fe ffrydia eich iachâd fel y wawr.

*Neu*

Paid â mynd i farn â'th was,  
oherwydd nid oes neb byw yn gyfiawn o'th flaen di.

### ***Cantiglau***

19 Cân am Air yr Arglwydd (*Eseia 55:6–11*)

26 Y Gwynfydau (*Mathew 5:3–12*)

50 *Salvator Mundi*

### ***Opening Prayer of Blessing***

Almighty God,  
you fed your people in the wilderness,  
and guided them by cloud and fire,  
giving commandments to order their lives.  
Give us eyes to see your purpose,  
perseverance to follow where you lead,  
and courage to know the truth that sets us free;  
that our lives may be blessed  
and your will may be done.

**Blessed be God for ever.**

### ***Canticle Antiphons***

God's justice will come to us like the showers,  
like the spring rains that water the earth.

*Or*

Create in me a clean heart, O God,  
and renew a right spirit within me.

*Or*

Christ your light shall rise in the darkness,  
and your healing shall spring up like the dawn.

*Or*

Enter not into judgement with your servant,  
for in your sight shall no-one living be justified.

### ***Canticles***

19 A Song of the Word of the Lord (*Isaiah 55:6–11*)

26 The Beatitudes (*Matthew 5:3–12*)

50 *Salvator Mundi*

### **Anfon Allan**

Rhodded Crist ras i chwi i gynyddu mewn  
sancteiddrwydd, i ymwadu â chwi eich hunain, ac i godi  
eich croes a'i ddilyn ef ...

*Neu*

Boed i Dduw'r trugaredd eich trawsffurfio trwy ei ras a  
rhoi i chwi'r nerth i orchfygu temtasiwn ...

*Neu*

Bydded i Dduw Dad,  
nad yw'n casáu ysbryd drylliedig,  
roddi i chwi galon edifeiriol. **Amen.**

Bydded i Grist,  
a dduw ein pechodau ni yn ei gorff ar y pren,  
eich rhyddhau i farw i bechod ac i fyw i gyfiawnder. **Amen.**

Bydded i'r Ysbryd Glân,  
sy'n ein harwain i bob gwirionedd,  
lefaru wrthy eiriau maddeuant a thangnefedd. **Amen.**

A bendith ...

### **TYMOR Y DIODDEFAINT**

#### **Brawddegau**

Dywedwch wrth ferch Seion, "Wele dy frenin yn dod atat,  
yn ostyngedig ac yn marchogaeth ar asyn, ac ar ebol, llwdn  
anifail gwaith." *Mathew 21:5 (Sul y Blodau)*

"Gwylwch, a gweddiwch na ddewch i gael eich profi. Y  
mae'r ysbryd yn barod ond y cnawd yn wan." *Mathew 26:41*

O'i gael ar ddull dyn, darostyngodd Crist ei hun, gan fod yn  
ufudd hyd angau, ie, angau ar groes. Am hynny tra-dyrchafodd  
Dduw ef, a rhoi iddo'r enw sydd goruwch pob enw.  
*Philippiaid 2:8-9*

### **Dismissals**

Christ give you grace to grow in holiness, to deny  
yourselves, take up your cross and follow him ...

*Or*

The God of mercy transform you by his grace and give you  
strength to overcome temptation ...

*Or*

May God the Father,  
who does not despise the broken spirit,  
give to you a contrite heart. **Amen.**

May Christ,  
who bore our sins in his body on the tree,  
set you free to die to sin and live in righteousness. **Amen.**

May the Holy Spirit,  
who leads us into all truth,  
speak to you words of pardon and peace. **Amen.**

And the blessing ...

### **PASSIONTIDE**

#### **Sentences**

Tell the daughter of Zion, 'Here is your king, who comes  
to you in gentleness, riding on a donkey, on the foal of a  
beast of burden.' *Matthew 21:5 (Palm Sunday)*

'Stay awake, and pray that you may be spared the test. The  
spirit is willing but the flesh is weak.' *Matthew 26:41*

Christ became obedient to the point of death, even death  
on the Cross; therefore God also highly exalted him and  
gave him the name that is above every name.  
*Philippians 2:8-9*

### ***Bendith Agoriadol***

Dduw sanctaidd, sanctaidd a chryf, sanctaidd ac anfarwol!  
Trwy ei Groes a'i Ddiodefaint  
cyhoeddodd ein Gwaredwr Crist dy gariad,  
maddeuodd i'w lofruddion,  
ac addo i'r lleidr edifeiriol  
le y dydd hwnnw gydag ef ym Mharadwys.  
I'th ddwylo di y cyflwynwn ein hysbryd.  
Cyflawna dy ewyllys yn ein byd,  
lle y mae llawer yn sychedu,  
llawer yn teimlo'n wrthodedig;  
a dwg i'n plith y cymod a'r gofal brawdol  
a ddangoswyd ac a gynigiwyd inni gan dy Fab,  
ein Gwaredwr Iesu Grist.

**Bendigedig fyddo Duw am byth.**

### ***Antiffonau i'r Cantiglau***

Addolwn di, O Grist, a bendithiwn di,  
am i ti, trwy dy Groes sanctaidd, brynu'r byd.

*Neu*

Dug Crist ein pechodau yn ei gorff ar y pren,  
fel y byddem farw i bechod a byw i gyfiawnder.

*Neu*

Trwy aberthu dy fywyd ar y Groes, fe ryddheast dy bobl,  
arnat ti y dibynnwn i'n hachub a'n cynorthwyo.

*Neu, ar Sul y Blodau*

Hosanna i Fab Dafydd;  
bendigedig yw'r un sy'n dyfod yn enw'r Arglwydd.

### ***Cantiglau***

21 Galarnad (*Galarnad 1:12, 16; 3:19, 22–28, 31–33*)

41 Càn am Grist y Gwas (*1 Pedr 2:21–25*)

51 Duw'r Gwaredwr (*Llyfr Du Caerfyrddin*)

### ***Opening Prayer of Blessing***

Holy God, holy and strong, holy and immortal!  
By his Cross and Passion,  
our Saviour Christ declared your love,  
forgave his killers,  
and promised to the penitent thief  
a place that day with him in Paradise.  
Into your hands we commit our spirit.  
Accomplish your will in our world,  
where many thirst, many feel forsaken;  
and bring reconciliation and the brotherly care  
shown and offered to us by your Son,  
our Saviour Jesus Christ.

**Blessed be God for ever.**

### ***Canticle Antiphons***

We adore you, O Christ, and we bless you,  
because by your holy Cross you have redeemed the world.

*Or*

Christ himself bore our sins in his body on the tree,  
that we might die to sin and live to righteousness.

*Or*

By your life laid down on the Cross, you set your people free;  
we look to you to save and help us.

*Or, on Palm Sunday*

Hosanna to the Son of David;  
blessed is he who comes in the name of the Lord.

### ***Canticles***

21 A Song of Lamentation (*Lamentations 1:12, 16; 3:19, 22–28, 31–33*)

41 A Song of Christ the Servant (*1 Peter 2:21–25*)

51 God the Saviour (*Black Book of Carmarthen*)



### *Anfon Allan*

Bydded i'r Crist croeshoeliedig eich tynnu ato ef ei hun,  
sy'n sylfaen ddiogel ffydd,  
yn gynhaliwr cadarn gobaith  
ac yn sicrwydd maddeuant pechodau ...

#### *Neu*

Bydded i Dduw,  
a alwodd yr holl fyd i gydnabod a moliannu ei fawrhydi  
trwy Ddiodeffaint achubol ei Fab,  
ddangos i chwi rym rhyfeddol y Groes,  
y datguddir ynddi farnedigaeth y byd,  
a llewyrch gogoniant y Croeshoeliedig ...

#### *Neu*

Bydded i Dduw Dad,  
y cyflwynodd ein Harglwydd ei ysbryd i'w ddwylo,  
roddi i chwi ras i ymddiried ynddo mewn bywyd a  
marwolaeth. **Amen.**

Bydded i Grist,  
a faddeuodd ar y Groes i'r lleidr edifeiriol,  
eich iacháu trwy ei glwyfau. **Amen.**

Bydded i'r Ysbryd Glân,  
sy'n gweddio o'n mewn ag ocheneidiau y tu hwnt i eiriau,  
eich cynnal a'ch nerthu  
wrth i chwi ddilyn ffordd y Groes. **Amen.**

A bendith ...

### *Dismissals*

Christ crucified draw you to himself;  
the sure ground of faith,  
the firm support for hope  
and the assurance of sins forgiven ...

#### *Or*

God,  
who, through the saving Passion of his Son,  
has called the whole world  
to acknowledge and praise his majesty,  
show to you the wondrous power of the Cross,  
in which the judgement of this world is revealed  
and the glory of the Crucified shines forth ...

#### *Or*

May God the Father,  
into whose hands our Lord committed his spirit,  
give you grace to trust him in life and death. **Amen.**

May Christ,  
who on the Cross forgave the penitent thief,  
heal you by his wounds. **Amen.**

May the Holy Spirit,  
who prays within us with sighs too deep for words,  
support and strengthen you  
as you follow the way of the Cross. **Amen.**

And the blessing ...

## Y PASG

### **Brawddegau**

Y mae'r Arglwydd yn wir wedi ei gyfodi. Halelwia! *Luc 24:34*

Y gwir yw fod Crist wedi ei gyfodi oddi wrth y meirw, yn flaenffrwyth y rhai sydd wedi huno. Oherwydd fel y mae pawb yn marw yn Adda, felly hefyd y gwneir pawb yn fyw yng Nghrist. *1 Corinthiaid 15:20, 22*

Llefarodd yr angel wrth y gwagedd: "Peidiwch chwi ag ofni," meddai. "Gwn mai ceisio Iesu, a groeshoeliwyd, yr ydych. Nid yw ef yma, oherwydd y mae wedi ei gyfodi, fel y dywedodd y byddai." *Mathew 28:5–6*

### **Bendith Agoriadol**

Ardderchocaf Arglwydd bywyd,  
y gorchfygodd dy Fab Iesu Grist angau  
a chyfodi'n fuddugoliaethus o'r bedd:  
bydded inni rodio yn ei gwmni,  
clywed dirgelwch yr Ysgrythur yn cael ei ddehongli inni,  
ac, â'n calonau'n llosgi o'n mewn, adnabod ei bresenoldeb ef  
ar doriad y bara,  
oherwydd ein Gwaredwr a gyfododd yn wir – Halelwia!  
**Bendigedig fyddo Duw am byth.**

### **Antiffonau i'r Cantiglau**

Halelwia! Cyfododd yr Arglwydd  
yn ôl ei addewid i chwi. Halelwia!

Neu

Cyfododd Duw Grist Iesu oddi wrth y meirw,  
fel y gallwn ninnau fod â gobaith sicr ynddo.

Neu

Parodd Duw ein geni ni o'r newydd i obaith bywiol  
trwy atgyfodiad Iesu Grist oddi wrth y meirw.

Neu

Yr Arglwydd yw fy nerth a'm cân,  
a daeth yn iachawdwriaeth i mi.

### **Cantiglau**

10 Cân Moses a Miriam (*Exodus 15:1b–3, 6, 8a, 10b, 13, 17*)

14 Cân am Achubiaeth (*Eseia 12:2–6*)

32 Anthemau'r Pasg

39 Cân o Ffydd (*1 Pedr 1:3–5, 18–21*)

## EASTER

### **Sentences**

The Lord has risen indeed. Alleluia! *Luke 24:34*

The truth is Christ was raised to life – the firstfruits of the harvest of the dead. As in Adam all die, so in Christ all will be brought to life. *1 Corinthians 15:20, 22*

The angel said to the women: 'Do not be afraid. I know that you are looking for Jesus who was crucified. He is not here; for he has been raised, as he promised.'

*Matthew 28:5–6 alt*

### **Opening Prayer of Blessing**

Most glorious Lord of life,  
whose Son Jesus Christ conquered death  
and rose victorious from the grave:  
may we walk in his company,  
hear the mystery of the Scriptures unfold to us,  
and, with burning hearts, know his presence  
in the breaking of the bread,  
for our Saviour is risen indeed – Alleluia!  
**Blessed be God for ever.**

### **Canticle Antiphons**

Alleluia! The Lord is risen,  
as he promised to you. Alleluia!

Or

God has raised Christ Jesus from the dead,  
so that we have a sure hope in him.

Or

God has given us new birth into a living hope  
by the resurrection of Jesus Christ from the dead.

Or

The Lord is my strength and my song,  
and has become my salvation.

### **Canticles**

10 The Song of Moses and Miriam  
(*Exodus 15:1b–3, 6, 8a, 10b, 13, 17*)

14 A Song of Deliverance (*Isaiah 12:2–6*)

32 The Easter Anthems

39 A Song of Faith (*1 Peter 1:3–5, 18–21*)

### *Anfon Allan*

Bydded i Dduw tangnefedd, a ddug yn ôl oddi wrth y meirw ein Harglwydd Iesu, Bugail mawr y defaid, trwy waed y cyfamod tragwyddol, eich cymhwyso â phob daioni, er mwyn ichwi wneud ei ewyllys ef, a bydded iddo lunio ynom yr hyn sy'n gymeradwy ganddo, trwy Iesu Grist, y byddo'r gogoniant iddo byth bythoedd ...

#### *Neu*

Bydded i'r Hollalluog Dduw, a roddodd inni'r fuddugoliaeth trwy atgyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist, roi i chwi lawenydd a thangnefedd wrth gredu ...

#### *Neu*

Bydded i Dduw'r Tad, y cyfodwyd Crist oddi wrth y meirw trwy ei ogoniant, eich cryfhau i rodio gydag ef yn ei fywyd atgyfodedig ...

#### *Neu*

Bydded i Dduw Dad,  
y cyfodwyd, trwy ei ogoniant, Grist oddi wrth y meirw,  
eich deffro i fywyd newydd. **Amen.**

Bydded i Grist,  
a gerddodd gyda'i ddisgyblion ar y ffordd i Emaus,  
gynnau ynoch dân ei gariad  
a'ch nerthu i gydgerdded ag ef yn ei fywyd atgyfodedig.  
**Amen.**

Bydded i'r Ysbryd Glân, a anadlodd yr Arglwydd ar ei ddisgyblion,  
eich anfon allan i ddwyn ei fywyd newydd i'r byd. **Amen.**

A bendith ...

### *Dismissals*

The God of peace who brought back from the dead our Lord Jesus, the great Shepherd of the sheep, through the blood of the eternal covenant, make you perfect in every good deed to do his will, creating in you that which is pleasing to him, through Jesus Christ, to whom be glory for ever ...

#### *Or*

Almighty God, who through the resurrection of our Lord Jesus Christ has given us the victory, give you joy and peace in believing ...

#### *Or*

God the Father, by whose glory Christ was raised from the dead, strengthen you to walk with him in his risen life ...

#### *Or*

May God the Father,  
by whose glory Christ was raised from the dead,  
awaken you to new life. **Amen.**

May Christ  
who walked with the disciples on the road to Emmaus,  
kindle in you the fire of his love  
and strengthen you to walk with him in his risen life. **Amen.**

May the Holy Spirit,  
whom the risen Lord breathed into his disciples,  
send you out to bring his new life to the world. **Amen.**

And the blessing ...

## TYMOR Y DYRCHAFael

### Brawddegau

Dywedodd yr angel: “Wŷr Galilea, pam yr ydych yn sefyll yn edrych tua'r nef? Bydd yr Iesu hwn, sydd wedi ei gymryd i fyny oddi wrthych i'r nef, yn dod yn yr un modd ag y gwelsoch ef yn mynd i'r nef.” *Actau 1:11*

Esgynnodd Duw gyda bloedd, yr Arglwydd gyda sain utgorn. *Salm 47:5*

Gan fod gennym, felly, archoffeiriad mawr sydd wedi mynd drwy'r nefoedd, sef Iesu, Mab Duw, gadewch inni lynu wrth ein cyffes. *Hebreaid 4:14*

### Bendith Agoriadol

Frenin brenhinoedd ac Arglwydd arglwyddi,  
a gyfododd ac a esgynnodd ac a ogoneddwyd:  
gadewaist inni orchymyn parhaus i fynd allan,  
gwneud disgyblion o bob cenedl,  
bedyddio, dysgu a byw i'th ogoniant.  
Bydded inni ganfod dy bresenoldeb gyda ni bob amser,  
hyd ddiwedd amser. Halelwia!

**Bendigedig fyddo Duw am byth.**

### Antiffonau i'r Cantiglau

Codwch eich pennau, O byrth;  
ymddyrchefwch, ddrysau tragwyddol,  
i frenin y gogoniant ddod i mewn.

Neu

Ewch, a dywedwch wrth fy mrodyr  
fy mod yn esgyn at fy Nhad i, a'ch Tad chwithau,  
at fy Nuw i, a'ch Duw chwithau.

Neu

Duw biau llywodraethwyr y ddaear,  
a dyrchafedig yw ef.

### Cantiglau

- 2 Cân am Fuddugoliaeth Duw (*Salm 47*)
- 28 *Benedictus*
- 35 Cân am Ogoniant Crist (*Philippiaid 2:6–11*)
- 53 Gogoneddus Arglwydd (*Llyfr Du Caerfyrddin*)

## ASCENSIONTIDE

### Sentences

The angel said: ‘Men of Galilee, why do you stand looking up towards heaven? This Jesus, who has been taken up from you into heaven, will come in the same way as you saw him go into heaven.’ *Acts 1:11*

God is gone up with a shout of joy: and the Lord with the sound of the trumpet. *Psalm 47:5*

Since we have a great high priest who has passed through the heavens, Jesus the Son of God, let us hold fast to the faith we profess. *Hebrews 4:14*

### Opening Prayer of Blessing

King of kings and Lord of lords,  
risen, ascended, glorified:  
you have left us a lasting command to go out,  
make disciples of all nations,  
baptise, teach and live to your glory.  
May we perceive your presence with us always,  
even to the end of time. Alleluia!

**Blessed be God for ever.**

### Canticle Antiphons

Lift up your heads, O gates;  
lift them high, everlasting doors,  
and the king of glory shall come in.

Or

Go and tell my brothers:  
I am ascending to my Father and your Father,  
to my God and your God.

Or

The rulers of the earth belong to God,  
and he is highly exalted.

### Canticles

- 2 A Song of God's Triumph (*Psalm 47*)
- 28 *Benedictus*
- 35 The Song of Christ's Glory (*Philippians 2:5b–11*)
- 53 Glorious Lord (*Black Book of Carmarthen*)

### *Anfon Allan*

Bydded i Grist, ein Brenin dyrchafedig,  
dywallt arnoch ei roddion helaeth  
fel y gwasanaethoch ef  
a theyrnasu gydag ef mewn gogoniant. **Amen.**

### *Neu*

Rhodded Crist i chwi ras  
i fynd, mewn ufudd-dod i'w orchymyn,  
a gwneud disgyblion o'r holl genhedloedd,  
ac i wybod y bydd ef gyda chwi hyd ddiwedd amser ...

### *Neu*

Bydded i Dduw Dad,  
a roes i'w Fab yr enw sydd goruwch pob enw,  
ddyrchafu eich calonnau  
i'w addoli mewn ysbryd a gwirionedd. **Amen.**

Bydded i Grist, ein Brenin dyrchafedig,  
dywallt arnoch ei roddion helaeth  
fel y gwasanaethoch ef  
a theyrnasu gydag ef mewn gogoniant. **Amen.**

Bydded i'r Ysbryd Glân  
eich tynnu yn y diwedd i'ch cartref nefol,  
lle yr aeth Crist i baratoi lle i chwi. **Amen.**

A bendith ...

### *Dismissals*

Christ our exalted King  
pour on you his abundant gifts  
that you may serve him  
and reign with him in glory. **Amen.**

### *Or*

Christ give you grace  
to go in obedience to his command,  
to make disciples of all the nations,  
and to know he is with you to the end of the age ...

### *Or*

May God the Father,  
who has given his Son the name above every name,  
lift up your hearts  
to worship in spirit and in truth. **Amen.**

May Christ, our exalted King,  
pour upon you his abundant gifts  
that you may serve him  
and reign with him in glory. **Amen.**

May the Holy Spirit  
draw you at the last to your heavenly home,  
where Christ has gone to prepare a place for you. **Amen.**

And the blessing ...

## PENTECOST

### *Brawddegau*

Dywedodd Iesu: “Os ydych yn fy ngharu i, fe gadwch fy ngorchmynion i. Ac fe ofynnaf finnau i’m Tad, ac fe rydd ef i chwi Eiriolwr arall i fod gyda chwi am byth, Ysbryd y Gwirionedd.”  
*Ioan 14:15–17a*

Yn y dechreuad creodd Duw y nefoedd a’r ddaear. Yr oedd y ddaear yn afluniaidd a gwag, ac yr oedd tywyllwch ar wyneb y dyfnder, ac ysbryd Duw yn ymsymud ar wyneb y dyfroedd. A dywedodd Duw, “Bydded goleuni.” A bu goleuni.  
*Genesis 1:1–3*

Ar ôl hyn tywalltaf fy ysbryd ar bawb; bydd eich meibion a’ch merched yn proffwydo, bydd eich hynafgwyr yn gweld breuddwydion, a’ch gwŷr ifainc yn cael gweledigaethau.  
*Joel 2:28*

### *Bendith Agoriadol*

Dduw pob ysbrydoliaeth,  
yn y dechreuad yr oedd dy Lân Ysbryd  
yn ymsymud ar wyneb y dyfroedd  
a daeth yr holl greadigaeth yn fyw.  
Anfon arnom dy anadl fywiol,  
fel, wrth ein hail-greu ni,  
y bydd iti adnewyddu wyneb y ddaear  
mewn cariad a llawenydd a thangnefedd. Halelwia!  
**Bendigedig fyddo Duw am byth.**

### *Antiffonau i’r Cantiglau*

Rhoddaf i chwi galon newydd, medd yr Arglwydd,  
ac ysbryd newydd o’ch mewn.

*Neu*

Ffrwyth yr Ysbryd yw:  
cariad, llawenydd, tangnefedd,  
amynedd, caredigrwydd, haelioni,  
ffyddlondeb, addfwynder, hunan-reolaeth.

*Neu*

Os ydym yn byw yn yr Ysbryd  
bydded inni rodio yn yr Ysbryd.

*Neu*

Y mae cariad Duw wedi ei dywallt yn ein calonnau  
trwy’r Ysbryd Glân a roddodd ef inni.

## PENTECOST

### *Sentences*

Jesus said: ‘If you love me you will keep my commandments; and I will ask the Father, and he will give you another Advocate, to be with you for ever – the Spirit of truth.’  
*John 14:15–17a*

In the beginning God created the heaven and the earth. And the earth was without form, and void; and darkness was upon the face of the deep. And the Spirit of God moved upon the face of the waters. And God said, ‘Let there be light,’ and there was light.  
*Genesis 1:1–3*

And afterwards I will pour out my spirit upon all flesh: your sons and your daughters shall prophesy, your old men shall dream dreams, and your young men shall see visions.  
*Joel 2:28*

### *Opening Prayer of Blessing*

Inspiring God,  
in the beginning your Holy Spirit  
hovered over the surface of the waters  
and all creation came alive.  
Send on us your life-giving breath,  
that, as we are recreated,  
you may renew the face of the earth  
in love, in joy and in peace. Alleluia!  
**Blessed be God for ever.**

### *Canticle Antiphons*

A new heart I will give you, says the Lord,  
and put a new spirit within you.

*Or*

This is the fruit of the Spirit:  
love, joy, peace,  
patience, kindness, generosity,  
faithfulness, gentleness and self-control.

*Or*

If we live by the Spirit  
let us walk by the Spirit.

*Or*

The love of God has been poured into our hearts  
through the Holy Spirit which has been given to us.

### **Cantiglau**

- 7 Cân am Fawredd Duw (*Salm 104:1–2, 30–34*)  
28 *Benedictus*  
47 Cân am yr Ysbryd (*Datguddiad 22:12–14, 16–17, 20*)

### **Anfon Allan**

Bydded i Ysbryd y gwirionedd eich tywys i bob gwirionedd,  
a rhoi gras i chwi i dystiolaethu fod Iesu Grist yn Arglwydd,  
ac i gyhoeddi mawrion weithredoedd Duw ...

*Neu*

Bydded i Dduw ddeffro ynoch ddoniau ei Ysbryd,  
fel y gallwch dystiolaethu i Grist yr Arglwydd  
a chyhoeddi llawenydd yr Efengyl dragwyddol ...

*Neu*

Bydded i'r Ysbryd,  
a fu'n ymsymud dros wyneb y dyfroedd ar adeg y creu,  
anadlu i mewn i chwi y bywyd a rydd ef. **Amen.**

Bydded i'r Ysbryd,  
a gysgododd dros Fair Forwyn  
pan ddaeth ein Harglwydd Iesu Grist i'n plith,  
roddi i chwi lawenydd wrth wasanaethu'r Arglwydd. **Amen.**

Bydded i'r Ysbryd,  
a ddisgynnodd ar y disgyblion adeg y Pentecost  
fel gwynt a than,  
eich cynorthwyo i adfywio'r byd  
â chariad y Crist atgyfodedig. **Amen.**

A bendith ...

### **Y DRINDOD**

#### **Brawddegau**

Sanct, Sanct, Sanct yw Arglwydd y Lluoedd; y mae'r holl  
ddae'r yn llawn o'i ogoniant. *Eseia 6:3*

Sanct, Sanct, Sanct yw'r Arglwydd Dduw hollalluog, yr hwn  
oedd a'r hwn sydd a'r hwn sydd i ddod! *Datguddiad 4:8*

Gras ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw, a  
chymdeithas yr Ysbryd Glân a fyddo gyda chwi oll.  
*2 Corinthiaid 13:13*

### **Canticles**

- 7 A Song of God's Greatness (*Psalm 104:1–2, 32–36*)  
28 *Benedictus*  
47 A Song of the Spirit (*Revelation 22:12–14, 17, 20*)

### **Dismissals**

The Spirit of truth lead you into all truth,  
give you grace to confess that Jesus Christ is Lord  
and to proclaim the mighty works of God ...

*Or*

God stir up in you the gifts of his Spirit,  
that you may witness to Christ the Lord  
and proclaim the joy of the eternal Gospel ...

*Or*

May the Spirit,  
who moved over the face of the waters at creation,  
breathe into you the life he gives. **Amen.**

May the Spirit,  
who overshadowed the Virgin Mary  
when our Lord Jesus Christ came among us,  
make you joyful in the service of the Lord. **Amen.**

May the Spirit  
who, like wind and flame,  
came upon the disciples at Pentecost,  
help you in bringing the world alive  
with the love of the risen Christ. **Amen.**

And the blessing ...

### **TRINITY**

#### **Sentences**

Holy, holy, holy is the Lord of hosts; the whole earth is full  
of his glory. *Isaiah 6:3*

Holy, holy, holy is the Lord God Almighty, who was and is  
and is to come! *Revelation 4:8*

The grace of our Lord Jesus Christ, and the love of God,  
and fellowship in the Holy Spirit, be with you all.  
*2 Corinthians 13:13*

### ***Bendith Agoriadol***

Sanct, Sanct, Sanct,  
Arglwydd Dduw hollalluog,  
sy'n byw ac yn teyrnasu  
yn undod cariad perffaith:  
dwg ni felly i'th adnabod,  
i'th garu ac i'th ddilyn,  
fel y caffom ynot ti y cyflawnder bywyd hwnnw  
na wŷyr na dechrau na diwedd  
yn y Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân.  
**Bendigedig fyddo Duw am byth.**

### ***Antiffonau i'r Cantiglau***

Bendithiwch y Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân,  
sy'n deilwng i'w foli a'i ddyrchafu byth bythoedd.

*Neu*

I'r hwn sy'n eistedd ar yr orsedd ac i'r Oen  
y bo'r mawl a'r anrhydedd a'r gogoniant a'r nerth  
byth bythoedd!

*Neu*

Sanctaidd, fendigaid a gogoneddus Drindod:  
tri pherson ac un Duw,  
trugarha wrthym.

### ***Cantiglau***

- 24 Cân y Tri Llanc (*Cân y Tri Llanc 29–34*)
- 34 Cân am Ras Duw (*Effesiaid 1:3–10*)
- 42 Cân am Gariad Duw (*1 Ioan 4:7–11, 12b*)

### ***Opening Prayer of Blessing***

Holy, holy, holy,  
Lord God almighty,  
living and reigning  
in the unity of perfect love:  
draw us so to know you,  
to love and follow you,  
that in you we may find the fullness of life  
which knows no beginning nor end  
in Father, Son and Holy Spirit.  
**Blessed be God for ever.**

### ***Canticle Antiphons***

Bless the Father, the Son and the Holy Spirit,  
worthy to be praised and exalted for ever.

*Or*

To the one who sits on the throne and to the Lamb  
be blessing and honour and glory and might  
for ever and ever.

*Or*

Holy, blessed and glorious Trinity:  
three persons and one God,  
have mercy on us.

### ***Canticles***

- 24 The Song of the Three (*Song of the Three 29–34*)
- 34 A Song of God's Grace (*Ephesians 1:3–10*)
- 42 A Song of God's Love (*1 John 4:7–11, 12b*)



### *Anfon Allan*

Bydded i Dduw y Drindod Sanctaidd  
eich cryfhau mewn ffydd a chariad,  
a'ch arwain mewn gwirionedd a thangnefedd ...

*Neu*

Bydded i gariad y Tad eich cofleidio,  
i ddoethineb y Mab eich goleuo  
ac i dân yr Ysbryd Glân gynnu eich calonnau'n fflam ...

*Neu*

Bydded i Dduw Dad,  
a'n carodd ni yn gyntaf  
a'n gwneud yn gymeradwy yn yr Anwylyd,  
ein llenwi â'i gariad. **Amen.**

Bydded i Dduw Fab,  
a'n carodd ni,  
a'n golchi oddi wrth ein pechodau yn ei waed ei hun,  
roi i ni ei dangnefedd. **Amen.**

Bydded i Dduw Ysbryd Glân,  
sy'n taenu cariad Duw ar led yn ein calonnau,  
ein hysbrydoli i offrymu iddo ef bob cariad a phob gogoniant,  
yn awr a hyd byth. **Amen.**

A bendith ...

### **Y DEYRNAS**

#### ***Brawddegau***

Codwch eich pennau, O byrth! Ymddyrchefwch,  
O ddrysau tragwyddol! i frenin y gogoniant ddod i mewn.  
*Salm 24:7*

Cyfiawnder a heddwch a llawenydd yn yr Ysbryd Glân yw  
teyrnas Dduw. *Rhufeiniaid 14:17*

Y mae teyrnas nefoedd yn debyg i drysor wedi ei guddio  
mewn maes; pan ddaeth rhywun o hyd iddo, fe'i cuddiodd,  
ac yn ei lawenydd y mae'n mynd ac yn gwerthu'r cwbl  
sydd ganddo, ac yn prynu'r maes hwnnw. *Mathew 13:44*

Aeth brenhiniaeth y byd yn eiddo ein Harglwydd ni a'i  
Grist ef, a bydd yn teyrnasu byth bythoedd.

*Datguddiad 11:15*

### ***Dismissals***

God the Holy Trinity  
make you strong in faith and love,  
and guide you in truth and peace ...

*Or*

May the love of the Father enfold you,  
the wisdom of the Son enlighten you  
and the fire of the Holy Spirit set your hearts ablaze ...

*Or*

May God the Father,  
who first loved us  
and made us accepted in the Beloved,  
fill us with his love. **Amen.**

May God the Son,  
who loved us,  
and washed us from our sins in his own blood,  
give us his peace. **Amen.**

May God the Holy Spirit,  
who sheds the love of God abroad in our hearts,  
inspire us to offer him all love and all glory,  
for time and for eternity. **Amen.**

And the blessing ...

### **KINGDOM**

#### ***Sentences***

Lift up your heads, O gates, and be lifted up, O everlasting  
doors, and the king of glory shall come in. *Psalm 24:7*

The Kingdom of God is righteousness, peace and joy in  
the Holy Spirit. *Romans 14:17*

The Kingdom of heaven is like treasure hidden in a field,  
which someone found and hid; then in his joy he goes and  
sells all that he has and buys that field. *Matthew 13:44*

The kingdom of the world has become the kingdom of our  
Lord and of his Christ, and he will reign for ever and ever.  
*Revelation 11:15*

### ***Bendith Agoriadol***

Frenin y gogoniant,  
a goronwyd unwaith â drain:  
ysbrydoler gweision dy Deyrnas,  
a elwi di yn gyfeillion iti,  
i newynu a sychedu  
am weld cyfiawnder yn llwyddo,  
dy deyrnas yn dod  
a chyflawni dy ewyllys  
ar y ddaear fel yn y nef.

**Bendigedig fyddo Duw am byth.**

### ***Antiffonau i'r Cantiglau***

Y mae'r Arglwydd yn frenin  
ac wedi ymwisgo mewn dillad gogoneddus;  
gwisgodd yr Arglwydd ei ogoniant ac ymrwegysu â nerth.

*Neu*

Iesu, cofia fi  
pan ddeui i'th deyrnas.

*Neu*

Ceisiwch yn gyntaf deyrnas Dduw  
a'i gyfiawnder ef.

*Neu*

Wrth enw Iesu  
fe blyg pob glin.

### ***Cantiglau***

- 1 Cân am Ogoniant y Brenin (*Salm 24*)
- 37 Cân am Brynedigaeth (*Colosiaid 1:13–18a, 19–20*)
- 38 Cân am Ymddangosiad Crist (*1 Timotheus 3:16; 6:15–16*)

### ***Opening Prayer of Blessing***

King of glory,  
once crowned with thorns:  
may the servants of your Kingdom,  
whom you call your friends,  
be inspired to hunger and thirst  
to see right prevail,  
for your kingdom to come  
and your will to be done  
on earth as it is in heaven.

**Blessed be God for ever.**

### ***Canticle Antiphons***

The Lord is king and has put on glorious apparel;  
the Lord has put on his glory  
and girded himself with strength.

*Or*

Jesus, remember me  
when you come into your kingdom.

*Or*

Seek first the kingdom of God  
and his righteousness.

*Or*

At the name of Jesus  
every knee shall bow.

### ***Canticles***

- 1 A Song of the King's Glory (*Psalm 24*)
- 37 A Song of Redemption (*Colossians 1:13–18a, 19–20*)
- 38 A Song of Christ's Appearing (*1 Timothy 3:16; 6:15–16*)

### **Anfon Allan**

Bydded i Grist y Brenin  
eich gwneud yn ffyddlon a chryf i gyflawni ei ewyllys  
a'ch dwyn i deyrnasu gydag ef yn ei ogoniant ...

*Neu*

Bydded i Grist, Haul cyfiawnder,  
lonni eich calonnau â newyddion da ei deyrnas ...

*Neu*

Bydded i Grist y Brenin deyrnasu yn eich calonnau  
fel y dygoch ffrwyth sancteiddrwydd. **Amen.**

Bydded i Grist y Brenin ddatguddio i chwi ei fawrhydi,  
fel y bo i chwi nesáu ato ef mewn parchedig ofn. **Amen.**

Bydded i Grist y Brenin eich cryfhau mewn ffydd a chariad,  
fel y teyrnasoch gydag ef mewn gogoniant. **Amen.**

A bendith ...

### **MAIR FORWYN FENDIGAID**

#### **Brawddegau**

Pwy bynnag sy'n gwneud ewyllys Duw, y mae hwnnw'n  
frawd i mi, ac yn chwaer, ac yn fam. *Marc 3:35*

Ond pan ddaeth cyflawniad yr amser, anfonodd Duw ei  
Fab, wedi ei eni o wraig, wedi ei eni dan y Gyfraith, i  
brynu rhyddid i'r rhai oedd dan y Gyfraith, er mwyn i ni  
gael braint mabwysiad. *Galatiaid 4:4-5*

#### **Bendith Agoriadol**

Bendith a moliant,  
anrhydedd a diolch,  
a fo i ti, Dduw ein Gwardedwr.  
Mewn doethineb a thrugaredd,  
dewisaist Fair, y wryf ddistadl o Nasareth,  
i fod yn fam dy Fab.  
Gyda hi, mawrygwn dy enw sanctaidd,  
llawenhawn yn dy gariad, a diolchwn  
dy fod ti yn dyrchafu'r rhai gostyngedig ac addfwyn,  
ac yn llenwi'r newynog â phethau da.  
**Bendigedig fyddo Duw am byth.**

### **Dismissals**

Christ the King  
make you faithful and strong to do his will,  
and bring you to reign with him in glory ...

*Or*

Christ, the Sun of righteousness,  
gladden your hearts with the good news of his kingdom ...

*Or*

Christ the King rule in your hearts  
that you may bear the fruits of holiness. **Amen.**

Christ the King reveal to you his majesty,  
that you may draw near to him with awe and reverence. **Amen.**

Christ the King make you strong in faith and love,  
that you may reign with him in glory. **Amen.**

And the blessing ...

### **THE BLESSED VIRGIN MARY**

#### **Sentences**

Whoever does the will of God is my brother and sister and  
mother. *Mark 3:35*

When the fullness of time had come, God sent his Son,  
born of a woman, born under the law, in order to redeem  
those who were under the law, so that we might receive  
adoption as children. *Galatians 4:4-5*

#### **Opening Prayer of Blessing**

Blessing and praise,  
honour and thanksgiving,  
to you, God our Saviour.  
In wisdom and mercy,  
you chose Mary, the lowly virgin of Nazareth,  
to be the mother of your Son.  
With her, we magnify your holy name,  
we rejoice in your love, and we give thanks  
that you exalt the humble and meek,  
filling the hungry with good things.  
**Blessed be God for ever.**

### *Antiffonau i'r Cantiglau*

Bendigedig wyt ti, Fair,  
oherwydd credaist y cyflawnid yr hyn a lefarodd  
yr Arglwydd wrthy.

*Neu*

Esgorodd Mair ar Air Duw;  
hi yw Mam fythol-fendigaid Crist ein Gwardedwr.

*Neu*

O Grist, yng nghroth Mair cefaist breswylfa ar y ddaear:  
aros yn ein calonnau am byth.

### *Cantiglau*

- 11 Cân Hanna (*1 Samuel 2:1–2, 3b–5, 7–8*)
- 42 Cân am Gariad Duw (*1 Ioan 4:7–11, 12b*)
- 45 Cân am y Ddinas Sanctaidd (*Datguddiad 21:1–5a*)

### *Anfon Allan*

Bydded i Grist, a wnaeth yn un,  
trwy gymryd ein cnawd ni, bob peth daearol a nefol,  
eich llenwi â'i lawenydd a'i dangnefedd ...

*Neu*

Bydded i Grist Mab Duw, a aned o Fair, eich llenwi â'i ras i  
ymddiried yn ei addewidion ac i ufuddhau i'w ewylllys ...

*Neu*

Bydded i Dduw Dad,  
sy'n teyrnasu yn nef y nefoedd,  
roddi i chwi ras a gwirionedd  
y Gair a wnaethpwyd yn gnawd. **Amen.**

Bydded i Grist Mab Duw, a aned o Fair,  
eich llenwi â'i ras  
i ymddiried yn ei addewidion ac i ufuddhau i'w ewylllys. **Amen.**

Bydded i Dduw Ysbryd Glân,  
y beichiogodd Mair trwy ei nerth,  
breswylfo yn eich calonnau mewn cariad. **Amen.**

A bendith ...

### *Canticle Antiphons*

Blessed are you, Mary,  
for you believed that what was said to you by the Lord  
would be fulfilled.

*Or*

Mary gave birth to the Word of God;  
she is the ever-blessed Mother of Christ our Saviour.

*Or*

In the womb of Mary,  
you found a dwelling place on earth, O Christ;  
remain for ever in our hearts.

### *Canticles*

- 11 A Song of Hannah (*1 Samuel 2:1–2, 3b–5, 7–8*)
- 42 A Song of God's Love (*1 John 4:7–11, 12b*)
- 45 A Song of the Holy City (*Revelation 21:1–5a*)

### *Dismissals*

Christ, who by taking our flesh,  
gathered into one all things earthly and heavenly,  
fill you with his joy and peace ...

*Or*

Christ the Son of God, born of Mary, fill you with his  
grace to trust his promises and obey his will ...

*Or*

God the Father,  
who reigns in highest heaven,  
bring you the grace and truth of the Word made flesh.  
**Amen.**

Christ the Son of God, born of Mary,  
fill you with his grace  
to trust his promises and obey his will. **Amen.**

God the Holy Spirit,  
by whose power Mary conceived,  
dwell in your hearts in love. **Amen.**

And the blessing ...

## SEINTIAU

### *Brawddegau*

Yr ydym yn gyd-ddinasyddion â'r saint ac yn aelodau o deulu Duw, trwy Iesu Grist, ein Harglwydd, a ddaeth, a phregethu heddwch i chwi y rhai pell, a heddwch hefyd i'r rhai agos. *Effesiaid 2:19, 17*

At Fynydd Seion yr ydych chwi wedi dod, ac i ddinas y Duw byw . . . ac at Dduw, Barnwr pawb, ac at ysbrydoedd y rhai cyfiawn sydd wedi eu perffeithio, ac at Iesu, cyfryngwr y cyfamod newydd. *Hebreaid 12:22–23*

Gan fod cymaint torf o dystion o'n cwmpas, gadewch i ninnau fwrw ymaith bob rhwystr, a'r pechod sy'n ein maglu mor rhwydd, a rhedeg yr yrfa sydd o'n blaen heb ddiffygio. *Hebreaid 12:1*

### *Bendith Agoriadol*

Dduw Goruchaf, llywodraethwr a barnwr pob peth, i ti y bo gogoniant a moliant!  
A ninnau'n llawenhau gyda'th saint  
– y cwmwl mawr hwnnw o dystion –  
boed inni redeg gyda dyfalbarhad  
yr yrfa a osodaist o'n blaen,  
gan gadw ein golwg ar Iesu Grist,  
awdur a pherffeithydd ein ffydd.  
**Bendigedig fyddo Duw am byth.**

### *Antiffonau i'r Cantiglau*

Gwyn eu byd y rhai pur o galon,  
oherwydd cânt hwy weld Duw.

*Neu*

Halelwia!  
Gorchfygodd y saint trwy waed yr Oen,  
oherwydd ni llynasant at fywyd hyd yn oed yn wyneb angau.  
Halelwia!

*Neu*

Bydd y cyfiawn yn disgleirio fel yr haul  
yn nheyrnas eu Tad.

### *Cantiglau*

- 23 *Iustorum animae* (*Doethineb 3:1–2a, 3b–9*)  
36 Llawenhewch yn yr Arglwydd (*Philippiaid 4:4–7*)  
43 Cânt y Rhai a Brynwyd (*Datguddiad 4:8b, 11; 5:9–10; 15:3–4*)

## SAINTS

### *Sentences*

We are all citizens with the saints and belong to the family of God, through Jesus Christ our Lord, who came and preached peace to those who were far away and to those who were near. *Ephesians 2:19, 17*

You have come to Mount Zion and to the city of the living God, . . . and to God the judge of all, and to the spirits of the righteous made perfect, and to Jesus the mediator of a new covenant. *Hebrews 12:22–23*

Since we are surrounded by so great a cloud of witnesses, let us lay aside every weight and the sin that clings so closely, and let us run with perseverance the race that is set before us. *Hebrews 12:1 altd*

### *Opening Prayer of Blessing*

Sovereign God, ruler and judge of all,  
to you be glory and praise!  
As we rejoice with your saints  
– that great cloud of witnesses –  
may we run with perseverance  
the race you set before us,  
looking to Jesus Christ,  
the pioneer and perfecter of our faith.  
**Blessed be God for ever.**

### *Canticle Antiphons*

Blessed are the pure in heart,  
for they shall see God.

*Or*

Alleluia!  
The saints have conquered by the blood of the Lamb,  
for they did not cling to life even in the face of death.  
Alleluia!

*Or*

Nertha bawb sy'n rhoi o'u hynni a'u medr i wella'r rhai sy'n glaf o gorff, meddwl neu ysbryd ...

Rhyddha bawb a gaethiwir gan afiechyd, ofn neu anobaith ...

Dyro ddiwedd tangnefeddus a llawenydd tragwyddol i bawb sy'n marw, a th gysur i'r rhai sy'n galaru ...

*Gellir gwahodd y bobl i rannu eu hymbiliau'n gyhoeddus neu i weddio'n dawel.*

[Y pethau hynny y gweddiwn amdanynt, Arglwydd da, dyro inni'r gras i lafurio amdanynt. Gofynnwn hyn yn enw dy Fab Iesu Grist ein Hiachawdwr. **Amen.**]

9 Yn nerth yr Ysbryd, ac yn un â Christ Iesu, gweddiwn ar y Tad.

Arglwydd trugarog, gweddiwn drosom ein hunain a thros bob Cristion, ar inni fod yn offeiriadaeth frenhinol, yn bobl sanctaidd, er mawl i Grist Iesu ein Gwardwr ...

Gweddiwn dros *E* ein hesgob, a thros yr holl esgobion a gweinidogion eraill, ar iddynt barhau'n ffyddlon i'w galwedigaeth a chyhoeddi gair y gwirionedd yn gymwys ...

Gweddiwn dros blant a phobl ifainc a phawb sy'n newydd yn y Ffydd. Arwain a chyfarwydda hwy yn y ffordd sy'n arwain atat ti ...

Gweddiwn dros *Elisabeth* ein *Brenhines*, a thros bawb sy'n gyfrifol am lywodraethu'r genedl hon a phob cenedl arall, fel y gall dy bobl lawenhau yn dy roddion o wir gyfiawnder a thangnefedd ...

Gweddiwn dros bobl y *genedl hon*, y *plwyf hwn* / y *ddinas* / *dref hon*, gan ofyn iti drugarhau wrth bob un ohonynt ...

Gweddiwn dros y rhai sy'n glaf neu mewn unrhyw fath o drallod, ar i ti eu hachub a'u cadw yn dy gariad ...

Gweddiwn dros y rhai sy'n dioddef oherwydd pechod a thros y rhai sy'n gweini arnynt, ar i ti fod yn gymorth ac yn amddiffynfa iddynt ...

Gweddiwn ar inni oll gael ein hatgyfnerthu yn ein ffydd a'n cariad a'n gwasanaeth ...

Gweddiwn dros y ffyddloniaid ymadawedig, a chyflwynwn hwy i'th ofal tragwyddol ...

Strengthen all who give their energy and skill for the healing of those who are sick in body, mind or spirit ...

Set free all who are bound by illness, fear or despair ...

Grant a peaceful end and eternal joy to all who are dying, and your comfort to those who mourn ...

*The people may be invited to share their petitions aloud or to pray silently.*

[The things, good Lord, that we pray for, give us the grace to labour for. We ask this in the name of your Son, Jesus Christ our Redeemer. **Amen.**]

9 In the power of the Spirit, and in union with Christ Jesus, let us pray to the Father.

Merciful Father, we pray for ourselves and all Christians, that we may be a royal priesthood, a holy people, to the praise of Jesus Christ our Redeemer ...

We pray for *N* our bishop and for all bishops and other ministers, that they may remain faithful to their calling and rightly proclaim the word of truth ...

We pray for children and young people and for all who are new in the Faith. Direct and guide them in the way that leads to you ...

We pray for *Elizabeth* our *Queen*, and for those who bear the responsibility of government in this and every nation, that your people may rejoice in your gifts of true justice and peace ...

We pray for the people of *this nation*, *this parish* / *city* / *village*, asking that you will show your mercy to them all ...

We pray for all who are sick or in any other kind of trouble, that you will deliver them and keep them in our love ...

We pray for the victims of sin and those who minister to them, that you will be their help and defence ...

We pray that we may all be strengthened in our faith, our love and our service ...

We pray for the departed, commending them to your eternal love ...

*Gellir gwahodd y bobl i rannu eu hymbiliau'n gyhoeddus neu i weddio'n dawel.*

[Cyflwynwn ein hunain, cyflwynwn ein gilydd, a chyflwynwn ein bywyd oll i ti, Arglwydd Dduw, trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**]

- 10 Gan ymddiried yn ei addewidion, gweddiwn ar y Tad.  
Dros bobl Dduw, ar i bob un ohonynt fod yn was cywir a ffyddlon i Grist ...  
Dros bawb sy'n cyhoeddi gair y gwirionedd, ar iddynt gael eu hysbrydoli gan y doethineb a rydd dy Ysbryd ...  
Dros y rhai sy'n dynesu at oleuni ffydd, ar i'r Arglwydd eu dwyn i wir adnabyddiaeth ohono'i hun ...  
Dros bawb sy'n hyfforddi, pawb sy'n dysgu, a phawb sy'n chwilio am y gwirionedd ...  
Dros ein teuluoedd a'n cyfeillion, ar i'r Arglwydd eu harwain yn ei ffordd a rhoi iddynt lawenydd ym mhob peth a wnânt ...  
Dros bawb sy'n newynog, yn glaf neu'n unig, dros bawb a erlidir neu a anwybyddir, ar i'r Arglwydd eu cysuro a'u cynnal ...  
Dros bobl Cymru a'r Deyrnas hon a'r Gymanwlad, ar i'r Arglwydd eu harwain mewn gwirionedd a chyfiawnder ...  
Dros yr holl hil ddynol, ar inni allu byw gyda'n gilydd mewn gwir dangnefedd ...  
Dros y rhai a fu farw yn ffydd Crist, a thros y rhai hynny na wŷyr ond Duw ei hun am eu ffydd ...

*Gellir gwahodd y bobl i rannu eu hymbiliau'n gyhoeddus neu i weddio'n dawel.*

[Cyflawna yn awr, O Arglwydd, ddyheadau a deisyfiadau dy wasanaethyddion fel y bo orau iddynt, gan roddi inni yn y byd hwn wybodaeth o'th wirionedd, ac yn y byd a ddaw gyflawnder bywyd tragwyddol; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**]

*The people may be invited to share their petitions aloud or to pray silently.*

[We commend ourselves and one another and our whole life to you, Lord God, through Jesus Christ our Lord. **Amen.**]

- 10 Trusting in his promises, let us pray to the Father.  
For the people of God, that every one may be a true and faithful servant of Christ ...  
For all who proclaim the word of truth, that they may be inspired by the wisdom your Spirit gives ...  
For those drawing near to the light of faith, that the Lord will bring them to true knowledge of himself ...  
For those who teach, those who learn, and all who seek the truth ...  
For our families and friends, that the Lord will guide them in his way and give them joy in all they do ...  
For all who are hungry or sick, persecuted, lonely or marginalized, that the Lord will comfort and sustain them ...  
For the people of Wales and of this Kingdom and Commonwealth, that the Lord will lead us in truth and righteousness ...  
For the whole human race, that we may live together in true peace ...  
For those who have died in the faith of Christ, and for those whose faith is known to God alone ...

*The people may be invited to share their petitions aloud or to pray silently.*

[Fulfil now, O Lord, the desires and petitions of your servants as may be best for them, granting us in this world knowledge of your truth, and in the world to come, the fullness of eternal life; through Jesus Christ our Lord. **Amen.**]

## DIOLCH CYFFREDINOL

Diolchwch i'r Arglwydd oherwydd da yw:  
y mae ei gariad yn para byth.

Hollalluog Dduw, drugarog Dad,  
ffynhonnell pob sancteiddrwydd a gras,  
diolchwn iti am dy ddaioni a'th gariad diderfyn  
tuag atom ni a'r holl greadigaeth.  
Diolchwn i ti am ein creu a'n cynnal  
a'n hamgylchynu â'th fendithion;  
ond o'th holl roddion, rhown iti y diolch pennaf  
am iti, yn dy gariad, sydd y tu hwnt i'n gallu ni i'w fynegi,  
roi inni dy Fab ein Harglwydd Iesu Grist  
i adfer ac iacháu dynolryw.  
Moliannwn di, O Dad,  
am holl sianelau dy ras,  
ac am obaith cael rhannu dy ogoniant.  
Goleua ein calonnau a'n meddyliau  
a dangos inni fawredd dy gariad,  
fel y diolchwn i ti yn ddiffuant,  
nid trwy dy foliannu â'n gwefusau yn unig  
ond trwy ymroi i'th wasanaethu'n gyfiawn  
yn ein bywydau.  
Gofynnwn hyn oll trwy Iesu Grist ein Harglwydd,  
sydd, gyda thi a'r Ysbryd Glân,  
yn un Duw, yn awr a byth.  
Halelwia. Amen.

## vi Y LITANI

*Y mae Adrannau I a III i'w defnyddio bob amser, ynghyd ag un neu ychwaneg o is-adrannau II a, b ac c.*

Gweddiwn.

I Dduw Dad,  
**trugarha wrthym.**

Dduw Fab,  
**trugarha wrthym.**

Dduw Ysbryd Glân,  
**trugarha wrthym.**

## A GENERAL THANKSGIVING

Give thanks to the Lord for he is good:  
his love is everlasting.

Almighty God, merciful Father,  
source of all holiness and grace,  
we thank you for your goodness and unending love  
to us and all creation.

We thank you for making and sustaining us  
and surrounding us with your blessings;  
but of all your gifts we thank you most  
that in your love, beyond our power to express,  
you gave your Son our Lord Jesus Christ  
to restore and heal the human race.

We praise you, Father,  
for all the channels of your grace,  
and for the hope of sharing your glory.  
Enlighten our hearts and minds  
and show us the greatness of your love,  
that our gratitude may be sincere:  
not only the praise of our lips  
but the offering of our lives,  
dedicated and righteous in your service.  
All this we ask through Jesus Christ our Lord,  
with you and the Holy Spirit  
one God, now and ever.  
Alleluia. Amen.

## vi THE LITANY

*Sections I and III must always be used, with any or all of the sub-sections II a, b and c.*

Let us pray.

I God the Father,  
**have mercy on us.**

God the Son,  
**have mercy on us.**

God the Holy Spirit,  
**have mercy on us.**

Y Drindod sanctaidd, fendigaidd, ogoneddus,  
**trugarha wrthym.**

Rhag pob drygioni a gweithgaredd niweidiol;  
rhag balchder, rhodres a rhagrith;  
rhag cenfigen, casineb a malais  
a rhag pob bwriad drwg,  
**Arbed ni, Arglwydd daionus.**

Rhag diogi, bydolrwydd ac ariangarwch;  
rhag caledwch calon  
a rhag dirmygu dy air a'th ddeddfau,  
**Arbed ni, Arglwydd daionus.**

Rhag pechodau'r corff a'r meddwl;  
rhag twyll y byd, y cnawd a'r diafol,  
**Arbed ni, Arglwydd daionus.**

Rhag newyn a thrychineb;  
rhag trais a llofruddiaeth;  
a rhag marw heb ymbaratoi,  
**Arbed ni, Arglwydd daionus.**

Yn holl amser ein trallod; yn holl amser ein llawenydd;  
yn awr angau, ac yn nydd y farn,  
**Arbed ni, Arglwydd daionus.**

Trwy ddirgelwch dy lân ymgnawdoliad;  
trwy dy enedigaeth, dy blentyndod a'th ufudd-dod;  
trwy dy fedydd, dy ympryd a'th demtasiwn,  
**Arbed ni, Arglwydd daionus.**

Trwy dy weinidogaeth ar air a gweithred;  
trwy dy weithredoedd grymus  
a thrwy dy bregethu am y deyrnas,  
**Arbed ni, Arglwydd daionus.**

Trwy dy ing a'th brawf;  
trwy dy groes a'th ddioddefaint  
a thrwy dy werthfawr angau a'th gladdedigaeth,  
**Arbed ni, Arglwydd daionus.**

Trwy dy atgyfodiad nerthol;  
trwy dy esgyniad gogoneddus  
a thrwy ddyfodiad yr Ysbryd Glân,  
**Arbed ni, Arglwydd daionus.**

Holy, blessed, and glorious Trinity,  
**have mercy on us.**

From all evil and harmful actions;  
from pride, vanity and hypocrisy;  
from envy, hatred and malice;  
and from all evil intent,  
**Good Lord, deliver us.**

From sloth, worldliness and love of money;  
from hardness of heart  
and contempt for your word and your laws,  
**Good Lord, deliver us.**

From sins of body and mind;  
from the deceits of the world, the flesh and the devil,  
**Good Lord, deliver us.**

From famine and disaster;  
from violence and murder,  
and from dying unprepared,  
**Good Lord, deliver us.**

In all times of sorrow; in all times of joy;  
in the hour of death, and at the day of judgement,  
**Good Lord, deliver us.**

By the mystery of your holy incarnation;  
by your birth, childhood and obedience;  
by your baptism, fasting and temptation,  
**Good Lord, deliver us.**

By your ministry in word and work;  
by your mighty acts of power;  
and by your preaching of the kingdom,  
**Good Lord, deliver us.**

By your agony and trial;  
by your cross and passion;  
and by your precious death and burial,  
**Good Lord, deliver us.**

By your mighty resurrection;  
by your glorious ascension;  
and by the coming of the Holy Spirit,  
**Good Lord, deliver us.**



*II* Clyw ein gweddïau, O Arglwydd ein Duw.

**Gwrando ni, Arglwydd daionus.**

*a* Llywodraetha a chyfarwydda dy lân Eglwys;  
llanw hi â chariad a gwirionedd;  
a dyro iddi'r undod hwnnw sy'n unol â'th ewyllys di.

**Gwrando ni, Arglwydd daionus.**

Gwna ni'n eofn i bregethu'r efengyl i'r holl fyd,  
ac i wneud disgyblion o'r holl genhedloedd.

**Gwrando ni, Arglwydd daionus.**

Goleua'r holl esgobion, offeiriad a diaconiaid  
â gwybodaeth a deall,  
fel y gallant, trwy eu gweinidogaeth a'u bywyd,  
gyhoeddi dy air di.

**Gwrando ni, Arglwydd daionus.**

*(Ar wythnosau'r Categoriâu neu ar adegau cymwys eraill*

Dyro dy ras [i E ac] i bawb a alwyd i unrhyw swydd neu  
weinidogaeth yn dy Eglwys,  
fel y bo iddynt wasanaethu er gogoniant i'th enw.

**Gwrando ni, Arglwydd daionus.)**

*(Mewn gwasanaeth ordeinio*

Tywallt dy ras ar dy wasanaethyddion  
sydd yn awr i dderbyn urdd diacon neu offeiriad,  
fel y bo iddynt nerthu dy bobl  
i ddwyn iachawdwriaeth i bawb.

**Gwrando ni, Arglwydd daionus.)**

Dyro i'th holl bobl ras i wrando a derbyn dy air,  
ac i ddwyn ffrwyth yr Ysbryd.

**Gwrando ni, Arglwydd daionus.**

Dwg i ffordd y gwirionedd bawb a gyfeiliornodd  
ac a giliodd oddi wrthyt.

**Gwrando ni, Arglwydd daionus.**

Nertha'r rhai sy'n sefyll;  
cysura a chynorthwya'r rhai egwan;  
adfer bawb a syrthiodd;  
a bwrw i lawr Satan o dan ein traed.

**Gwrando ni, Arglwydd daionus.**

*b* Tywys arweinwyr y cenhedloedd  
yn ffyrdd cyfiawnder a heddwch.

**Gwrando ni, Arglwydd daionus.**

*II* Hear our prayers, O Lord our God.

**Hear us, good Lord.**

*a* Govern and direct your holy Church;  
fill it with love and truth;  
and grant it that unity which is your will.

**Hear us, good Lord.**

Give us boldness to preach the gospel in all the world,  
and to make disciples of all the nations.

**Hear us, good Lord.**

Enlighten all bishops, priests and deacons  
with knowledge and understanding,  
that by their ministry and their lives  
they may proclaim your word.

**Hear us, good Lord.**

*(In Ember weeks and on other appropriate occasions*

Give your grace [to N and] to all who are called to any  
office or ministry in your Church,  
that they may serve to the glory of your name.

**Hear us, good Lord.)**

*(At ordinations*

Pour your grace on your servants  
who at this time are to be admitted to the order  
of deacons or of priests,  
that they may strengthen your people  
in bringing salvation to all.

**Hear us, good Lord.)**

Give all your people grace to hear and receive your word,  
and to bear the fruit of the Spirit.

**Hear us, good Lord.**

Bring into the way of truth all  
who have erred and have strayed from you.

**Hear us, good Lord.**

Strengthen those who stand;  
comfort and help those who are fainthearted;  
raise up all who are fallen;  
and beat down Satan under our feet.

**Hear us, good Lord.**

*b* Guide the leaders of the nations  
in the ways of justice and peace.

**Hear us, good Lord.**



Cadw a nertha dy wasanaethyddes *Elisabeth* ein *Brenhines*,  
fel y bo *iddi* ymddiried ynot  
a cheisio dy anrhydedd a'th ogoniant.  
**Gwrando ni, Arglwydd daionus.**

Cynysgaedda Uchel Lys y Senedd,  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,  
a holl Weinidogion y Goron  
â doethineb, deall a thrugaredd.  
**Gwrando ni, Arglwydd daionus.**

Cyfarwydda â'th ras aelodau Senedd Ewrop,  
aelodau'r cynghorau lleol, ac arweinwyr pobl Cymru.  
**Gwrando ni, Arglwydd daionus.**

Bendithia bawb sy'n gweinyddu'r gyfraith,  
fel y bo iddynt gynnal cyfiawnder a gonestrwydd,  
trugaredd a gwirionedd.  
**Gwrando ni, Arglwydd daionus.**

Gwna inni barchu'r ddaear fel dy greadigaeth di,  
fel y bo inni ddefnyddio'i hadnoddau yn gywir  
i wasanaethu eraill ac er anrhydedd a gogoniant i ti.  
**Gwrando ni, Arglwydd daionus.**

Bendithia a chadw dy holl bobl.  
**Gwrando ni, Arglwydd daionus.**

c Cynorthwya a chysura bawb sy'n unig,  
mewn profedigaeth neu dan orthrwm.  
**Arglwydd, trugarha.**

Cadw'n ddiogel bawb sy'n teithio a phawb sydd mewn perygl.  
**Arglwydd, trugarha.**

Iachâ bawb sy'n glaf o gorff, meddwl neu ysbryd,  
a darpara ar gyfer pawb sy'n ddigartref,  
yn newynog neu'n dlawd.  
**Arglwydd, trugarha.**

Trugarha wrth garcharorion a ffoaduriaid,  
a phawb sydd mewn trallod.  
**Arglwydd, trugarha.**

Trugarha wrth yr holl ddynolryw.  
**Arglwydd, trugarha.**

Rho faddeuant i'n gelynion, ein herlidwyr a'n henllibwyr,  
a thro eu calonnau.  
**Arglwydd, trugarha.**

Guard and strengthen your servant *Elizabeth* our *Queen*,  
that *she* may put *her* trust in you,  
and seek your honour and glory.  
**Hear us, good Lord.**

Endue the High Court of Parliament,  
the National Assembly for Wales,  
and all the Ministers of the Crown  
with wisdom, understanding and compassion.  
**Hear us, good Lord.**

Guide with your grace the members of the European Parliament,  
the local councils, and the leaders of this people of Wales.  
**Hear us, good Lord.**

Bless those who administer the law,  
that they may uphold justice and honesty, mercy and truth.  
**Hear us, good Lord.**

Give us a reverence for the earth as your creation,  
that we may use its resources with integrity  
in the service of others and to your honour and glory.  
**Hear us, good Lord.**

Bless and keep all your people.  
**Hear us, good Lord.**

c Help and comfort those who are lonely, bereaved and oppressed.  
**Lord, have mercy.**

Keep in safety those who travel, and all who are in danger.  
**Lord, have mercy.**

Heal those who are sick in body, mind or spirit,  
and provide for all who are homeless, hungry and destitute.  
**Lord, have mercy.**

Show your pity on prisoners and refugees,  
and all who are in trouble.  
**Lord, have mercy.**

Have mercy on all humanity.  
**Lord, have mercy.**

Forgive our enemies, persecutors and slanderers,  
and turn their hearts.  
**Lord, have mercy.**

Clyw ni wrth inni gofio  
am bawb a fu farw yn nhangnefedd Crist,  
a dyro i ni, gyda hwy, gyfran yn dy deyrnas dragwyddol.  
**Arglwydd, trugarha.**

- III* Dyro inni wir edifeirwch;  
maddau inni'r pechodau  
a wnaethom trwy esgeulustod ac anwybodaeth,  
a'r pechodau a wnaethom o fwriad;  
a dyro inni ras dy Ysbryd Glân  
i wella ein buchedd yn ôl dy air sanctaidd.  
**O Dduw sanctaidd,  
sanctaidd a nerthol,  
sanctaidd ac anfarwol,  
trugarha wrthym.**

*Terfyna'r Litani gyda Gweddî'r Arglwydd, colect (y dydd, neu un o golectau'r bore neu'r hwyr) a Diweddglo (Adran 4 yn y Foreol a'r Hwyrrol Weddi).*

*Pan ddefnyddir y Litani yn y Cymun Bendigaid, mae'n cymryd lle popeth yn y gwasanaeth cyn y colect. Hepgorir yr ymbiliad.*

Hear us as we remember  
those who have died in the peace of Christ,  
and grant us with them a share in your eternal kingdom.  
**Lord, have mercy.**

- III* Give us true repentance;  
forgive our sins of negligence and ignorance,  
and our deliberate sins;  
and grant us the grace of your Holy Spirit  
to amend our lives according to your holy word.  
**Holy God,  
holy and strong,  
holy and immortal,  
have mercy on us.**

*The Litany concludes with the Lord's Prayer, a collect (of the day, or for morning or evening) and The Conclusion (Section 4 from Morning and Evening Prayer).*

*When the Litany is used at the Holy Eucharist, it replaces everything in the Eucharist before the collect. The intercession is omitted.*

GWEDDI'R DYDD

PRAYER DURING THE DAY

## STRWYTHUR GWEDDI'R DYDD

Gellir hepgor yr eitemau a nodwyd â \*.

- 1 **Y RHAGARWEINIAD**  
Gwersigl ac Ymateb, etc  
\*Myfyrdod rhagarweiniol, emyn, cân neu gantigl
- 2 **GWEINIDOGAETH Y GAIR**  
Salm  
Darlleniad o'r Ysgrythur Lân  
\*Ymateb
- 3 **Y GWEDDIAU**  
\*Ymbiliau  
Gweddi'r Arglwydd  
Colect y Dydd neu un o'r gweddïau a ddarperir
- 4 **DIWEDDGLO**  
Gwersigl derfynol ac ymateb, neu ddiweddglo priodol arall

## NODIADAU

Cynlluniwyd y Drefn hon ar gyfer Gweddi'r Dydd i gynorthwyo'r rhai hynny sy'n dymuno defnyddio ffurf strwythuredig ond cymharol hyblyg ar gyfer gweddi a myfyrdod yn ystod y dydd. Ni fwriedir iddi gymryd lle y Foreol na'r Hwylol Weddi.

Darperir salmau addas, darlleniadau byrion a deunydd arall ar gyfer pob diwrnod o'r wythnos. Yn Atodiad VII, darperir darlleniadau byrion a deunydd arall addas ar gyfer y tymhorau.

- 1 **Y Rhagarweiniad**  
Gydol y drefn hon, argymhellir defnyddio yr *Halelwia* sydd mewn cromfachau yn y gwersiglau a'r ymatebion yn ystod Tymor y Pasg.  
Yn lle'r myfyrdodau rhagarweiniol a ddarperir, bydd yn well gan rai ddefnyddio yng Ngweddi'r Dydd un o'r emynau traddodiadol. Y mae'r rhain i'w cael mewn sawl llyfr emynau.

## STRUCTURE OF PRAYER DURING THE DAY

Items marked \* are optional.

- 1 **THE INTRODUCTION**  
Versicle and Response, etc  
\*Opening meditation, hymn, song or canticle
- 2 **THE MINISTRY OF THE WORD**  
Psalmody  
A reading from Holy Scripture  
\*Response
- 3 **THE PRAYERS**  
\*Intercessions  
The Lord's Prayer  
Collect of the Day or one of the prayers provided
- 4 **THE CONCLUSION**  
A closing versicle and response, or another appropriate ending

## NOTES

This Order for Prayer During the Day is designed to help those who wish to use a structured but reasonably flexible form for prayer and reflection in the course of the day. It is not intended as an alternative to either Morning or Evening Prayer.

Appropriate psalms, short readings and other material are provided for each day of the week. Alternative short readings and other suitable material for seasonal use are provided in Appendix VII.

- 1 **The Introduction**  
Throughout this order, the bracketed *Alleluia* in the versicles and responses is recommended for use during Eastertide.  
In place of the introductory meditative passages provided, some will prefer to use one of the traditional office hymns for Prayer During the Day. These can be found in many hymnals.

**2a Gweinidogaeth y Gair: Salmu**

Y mae tablau o'r salmu ar gyfer dyddiau'r wythnos neu'r mis yn dilyn y Nodiadau hyn. Yn unol â'r defnydd traddodiadol, y salmu a restrir yn y tablau hyn yw Salm 119 a Salmu 121–131,133.

Ni ddylid defnyddio yng Ngweddi'r Dydd y salmu a restrir yn ddyddiol yn yr Almanac ar gyfer y Foreol a'r Hwyl Weddi. Os digwydd i salm a benodwyd ar gyfer y Foreol neu'r Hwyl Weddi ar ddiwrnod arbennig ymddangos hefyd yn y tabl a ddefnyddir ar gyfer Gweddi'r Dydd, dylid dewis salm neu salmu allan o un o'r ddau dabl arall yn ei lle.

**2b Gweinidogaeth y Gair: Darlleniad o'r Ysgrythur**

Defnyddir un o'r canlynol:

- Un o'r darlleniadau byrion a agreffir yn y Drefn.
- Un o'r darlleniadau tymhorol a restrir yn y Deunydd Tymhorol (Atodiad vii).
- Un, ond dim mwy, o'r darlleniadau a restrir yn yr Almanac ar gyfer y Foreol a'r Hwyl Weddi. Yn yr achos hwn, dim ond y llith arall a ddarparwyd a ddarllenir yn y Foreol neu'r Hwyl Weddi.
- Un o'r darlleniadau a restrir yn yr Almanac i'w defnyddio yn y Cymun Bendigaid.

Darperir gwersigl ac ymateb i'w defnyddio, os dymunir, ar ôl y darlleniad. Y mae dulliau addas eraill o ymateb i ddarllen yr Ysgrythur Lân yn cynnwys canu a myfyrdod tawel.

**3 Y Gweddiâu**

Os dymunir, gellir cynnwys ymbiliau ar ddechrau'r Gweddiâu.

Ni ddylid byth hepgor Gweddi'r Arglwydd na'r weddi derfynol.

Ar y Suliau a'r Gwyliau a restrir yn Grwpiau I a II yn *Y Calendr Newydd (2003)*, dylid bob amser ddefnyddio Colect y Dydd yn weddi derfynol. Gellir hefyd ddefnyddio Colect y Dydd ar goffadwriaethau a restrir yn Grwpiau III–V ac ar achlysuron sy'n arbennig o bwysig i blwyf neu gymuned neu unigolyn.

**2a The Ministry of the Word: Psalmody**

Tables of psalms for days of the week or month are given immediately after these Notes. In accordance with traditional usage, the psalms listed in these tables are Psalm 119 and Psalms 121–131,133.

The psalms listed in the Almanac for Morning and Evening Prayer on a given day should not be used at Prayer During the Day. If a psalm appointed for Morning or Evening Prayer on a particular day appears also in the table that happens to be being used at Prayer During the Day on that day, a psalm or psalms from one of the other two tables should be used instead.

**2b The Ministry of the Word: Scripture Reading**

One of the following is used:

- One of the short readings printed in the order.
- One of the seasonal passages listed in the Seasonal Material (Appendix vii).
- One, but no more, of the readings listed in the Almanac for Morning and Evening Prayer. In this case, the remaining lesson provided will be the only one read at Morning or Evening Prayer.
- One of the readings listed in the Almanac for use at the Holy Eucharist.

A versicle and response are provided for optional use after the reading. Other appropriate ways of responding to the reading of Holy Scripture include singing and silent reflection.

**3 The Prayers**

If desired, intercessions may be inserted at the beginning of the Prayers.

The Lord's Prayer and concluding prayer should never be omitted.

The Collect of the Day should always be used as the concluding prayer on the Sundays and Holy Days listed in Groups I and II in *The New Calendar (2003)*. The Collect of the Day may be used also on commemorations listed in Groups III–V and on occasions of special importance for a parish, community or individual.

#### 4 *Diwedd glo*

Gellir defnyddio diwedd glo o'r Foreol neu'r Hwyrrol Weddi yn lle'r rhai a ddarperir.

Argymhellir bod y gwersiglau a'r ymatebion sy'n dechrau "Bydded i oleuni Crist ..." ac "Os ydym yn byw trwy'r Ysbryd ..." yn arbennig o addas i'w defnyddio yn ystod Tymor y Pasg, cyn ac ar ôl Dydd Iau'r Dyrchafael. Fodd bynnag, ni raid, ac ni ddylid, cyfyngu'r defnydd ohonynt i Dymor y Pasg.

Dulliau posibl eraill o derfynu Gweddi'r Dydd yw canu emyn addas neu gyfnwid y Tangnefedd, y gellir ychwanegu ato "Gadewch inni roi i'n gilydd arwydd o dangnefedd, sêl Duw ar ein gweddïau."

#### 4 *The Conclusion*

One of the endings of Morning and Evening Prayer may be substituted for those provided.

The closing versicles and responses beginning 'May the light of Christ ...' and 'If we live by the Spirit ...' are recommended as particularly suitable for use in Eastertide, before and after Ascension Day respectively. Their use need not and should not, however, be limited to Eastertide.

Other possible ways of ending Prayer During the Day are by singing an appropriate hymn or by exchanging the Peace, to which may be added 'Let us offer one another a sign of peace, God's seal on our prayers.'

**TABL O'R SALMAU  
I'W DEFNYDDIO YN NHREFN GWEDDI'R DYDD**

**TABLES OF PSALMS  
FOR USE AT PRAYER DURING THE DAY**

**Dros fis calendr**

Dydd 1	119:1-8
Dydd 2	119:9-16
Dydd 3	119:17-24
Dydd 4	119:25-32
Dydd 5	119:33-40
Dydd 6	119:41-48
Dydd 7	119:49-56
Dydd 8	119:57-64
Dydd 9	119:65-72
Dydd 10	119:73-80
Dydd 11	119:81-88
Dydd 12	119:89-96
Dydd 13	119:97-104
Dydd 14	119:105-112
Dydd 15	119:113-120
Dydd 16	119:121-128
Dydd 17	119:129-136
Dydd 18	119:137-144
Dydd 19	119:145-152
Dydd 20	119:153-160
Dydd 21	119:161-168
Dydd 22	119:169-diwydd
Dydd 23	121, 122
Dydd 24	123, 124
Dydd 25	125, 126
Dydd 26	127
Dydd 27	128
Dydd 28	129
Dydd 29	130
Dydd 30	131
Dydd 31	133

**Dros wythnos neu bythefnos**

<i>Gellir defnyddio Salm 119 a'r Salmau Esgyniad dros bythefnos fel a ganlyn</i>	
Dydd Sul	119:1-32
Dydd Llun	119:33-56
Dydd Mawrth	119:57-80
Dydd Mercher	119:81-104
Dydd Iau	119:105-128
Dydd Gwener	119:129-152
Dydd Sadwrn	119:153-diwydd
Dydd Sul	121, 122
Dydd Llun	123, 124
Dydd Mawrth	125, 126
Dydd Mercher	127
Dydd Iau	128
Dydd Gwener	129, 130
Dydd Sadwrn	131, 133
<i>Neu gellir defnyddio Salm 119 a'r Salmau Esgyniad gyda'i gilydd neu ar eu pen eu hunain dros gyfnod o wythnos.</i>	

**Over a calendar month**

Day 1	119:1-8
Day 2	119:9-16
Day 3	119:17-24
Day 4	119:25-32
Day 5	119:33-40
Day 6	119:41-48
Day 7	119:49-56
Day 8	119:57-64
Day 9	119:65-72
Day 10	119:73-80
Day 11	119:81-88
Day 12	119:89-96
Day 13	119:97-104
Day 14	119:105-112
Day 15	119:113-120
Day 16	119:121-128
Day 17	119:129-136
Day 18	119:137-144
Day 19	119:145-152
Day 20	119:153-160
Day 21	119:161-168
Day 22	119:169-end
Day 23	121, 122
Day 24	123, 124
Day 25	125, 126
Day 26	127
Day 27	128
Day 28	129
Day 29	130
Day 30	131
Day 31	133

**Over a week or a fortnight**

<i>Psalm 119 and the Psalms of Ascent may be used over a fortnight as follows</i>	
Sunday	119:1-32
Monday	119:33-56
Tuesday	119:57-80
Wednesday	119:81-104
Thursday	119:105-128
Friday	119:129-152
Saturday	119:153-end
Sunday	121, 122
Monday	123, 124
Tuesday	125, 126
Wednesday	127
Thursday	128
Friday	129, 130
Saturday	131, 133
<i>Alternatively, Psalm 119 and the Psalms of Ascent may be used, together or alone, on a weekly cycle.</i>	

# TREFN AR GYFER GWEDDI'R DYDD

## **1** Y RHAGARWEINIAD

Duw, brysia i'n cynorthwyo.  
**Arglwydd, prysura i'n cymorth.**

**Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab,  
ac i'r Ysbryd Glân;  
fel yr oedd yn y dechrau y mae yn awr,  
ac y bydd yn wastad, yn oes oesoedd. Amen.**

Fy enaid, bendithia yr Arglwydd, [Halelwia,]  
**a bendithied y cwbl sydd ynof ei enw sanctaidd ef.  
[Halelwia.]**

*Gellir defnyddio un o'r canlynol, neu emyn, cân neu gantigl addas arall.*

- 1 Rwyf heddiw'n rhwymo'n llurig gref  
Amdanaf Enw'r Drindod lân,  
Trwy alw'n ufudd arno ef,  
Y Tri yn Un, sy'n ddiwahân.  
Ohono ef mae popeth sydd –  
Y Tad tragwyddol, Ysbryd, Gair –  
Boed mawl i Arglwydd mawr ein Ffydd,  
Ein Crist a aned gynt o Fair.
- 2 Crist yn f'ymyl, Crist o'm mewn i,  
Crist o'm hôl, a Christ o'm blaen i,  
Crist i'm hennill, Crist i'm cael i,  
Crist i'm nerthu a'm cyfodi;  
Crist uwchben, a Christ odanaf,  
Crist mewn hawddfyd, Crist rhag gelyn;  
Crist yng nghalon pawb a garaf,  
Crist yng ngenau ffrind a chyd-ddyn
- 3 Cymer, Arglwydd, f'eiioes i  
I'w chysegru'n llwyr i ti,  
Cymer fy munudau i fod  
Fyth yn llifo er dy glod.

# AN ORDER FOR PRAYER DURING THE DAY

## **1** THE INTRODUCTION

O God, make speed to save us.  
**O Lord, make haste to help us.**

**Glory to the Father, and to the Son,  
and to the Holy Spirit;  
as it was in the beginning, is now,  
and shall be for ever. Amen.**

Bless the Lord, O my soul, [Alleluia,]  
**and all that is within me bless his holy name.  
[Alleluia.]**

*One of the following, or some other appropriate hymn, song or canticle may be used.*

- 1 I bind unto myself today  
The strong name of the Trinity,  
By invocation of the same,  
The Three in One and One in Three.  
Of whom all nature hath creation;  
Eternal Father, Spirit, Word:  
Praise to the Lord of my salvation,  
Salvation is of Christ the Lord.
- 2 Christ be with me, Christ within me,  
Christ behind me, Christ before me,  
Christ beside me, Christ to win me,  
Christ to comfort and restore me.  
Christ beneath me, Christ above me,  
Christ in quiet, Christ in danger,  
Christ in hearts of all that love me,  
Christ in mouth of friend and stranger.
- 3 Take my life, and let it be  
Consecrated, Lord, to thee;  
Take my moments and my days,  
Let them flow in ceaseless praise.



Cymer fy serchiadau, Iôr,  
Wrth dy draed rwy'n bwrw eu stôr;  
Cymer, Arglwydd, cymer fi,  
Byth, yn unig, oll i ti.

Gogoniant byth a fo i'r Tad,  
I'r Mab rhad a'r Glân Ysbryd,  
Fel gynt yr oedd, y mae, a bydd  
Dros oesoedd tragwyddolgyd.

- 4 Pa beth a roddaf i ti, Arglwydd, am dy holl garedigrwydd?  
Gogoniant i ti am dy gariad.  
Gogoniant i ti am dy amynedd.  
Gogoniant i ti am faddau ein holl bechodau.  
Gogoniant i ti am ddyfod i achub ein heneidiau.  
Gogoniant i ti am dy ymgnawdoliad yng nghroth y Wryf.  
Gogoniant i ti am dy rwybau.  
Gogoniant i ti am dderbyn archoll y fflangell.  
Gogoniant i ti am dderbyn gwawd.  
Gogoniant i ti am dy groeshoeliad.  
Gogoniant i ti am dy gladdedigaeth.  
Gogoniant i ti am dy atgyfodiad.  
Gogoniant i ti am i ti gael dy bregethu i bawb.  
Gogoniant i ti y credasant ynddo.

- 5 Tu hwnt i'r sêr, fy enaid,  
Y mae rhyw hyfryd wlad,  
A gwylwr ar ei adain  
Sý'n fedrus yn y gad.
- Uwch pob rhyw derfysg yno  
Rhyw addfwyn heddd a chwadd,  
Ac Un a fu'n y preseb  
Sý'n llywio'r rhengoedd hardd.
- Dy Gyfaill tirion ydyw,  
O f'enaid, deffro di;  
O gariad pur disgynnodd  
I farw ar Galfari.
- Os gelli esgyn yno  
Cei weld Blodeuyn heddd,  
Y Rhosyn nad edwina,  
A'r Gaer a'r hyfryd Wledd.

Take my love; my Lord, I pour,  
At thy feet its treasure-store;  
Take myself, and I will be  
Ever, only, all for thee.

Praise to the Father,  
Praise to the Son,  
Praise to the Spirit,  
The Three in One.

- 4 What shall I give you, Lord, in return for all your kindness?  
Glory to you for your love.  
Glory to you for your patience.  
Glory to you for forgiving us all our sins.  
Glory to you for coming to save our souls.  
Glory to you for your incarnation in the Virgin's womb.  
Glory to you for your bonds.  
Glory to you for receiving the cut of the lash.  
Glory to you for accepting mockery.  
Glory to you for your crucifixion.  
Glory to you for your burial.  
Glory to you for your resurrection.  
Glory to you that you were preached to all.  
Glory to you in whom they believed.

- 5 My soul, there is a country  
Far beyond the stars,  
Where stands a winged sentry  
All skilful in the wars.
- There above noise and danger  
Sweet Peace sits crowned with smiles,  
And one born in a manger  
Commands the beautiful files.
- He is thy gracious friend  
And – O my soul awake! –  
Did in pure love descend  
To die here for thy sake.
- If thou canst get but thither,  
There grows the flower of Peace,  
The Rose that cannot wither,  
Thy fortress and thy ease.

O gad dy ffôl grwydradau;  
Nid oes a'th geidw'n fyw  
Ond Un sy'n ddigyfnewid,  
Dy Feddyg mawr a'th Dduw.

- 6 Tyrdd atom ni, Arweinydd pererinion,  
Dwg ni i ffordd llesâd;  
Tydi dy hun sy'n tywys drwy'r treialon,  
O derbyn ein mawrhad.

Tyrdd atom ni, O Dad ein Harglwydd Iesu,  
I'n harwain ato ef;  
Canmolwn fyth yr hwn sydd yn gwaredu –  
Bendigaid Fab y nef.

- 7 Amlygwyd Crist Iesu mewn cnawd,  
ei gyfiawnhau yn yr ysbryd,  
ei weld gan angylion,  
ei bregethu i'r Cenhedloedd,  
ei gredu drwy'r byd,  
ei ddyrchafu mewn gogoniant.  
Amlygir hyn yn ei amser addas  
gan yr unig Bennaeth bendigedig.  
Ganddo ef yn unig y mae anfarwoldeb,  
ac mewn goleuni anhygyrch y mae'n preswyllo.  
I Frenin y brenhinoedd, Arglwydd yr arglwyddi,  
y byddo anrhydedd a gallu tragwyddol! Amen.

Leave then thy foolish ranges,  
For none can thee secure,  
But one who never changes,  
Thy God, thy life, thy cure.

- 6 Come, my Way, my Truth, my Life:  
Such a Way, as gives us breath:  
Such a Truth, as ends all strife:  
Such a Life, as killeth death.

Come, my Light, my Feast, my Strength:  
Such a Light, as shows a Feast:  
Such a Feast as mends in length:  
Such a Strength as makes his guest.

Come, my Joy, my Love, my Heart:  
Such a Joy as none can move:  
Such a Love as none can part:  
Such a Heart as joys in Love.

- 7 Christ Jesus was revealed in the flesh  
and vindicated in the Spirit.  
He was seen by angels  
and proclaimed among the nations.  
Believed in throughout the world,  
he was taken up in glory.  
This will be made manifest at the proper time  
by the blessed and only Sovereign,  
who alone has immortality,  
and dwells in unapproachable light.  
To the King of kings and Lord of lords  
be honour and eternal dominion. Amen.

## 2 GWEINIDOGAETH Y GAIR

*Dilynir pob salm gan y fawlqan*

**Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab,  
ac i'r Ysbryd Glân;  
fel yr oedd yn y dechrau y mae yn awr,  
ac y bydd yn wastad, yn oes oesoedd. Amen.**

## 2 THE MINISTRY OF THE WORD

*Each psalm is followed by the doxology*

**Glory to the Father, and to the Son,  
and to the Holy Spirit;  
as it was in the beginning, is now,  
and shall be for ever. Amen.**

Ar ôl y salm, darllenir un o'r darlleniadau a ddarperir yn yr Almanac ar gyfer y dydd, neu un o'r darlleniadau byrion a ganlyn. Gweler hefyd Atodiad VII.

<i>Dydd Sul</i>	Genesis 1:1–5 2 Corinthiaid 5:17–19a Ioan 5:15–18 Datguddiad 21:1–4
<i>Dydd Llun</i>	Eseia 49:1b–4 Diarhebion 3:7–12 Marc 4:26–29 Mathew 25:19–21
<i>Dydd Mawrth</i>	Deuteronomium 28:1–4 Eseia 35:3–6 Ioan 9:1–5 Datguddiad 22:1–2
<i>Dydd Mercher</i>	Eseia 61:1–3a Micha 4:1–4a Mathew 9:35–diwedd Ioan 18:33, 36–38.
<i>Dydd Iau</i>	Deuteronomium 15:7–11 Eseia 43:5–7 1 Pedr 2:9–10 Ioan 17:18–23
<i>Dydd Gwener</i>	2 Cronicl 7:13–14 Eseia 57:15–19 Effesiaid 2:13–18 Luc 9:22–25
<i>Dydd Sadwrn</i>	Eseia 11:6–9 Effesiaid 3:14–19 Ioan 11:17–26a Datguddiad 5:8–10

Ar ôl y darlleniad, gellir dweud un o'r gwersiglau a'r ymatebion a ganlyn.

Preswylied gair Crist ynoch yn ei holl olud. [Halelwia.]  
**Dysgwch a hyfforddwch eich gilydd mewn doethineb.**  
[Halelwia.]

Dysg i mi gadw dy gyfraith. [Halelwia.]  
**Fe'i cadwaf hi â'm holl galon.** [Halelwia.]

After the psalmody, one of the readings provided for the day in the Almanac, or one of the following short readings, is read. See also Appendix VII.

<i>Sunday</i>	Genesis 1:1–5 2 Corinthians 5:17–19a John 5:15–18 Revelation 21:1–4
<i>Monday</i>	Isaiah 49:1b–4 Proverbs 3:7–12 Mark 4:26–29 Matthew 25:19–21
<i>Tuesday</i>	Deuteronomy 28:1–4 Isaiah 35:3–6 John 9:1–5 Revelation 22:1–2
<i>Wednesday</i>	Isaiah 61:1–3a Micah 4:1–4a Matthew 9:35–end John 18:33, 36–38
<i>Thursday</i>	Deuteronomy 15:7–11 Isaiah 43:5–7 1 Peter 2:9–10 John 17:18–23
<i>Friday</i>	2 Chronicles 7:13–14 Isaiah 57:15–19 Ephesians 2:13–18 Luke 9:22–25
<i>Saturday</i>	Isaiah 11:6–9 Ephesians 3:14–19 John 11:17–26a Revelation 5:8–10

One of the following verses and responses may be said after the reading.

Let the word of Christ dwell with you in all its richness.  
[Alleluia.]  
**Teach and instruct each other in all wisdom.** [Alleluia.]

Teach me to observe your law. [Alleluia.]  
**I will keep it with my whole heart.** [Alleluia.]

Tywys fi yn ffordd dy wirionedd a dysg fi, O Arglwydd.

[Halelwia.]

**Ti yw'r Duw a'm hachuba. [Halelwia.]**

Dysg i mi ddaioni a dirnadaeth a gwybodaeth. [Halelwia.]

**Ymddiriedaf yn dy orchmynion. [Halelwia.]**

Y mae fy enaid yn ymddiried yng ngair yr Arglwydd. [Halelwia.]

**Y mae fy enaid yn hiraethu amdano. [Halelwia.]**

Arglwydd, at bwy yr awn? [Halelwia.]

**Gennyt ti y mae geiriau'r bywyd tragwyddol. [Halelwia.]**

Y mae dy air yn rhoi goleuni. [Halelwia.]

**Y mae'n gwneud y gwirion yn ddoeth. [Halelwia.]**

Dangosi di imi lwybr bywyd. [Halelwia.]

**Yn dy bresenoldeb di y mae digonedd o lawenydd.**

**[Halelwia.]**

Dyma fy nghysur yn fy nhrallod. [Halelwia.]

**Y mae dy addewid yn rhoi bywyd i mi. [Halelwia.]**

Lead me in the way of your truth and teach me, O Lord.

[Alleluia.]

**You are the God who saves me. [Alleluia.]**

Teach me goodness and discernment and knowledge. [Alleluia.]

**I trust in your commands. [Alleluia.]**

My soul trusts in the word of the Lord. [Alleluia.]

**My soul is longing for him. [Alleluia.]**

Lord, to whom shall we go? [Alleluia.]

**You have the words of eternal life. [Alleluia.]**

The unfolding of your word gives light. [Alleluia.]

**It gives understanding to the simple. [Alleluia.]**

You will show me the path of life. [Alleluia.]

**In your presence is the fullness of joy. [Alleluia.]**

This is my comfort in my trouble. [Alleluia.]

**Your promise gives me life. [Alleluia.]**

### 3 Y GWEDDIAU

*Gellir cynnwys ymbiliau yma.*

*Dywedir Gweddi'r Arglwydd, i'w dilyn naill ai gan golect y dydd neu gan un o'r canlynol.*

*Ar y Suliau, a'r Gwyliau a restrir yn Grwpiau 1 a II yn Y Calendr Newydd (2003), dylid bob amser ddefnyddio golect y dydd. Ar achlysuron eraill, gellir defnyddio un o'r canlynol.*

Dduw nerthol a chariadus,  
edrych yn drugarog ar y tasgau a ddechreuasom,  
ac adnewyddda dy ras o'n mewn;  
cywira ein diffygion  
a chyflawna ein gwaith  
yn ôl dy ewyllys,  
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Arglwydd a meistr y winllan,  
yr wyt yn rhannu i ni ein tasgau  
ac yn pennu inni wobr uniawn am ein llafur.  
Cynorthwya ni i ddwyn baich y dydd  
ac i dderbyn heb gwyno dy ewyllys ym mhob peth,  
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

### 3 THE PRAYERS

*Intercessions may be included at this point.*

*The Lord's Prayer is said.*

*The collect of the day should always be used on the Sundays and Holy Days listed in Groups 1 and II in The New Calendar (2003). On other occasions, one of the following may be used.*

God of power and love,  
look kindly on the tasks we have begun,  
and renew your grace within us;  
make good our defects  
and bring our work to that fulfilment  
which is in accordance with your will,  
through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

Lord and master of the vineyard,  
you allot us our tasks  
and determine the just rewards of our labours.  
Help us to bear the burden of the day  
and accept your will in all things without complaint,  
through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

Oleuni tragwyddol, llewyrcha i'n calonnau,  
ddaioni tragwyddol, gwared ni rhag drwg,  
nerth tragwyddol, cynnal ni,  
ddoethineb tragwyddol,  
    gwasgara dywyllwch ein hanwybodaeth,  
dosturi tragwyddol, trugarha wrthym;  
fel y ceisïom dy wyneb  
â'n holl galon ac â'n holl feddwl  
    ac â'n holl enaid ac â'n holl nerth,  
a'n dwyn gan dy drugaredd ddiderfyn  
    i'th wyddfod sanctaidd;  
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Dduw tragwyddol,  
goleuni'r meddyliau sy'n dy adnabod,  
llawenydd y calonnau sy'n dy garu,  
a nerth yr ewyllys sy'n dy wasanaethu;  
caniatâ inni felly dy adnabod  
fel y carom di mewn gwirionedd,  
ac felly dy garu fel y gwasanaethom o ddifrif dydi,  
y mae dy wasanaethu yn rhyddid perffaith,  
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

O Arglwydd ein Duw,  
dyro inni ras i'th geisio â'n holl galon;  
fel, o'th geisio, y caffom di;  
ac, o'th gael, y carom di;  
ac, o'th garu, y casaom y pechodau hynny  
    y gwaredaist ni rhagddynt;  
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Dad grasol a sanctaidd,  
dyro inni ddoethineb i'th ddirnad,  
dyfalbarhad i'th geisio,  
amynedd i ddisgwyl wrthyt,  
llygaid i'th weld,  
calon i fyfyrio arnat,  
a bywyd i'th gyhoeddi,  
trwy nerth Ysbryd  
Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Eternal light, shine into our hearts,  
eternal goodness, deliver us from evil,  
eternal power, be our support,  
eternal wisdom, scatter the darkness of our ignorance,  
eternal pity, have mercy upon us;  
that with all our heart and mind and soul and strength  
we may seek your face  
and be brought by your infinite mercy to your holy presence;  
through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

Eternal God,  
the light of the minds that know you,  
the joy of the hearts that love you,  
and the strength of the wills that serve you;  
make us so to know you  
that we may truly love you,  
so to love you that we may truly serve you,  
whose service is perfect freedom,  
through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

O Lord our God,  
give us grace to desire you with our whole heart;  
that so desiring, we may seek and find you;  
and so finding, may love you;  
and so loving, may hate those sins  
    from which you have delivered us;  
through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

O gracious and holy Father,  
give us wisdom to perceive you,  
diligence to seek you,  
patience to wait for you,  
eyes to behold you,  
a heart to meditate upon you,  
and a life to proclaim you,  
through the power of the Spirit  
of Jesus Christ our Lord. **Amen.**

Arglwydd Iesu Grist, diolchwn i ti  
am bob budd a enillaist inni,  
am bob poen a gwawd a ddygaist drosom ni.  
Drugarocaf Waredwr,  
frawd a chyfaill,  
bydded inni dy adnabod yn well,  
dy garu'n anwylach,  
a'th ddilyn yn agosach,  
ddydd ar ôl dydd. **Amen.**

## 4 Y DIWEDDGLO

*Dywedir un o'r canlynol.*

Bendithiwn yr Arglwydd.  
**I Dduw y bo'r diolch.**

Bydded ffafwr rasol yr Arglwydd arnom. [Halelwia.]  
**Llwydda waith ein dwylo;**  
**O llwydda waith ein dwylo. [Halelwia.]**

Y mae cariad Crist ar waith ynom ni. [Halelwia.]  
**Bydded iddo ein tywys a'n gwarchod**  
**heddiw a phob amser. [Halelwia.]**

Bydded i oleuni Crist lewyrchu yn ein calonnau. [Halelwia.]  
**Amen. [Halelwia.]**

Os ydym yn byw yn yr Ysbryd, [Halelwia,]  
**gawdych inni hefyd rodio yn yr Ysbryd. [Halelwia.]**

Lord Jesus Christ, we thank you  
for all the benefits that you have won for us,  
for all the pains and insults that you have borne for us.  
Most merciful Redeemer,  
friend and brother,  
may we know you more clearly,  
love you more dearly,  
and follow you more nearly,  
day by day. **Amen.**

## 4 THE CONCLUSION

*One of the following is said.*

Let us bless the Lord.  
**Thanks be to God.**

May the gracious favour of the Lord be upon us. [Alleluia.]  
**Prosper our handiwork;**  
**O prosper the work of our hands. [Alleluia.]**

The love of Christ works in us. [Alleluia.]  
**May he guide us and guard us today and always.**  
**[Alleluia.]**

May the light of Christ shine in our hearts. [Alleluia.]  
**Amen. [Alleluia.]**

If we live by the Spirit, [Alleluia,]  
**let us also walk by the Spirit. [Alleluia.]**

## ADFENT

*Myfyrdod Rhagarweiniol*

Geidwad tragwyddol,  
oleuni anffaeledig y byd,  
oleuni bythol,  
ein gwir iachawdwriaeth,

Trwy gymryd ein natur  
yn dy ryddid cariadus,  
achubaist ein daear golledig  
a llenwi'r byd â llawenydd.

Trwy dy adfent cyntaf, cyfiawnha ni,  
trwy dy ail adfent, rhyddha ni:  
fel, pan wawria'r goleuni mawr,  
ac y deui di i farnu pawb,  
y gwisger ni ag anfarwoldeb  
ac y byddom barod, Arglwydd,  
i ddilyn olion gwynfydedig dy draed  
i ba le bynnag yr arweiniont.

*Salmau a Darlleniadau*

<i>Dydd Sul</i>	Salm 82	Datguddiad 22:17, 20–21
<i>Dydd Llun</i>	Salm 13	Eseia 11:1–4
<i>Dydd Mawrth</i>	Salm 14	Marc 1:1–5
<i>Dydd Mercher</i>	Salm 54	Luc 12:35–37
<i>Dydd Iau</i>	Salm 70	Marc 13:34–diwedd
<i>Dydd Gwener</i>	Salm 75	Rhufeiniaid 13:11–diwedd
<i>Dydd Sadwrn</i>	Salm 85	Luc 1:35, 38

*Gweddi i Gloi*

O Arglwydd,  
cadw ni bob amser yn effro ac yn wyladwrus  
wrth inni ddisgwyl dyfodiad dy Fab.  
Glanha ni o bechod,  
fel yr elom i gwrdd â'n Gwaredwr, pan ddaw,  
â chalonnau llawen;  
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

## ADVENT

*Introductory Meditative Passage*

Saviour eternal,  
life of the world unfailing,  
light everlasting  
and our true redemption,

Taking our humanity  
in your loving freedom,  
you rescued our lost earth  
and filled the world with joy.

By your first advent, justify us,  
by your second, set us free:  
that when the great light dawns  
and you come as judge of all,  
we may be robed in immortality  
and ready, Lord, to follow  
in your footsteps blest,  
wherever they may lead.

*Psalmody and Readings*

<i>Sunday</i>	Psalm 82	Revelation 22:17, 20–21
<i>Monday</i>	Psalm 13	Isaiah 11:1–4
<i>Tuesday</i>	Psalm 14	Mark 1:1–5
<i>Wednesday</i>	Psalm 54	Luke 12:35–37
<i>Thursday</i>	Psalm 70	Mark 13:34–end
<i>Friday</i>	Psalm 75	Romans 13:11–end
<i>Saturday</i>	Psalm 85	Luke 1:35, 38

*Closing Prayer*

O Lord,  
keep us ever alert and watchful  
as we await the coming of your Son.  
Cleanse us from sin, so that, when he comes,  
we may go forth to meet our Saviour with joyful hearts;  
through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

## TYMOR Y NADOLIG

### *Myfyrdod Rhagarweiniol*

Rhodd well nag ef ei hun ni wŷr ein Duw,  
A rhodd sy'n well na'i Dduw nis gwêl un dyn;  
Cans dyma rodd sy'n rhoi y Rhoddwr byw,  
Ac i'r rhodd hon rhoed pawb yn rhodd ei hun.  
Duw imi'n rhodd; fe'i rhoes ei hun i mi;  
Rhodd iddo wyf; Duw'n unig a'm caiff i.

### *Salmau a Darlleniadau*

<i>Dydd Sul</i>	Salm 113	Ioan 1:14, 16–18
<i>Dydd Llun</i>	Salm 87	Eseia 9:2, 6–7
<i>Dydd Mawrth</i>	Salm 97	Mathew 1:20b–23
<i>Dydd Mercher</i>	Salm 110	Luc 2:16–20
<i>Dydd Iau</i>	Salm 127	Galatiaid 4:4–7
<i>Dydd Gwener</i>	Salm 128	Titus 2:11–14
<i>Dydd Sadwrn</i>	Salm 150	Hebreaid 1:1–3a

### *Gweddi i Gloi*

Hollalluog Dduw,  
y mae dy Air ymgnawdoledig yn ein llenwi  
â'r goleuni newydd a ddug ef i'r byd.  
Bydded i oleuni ffydd yn ein calonnau  
lewyrchu trwy bopeth a wnawn ac a ddywedwn;  
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

*Mae'r ddarpariaeth hon hefyd yn addas ar Wyl Cyflwyniad Crist a Gŵyl Cyfarchiad Mair.*

## TYMOR YR YSTWYLL

### *Myfyrdod Rhagarweiniol*

*Y mae Darn (7) yn y Drefn ar gyfer Gweddi'r Dydd yn arbennig o addas.*

### *Salmau a Darlleniadau*

<i>Dydd Sul</i>	Salm 67	Malachi 1:11
<i>Dydd Llun</i>	Salm 99	Ioan 2:10–11
<i>Dydd Mawrth</i>	Salm 100	Eseia 60:1–3
<i>Dydd Mercher</i>	Salm 122	2 Corinthiaid 4:5–6
<i>Dydd Iau</i>	Salm 132:10–19	Rhufeiniaid 8:15–17
<i>Dydd Gwener</i>	Salm 138	Effesiaid 1:8b–10
<i>Dydd Sadwrn</i>	Salm 149	Datguddiad 1:13–16

## CHRISTMASTIDE

### *Introductory Meditative Passage*

Gift better than himself God doth not know;  
Gift better than his God no man can see.  
This gift doth here the giver given bestow;  
Gift to this gift let each receiver be.  
God is my gift, himself he freely gave me;  
God's gift am I, and none but God shall have me.

### *Psalmody and Readings*

<i>Sunday</i>	Psalm 113	John 1:14, 16–18
<i>Monday</i>	Psalm 87	Isaiah 9:2, 6–7
<i>Tuesday</i>	Psalm 97	Matthew 1:20b–23
<i>Wednesday</i>	Psalm 110	Luke 2:16–20
<i>Thursday</i>	Psalm 127	Galatians 4:4–7
<i>Friday</i>	Psalm 128	Titus 2:11–14
<i>Saturday</i>	Psalm 150	Hebrews 1:1–3a

### *Closing Prayer*

Almighty God,  
your incarnate Word fills us  
with the new light he brought to the world.  
Let the light of faith in our hearts  
shine through all that we do and say;  
through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

*This provision is suitable also for use on the Feasts of the Presentation of Christ and the Annunciation to the Blessed Virgin Mary.*

## EPIPHANY SEASON

### *Introductory Meditative Passage*

*Passage (7) in the Order for Prayer During the Day is particularly suitable.*

### *Psalmody and Readings*

<i>Sunday</i>	Psalm 67	Malachi 1:11
<i>Monday</i>	Psalm 99	John 2:10–11
<i>Tuesday</i>	Psalm 100	Isaiah 60:1–3
<i>Wednesday</i>	Psalm 122	2 Corinthians 4:5–6
<i>Thursday</i>	Psalm 132:10–19	Romans 8:15–17
<i>Friday</i>	Psalm 138	Ephesians 1:8b–10
<i>Saturday</i>	Psalm 149	Revelation 1:13–16



### **Gweddi i Gloi**

O Iesu da,  
Gair y Tad, a llewyrch ei ogoniant,  
y deisyfa angylion dy weld:  
dysg imi wneud dy ewyllys,  
fel, dan arweiniad dy Ysbryd,  
y delwyf i ddinas wynfydedig y bythol ddydd,  
lle y mae pawb o un galon a meddwl,  
lle y mae diogelwch a thangnefedd tragwyddol,  
llawenydd a hyfrydwch,  
lle yr wyt ti yn byw gyda'r Tad a'r Ysbryd Glân  
am byth. **Amen.**

*Y mae'r Myfyrdod Rhagarweiniol a'r salmau a'r darlleniadau uchod  
yn addas i'w defnyddio hefyd ar Ŵyl y Gweddnewidiad, ond, ar yr  
ŵyl honno, dylid defnyddio colect y dydd.*

### **Y GARAWYS**

#### **Myfyrdod Rhagarweiniol**

Iesu, yr wyt yn cynnull dy bobl atat fel mam;  
yr wyt yn addfwyn gyda ni fel mam gyda'i phlant.

Try anobaith yn obaith trwy dy ddaioni pêr;  
trwy dy addfwynder cawn gysur pan fyddom mewn ofn.

Fe rydd dy gynhesrwydd fywyd i'r meirw,  
gwna dy gyffyrddiad bechaduriaid yn uniawn.

Arglwydd Iesu, yn dy drugaredd iachâ ni;  
yn dy gariad a'th diriondeb ail-grea ni.

Yn dy ras a'th drugaredd dwg ras a maddeuant,  
a pharatoed dy gariad ni at brydferthwch y nef.

#### **Salmau a Darlleniadau**

<i>Dydd Sul</i>	Salm 51:11—diwedd	Rhufeiniaid 6:3—5
<i>Dydd Llun</i>	Salm 3	Joel 2:12—14
<i>Dydd Mawrth</i>	Salm 6	1 Corintiaid 9:24—diwedd
<i>Dydd Mercher</i>	Salm 11	Rhufeiniaid 7:21—25a
<i>Dydd Iau</i>	Salm 12	Eseia 58:6—9a
<i>Dydd Gwener</i>	Salm 32	Mathew 6:1—4
<i>Dydd Sadwrn</i>	Salm 61	Luc 10:38—diwedd

### **Closing Prayer**

O good Jesus,  
Word of the Father and brightness of his glory,  
whom angels desire to behold:  
teach me to do your will  
that, guided by your Spirit,  
I may come to the blessed city of everlasting day,  
where all are one in heart and mind,  
where there is safety and eternal peace,  
happiness and delight,  
where you live with the Father and the Holy Spirit,  
world without end. **Amen.**

*The Introductory Meditative Passage and psalmody and readings  
above are also suitable for use on the Feast of the Transfiguration  
when, however, the collect of the day should be used.*

### **LENT**

#### **Introductory Meditative Passage**

Jesus, like a mother you gather your people to you;  
you are gentle with us as a mother with her children.

Despair turns to hope through your sweet goodness;  
through your gentleness we find comfort in fear.

Your warmth gives life to the dead,  
your touch makes sinners righteous.

Lord Jesus, in your mercy heal us;  
in your love and tenderness remake us.

In your grace and compassion bring grace and forgiveness,  
for the beauty of heaven may your love prepare us.

#### **Psalmody and Readings**

<i>Sunday</i>	Psalm 51:11—end	Romans 6:3—5
<i>Monday</i>	Psalm 3	Joel 2:12—14
<i>Tuesday</i>	Psalm 6	1 Corinthians 9:24—end
<i>Wednesday</i>	Psalm 11	Romans 7:21—25a
<i>Thursday</i>	Psalm 12	Isaiah 58:6—9a
<i>Friday</i>	Psalm 32	Matthew 6:1—4
<i>Saturday</i>	Psalm 61	Luke 10:38—end

### *Gweddi i Gloi*

Dysg ni, Arglwydd da, i'th wasanaethu fel yr haeddi;  
i roi heb gyfri'r gost;  
i frwydro heb ystyried y clwyfau;  
i weithio heb geisio gorffwys;  
i lafurio heb ddisgwyl unrhyw wobr,  
ond gwybod ein bod yn gwneud dy ewylls di. **Amen.**

### *TYMOR Y DIODDEFAINT*

#### *Myfyrdod Rhagarweiniol*

Addolwn di, O Grist, a bendithiwn di,  
oherwydd trwy dy groes sanctaidd fe brynaist y byd.

Dduw sanctaidd,  
sanctaidd a chryf,  
sanctaidd ac anfarwol, trugarha wrthym.

Gogoneddwn dy groes, O Arglwydd,  
a molwn a mawrygwn dy atgyfodiad sanctaidd:  
oherwydd trwy rinwedd y groes  
daeth llawenydd i'r byd.

#### *Salmau a Darlenniadau*

<i>Dydd Sul</i>	Salm 27:1–8	Hebreaid 2:10–12
<i>Dydd Llun</i>	Salm 43	Marc 8:31–35
<i>Dydd Mawrth</i>	Salm 142	Eseia 53:4–6
<i>Dydd Mercher</i>	Salm 143	1 Corinthiaid 1:18–25
<i>Dydd Iau</i>	Salm 23	1 Pedr 2:24–25
<i>Dydd Gwener</i>	Salm 69:1–13	Rhufeiniaid 5:6–8
<i>Dydd Sadwrn</i>	Salm 130	Ioan 12:23–26

### *Gweddi i Gloi*

Arglwydd Dduw, ein Tad nefol,  
edrych, gweddiwn arnat, â'th ddwyfol drugaredd  
ar boenau pawb o'th blant;  
a chaniatâ i ddiodefaint ein Harglwydd  
a'i gariad diderfyn  
ddwyn ffrwyth daioni  
o drallodau'r diniwed,  
dioddefiadau'r claf,  
a gofidiau'r rhai sydd mewn profedigaeth;  
trwyddo ef a ddiodefodd yn ein cnawd  
ac a fu farw drosom,  
dy Fab ein Gwarddwr Iesu Grist. **Amen.**

### *Closing Prayer*

Teach us, good Lord, to serve you as you deserve;  
to give and not to count the cost;  
to fight and not to heed the wounds;  
to toil and not to seek for rest;  
to labour and not to seek for any reward,  
save that of knowing that we are doing your will. **Amen.**

### *PASSIONTIDE*

#### *Introductory Meditative Passage*

We adore you, O Christ, and we bless you,  
because by your holy cross you have redeemed the world.

Holy God,  
holy and strong,  
holy and immortal, have mercy on us.

We glory in your cross, O Lord,  
and praise and glorify your holy resurrection:  
for by virtue of the cross  
joy has come to the whole world.

#### *Psalmody and Readings*

<i>Sunday</i>	Psalm 27:1–8	Hebrews 2:10–12
<i>Monday</i>	Psalm 43	Mark 8:31–35
<i>Tuesday</i>	Psalm 142	Isaiah 53:4–6
<i>Wednesday</i>	Psalm 143	1 Corinthians 1:18–25
<i>Thursday</i>	Psalm 23	1 Peter 2:24–25
<i>Friday</i>	Psalm 69:1–13	Romans 5:6–8
<i>Saturday</i>	Psalm 130	John 12:23–26

### *Closing Prayer*

Lord God, our heavenly Father,  
look, we pray, with your divine pity  
on the pains of all your children;  
and grant that the passion of our Lord  
and his infinite love  
may make fruitful for good  
the tribulations of the innocent,  
the sufferings of the sick,  
and the sorrows of the bereaved;  
through him who suffered in our flesh  
and died for our sake,  
your Son our Saviour Jesus Christ. **Amen.**

## **TYMOR Y PASG: CYN DYDD Y DYRCHAFael**

### ***Myfyrdod Rhagarweiniol***

Ddoe fe'm croeshoeliwyd gyda Christ;  
heddiw fe'm gogoneddir gydag ef.  
Ddoe bŵm farw gyda Christ;  
heddiw yr wyf yn rhannu ei atgyfodiad.  
Ddoe fe'm claddwyd gydag ef;  
heddiw, rwy'n deffro gydag ef o gwsg marwolaeth.

### ***Salmau a Darlleniadau***

<i>Dydd Sul</i>	Salm 114	1 Pedr 1:3–5
<i>Dydd Llun</i>	Salm 30	Seffaneaia 3:14–18
<i>Dydd Mawrth</i>	Salm 66:1–11	1 Corinthiaid 15:42–44a, 47–49
<i>Dydd Mercher</i>	Salm 106:1–12	Colosiaid 3:1–4
<i>Dydd Iau</i>	Salm 111	Luc 24:28–32
<i>Dydd Gwener</i>	Salm 145:1–8	Job 19:23–27a
<i>Dydd Sadwrn</i>	Salm 146	Datguddiad 1:12–18

### ***Gweddi i Gloi***

Arglwydd ein Duw,  
yn atgyfodiad Crist  
creaist ni o'r newydd at fywyd tragwyddol.  
Gwna ni'n gadarn ein ffydd ac yn gyson ein gobraith  
wrth inni ddisgwyl yn llawen  
am gyflawni dy addewidion;  
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

## **TYMOR Y PASG: DYDD Y DYRCHAFael HYD Y PENTECOST**

### ***Myfyrdod Rhagarweiniol***

Bendigedig wyt ti, Dduw ein hynafiaid,  
teilwng o foliant a dyrchafedig am byth.  
Bendigedig yw dy enw sanctaidd a gogoneddus,  
teilwng o foliant a dyrchafedig am byth.  
Bendigedig wyt ti yn dy lân deml odidog,  
teilwng o foliant a dyrchafedig am byth.  
Bendigedig wyt ti sy'n gweld i'r dyfnderau,  
teilwng o foliant a dyrchafedig am byth.  
Bendigedig wyt ti y mae dy orsedd rhwng y cerwbiaid,  
teilwng o foliant a dyrchafedig am byth.

## **EASTERTIDE: BEFORE ASCENSION DAY**

### ***Introductory Meditative Passage***

Yesterday I was crucified with Christ;  
today I am glorified with him.  
Yesterday I was dead with Christ;  
today I am sharing in his resurrection.  
Yesterday I was buried with him;  
today I am waking with him from the sleep of death.

### ***Psalmody and Readings***

<i>Sunday</i>	Psalm 114	1 Peter 1:3–5
<i>Monday</i>	Psalm 30	Zephaniah 3:14–18
<i>Tuesday</i>	Psalm 66:1–11	1 Corinthians 15:42–44a, 47–49
<i>Wednesday</i>	Psalm 106:1–12	Colossians 3:1–4
<i>Thursday</i>	Psalm 111	Luke 24:28–32
<i>Friday</i>	Psalm 145:1–8	Job 19:23–27a
<i>Saturday</i>	Psalm 146	Revelation 1:12–18

### ***Closing Prayer***

Lord our God,  
in the resurrection of Christ  
you create us anew for eternal life.  
Make us firm in faith and constant in hope  
as we joyfully await  
the fulfilment of your promises;  
through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

## **EASTERTIDE: ASCENSION DAY TO PENTECOST**

### ***Introductory Meditative Passage***

Blessed are you, the God of our ancestors,  
worthy to be praised and exalted for ever.  
Blessed is your holy and glorious name,  
worthy to be praised and exalted for ever.  
Blessed are you in your holy and glorious temple,  
worthy to be praised and exalted for ever.  
Blessed are you who look into the depths,  
worthy to be praised and exalted for ever.  
Blessed are you, enthroned on the cherubim,  
worthy to be praised and exalted for ever.

Bendigedig wyt ti ar orsedd dy deyrnas,  
teilwng o foliant a dyrchafedig am byth.

Bendigedig wyt ti yn uchelder y nefoedd,  
teilwng o foliant a dyrchafedig am byth.

### **Salmau a Darlleniadau**

*Noder: Mae'r darlleniadau yn yr adran gyntaf ar gyfer Dydd y Dyrchafael a'r ddeuddydd canlynol. Mae'r darlleniadau yn yr ail adron ar gyfer seithfed wythnos y Pasg a Dydd y Pentecost.*

<i>Dydd y Dyrchafael</i>	Salm 47	Hebreaid 9:24
<i>Dydd Gwener</i>	Salm 93	Hebreaid 2:8b–10
<i>Dydd Sadwrn</i>	Salm 98	Rhufeiniaid 8:38–39
<i>Dydd Sul</i>	Salm 104:26–32	Ioan 7:37–39a
<i>Dydd Llun</i>	Salm 21:1–7	Eseia 40:20–diwedd
<i>Dydd Mawrth</i>	Salm 29	1 Corinthiaid 12:4–7
<i>Dydd Mercher</i>	Salm 46	Joel 2:28–29
<i>Dydd Iau</i>	Salm 47	Luc 11:9–13
<i>Dydd Gwener</i>	Salm 93	2 Corinthiaid 1:20–22
<i>Dydd Sadwrn</i>	Salm 98	2 Corinthiaid 3:17–18
<i>Pentecost</i>	Salm 33:1–6	Ioan 20:21–22

### **Gweddï i Gloi**

*Dylid defnyddio colect y dydd ar Ddydd y Dyrchafael.  
Ar y dyddiau eraill, gellir defnyddio'r canlynol*

O Frenin a orseddwyd yn y nefoedd,  
ti Ddiddanydd ac Ysbryd y Gwirionedd,  
ti sydd ym mhobman ac yn llenwi pob peth,  
trysorfa bendithion a rhoddwr bywyd,  
tyrd a phreswylia gyda ni,  
glanha ni o bob staen  
ac achub ein heneidiau, O rasol un. **Amen.**

### **TYMOR Y DEYRNAS**

#### **Myfyrdod Rhagarweiniol**

Am rodd ei Ysbryd:  
bendigedig fyddo Crist.

Am yr Eglwys gatholig:  
bendigedig fyddo Crist.

Blessed are you on the throne of your kingdom,  
worthy to be praised and exalted for ever.

Blessed are you in the heights of heaven,  
worthy to be praised and exalted for ever.

### **Psalmody and Readings**

*Note: The readings in the first section are for Ascension Day and the two days following. Those in the second section are for the seventh week of Easter and the Day of Pentecost.*

<i>Ascension Day</i>	Psalm 47	Hebrews 9:24
<i>Friday</i>	Psalm 93	Hebrews 2:8b–10
<i>Saturday</i>	Psalm 98	Romans 8:38–39
<i>Sunday</i>	Psalm 104:26–32	John 7:37–39a
<i>Monday</i>	Psalm 21:1–7	Isaiah 40:20–end
<i>Tuesday</i>	Psalm 29	1 Corinthians 12:4–7
<i>Wednesday</i>	Psalm 46	Joel 2:28–29
<i>Thursday</i>	Psalm 47	Luke 11:9–13
<i>Friday</i>	Psalm 93	2 Corinthians 1:20–22
<i>Saturday</i>	Psalm 98	2 Corinthians 3:17–18
<i>Pentecost</i>	Psalm 33:1–6	John 20:21–22

### **Closing Prayer**

*The collect of the day should be used on Ascension Day.  
On the other days, the following may be used*

O King enthroned on high,  
Comforter and Spirit of Truth,  
you that are in all places and fill all things,  
the treasury of blessings and the giver of life,  
come and dwell with us,  
cleansing us from every stain  
and save our souls, O gracious one. **Amen.**

### **KINGDOM SEASON**

#### **Introductory Meditative Passage**

For the gift of his Spirit:  
blessed be Christ.

For the catholic Church:  
blessed be Christ.

Am foddion gras:  
bendigedig fyddo Crist.

Am obaith gogoniant:  
bendigedig fyddo Crist.

Am lwyddiannau ei efengyl:  
bendigedig fyddo Crist.

Am fywydau ei saint:  
bendigedig fyddo Crist.

Mewn llawenydd a galar:  
bendigedig fyddo Crist.

Mewn bywyd a marwolaeth:  
bendigedig fyddo Crist.

Yn awr a hyd ddiwedd yr oesau:  
bendigedig fyddo Crist.

### ***Salmau a Darlleniadau***

<i>Dydd Sul</i>	Salm 2	Datguddiad 4:9—diwedd
<i>Dydd Llun</i>	Salm 15	Philippiaid 4:4—7
<i>Dydd Mawrth</i>	Salm 42:1—7	Hebreaid 12:22—24
<i>Dydd Mercher</i>	Salm 96	Mathew 24:30—31
<i>Dydd Iau</i>	Salm 121	Effesiaid 4:11—13
<i>Dydd Gwener</i>	Salm 125	Hebreaid 12:1—2
<i>Dydd Sadwrn</i>	Salm 133	Daniel 12:2—3
<i>Gŵyl yr Holl Saint</i>	Salm 92:12—15	Datguddiad 22:1—5
<i>Crist y Brenin</i>	Salm 93	Colosiaid 1:15—18

### ***Gweddi i Gloi***

*Dylid defnyddio colect y dydd ar Ŵyl yr Holl Saint ac ar Ŵyl Crist y Brenin.*

*Ar ddyddiau eraill, gellir defnyddio'r canlynol*

Dwg ni, O Arglwydd ein Duw, yn ein deffro olaf,  
at dŷ a phorth y nefoedd,  
i fynd drwy'r porth hwnnw a byw yn y tŷ  
lle nad oes na thywyllwch na gor-ddisgleirdeb  
ond un goleuni di-dor;  
na sŵn na distawrwydd, ond un miwsig di-dor;  
nac ofnau na gobeithion, ond un meddiant di-dor;  
na diwedd na dechrau, ond un tragwyddoldeb di-dor;  
yn nhrigfannau dy ogoniant a'th arglwyddiaeth  
byth heb ddiwedd. **Amen.**

For the means of grace:  
blessed be Christ.

For the hope of glory:  
blessed be Christ.

For the triumphs of his gospel:  
blessed be Christ.

For the lives of his saints:  
blessed be Christ.

In joy and in sorrow:  
blessed be Christ.

In life and in death:  
blessed be Christ.

Now and to the end of the ages:  
blessed be Christ.

### ***Psalmody and Readings***

<i>Sunday</i>	Psalm 2	Revelation 4:9—end
<i>Monday</i>	Psalm 15	Philippians 4:4—7
<i>Tuesday</i>	Psalm 42:1—7	Hebrews 12:22—24
<i>Wednesday</i>	Psalm 96	Matthew 24:30—31
<i>Thursday</i>	Psalm 121	Ephesians 4:11—13
<i>Friday</i>	Psalm 125	Hebrews 12:1—2
<i>Saturday</i>	Psalm 133	Daniel 12:2—3
<i>All Saints' Day</i>	Psalm 92:12—15	Revelation 22:1—5
<i>Christ the King</i>	Psalm 93	Colossians 1:15—18

### ***Closing Prayer***

*The collect of the day should be used on All Saints' Day and the Feast of Christ the King.*

*On other days, the following may be used*

Bring us, O Lord God, at our last awakening  
into the house and gate of heaven,  
to enter that gate and dwell in that house,  
where there shall be no darkness nor dazzling  
but one equal light;  
no noise nor silence, but one equal music;  
no fears nor hopes, but one equal possession;  
no ends or beginnings, but one equal eternity;  
in the habitations of your glory and dominion,  
world without end. **Amen.**

## *MAIR FORWYN FENDIGAID*

### *Myfyrdod Rhagarweiniol*

Daeth crëwr y bydoedd ar agwedd creadur  
Y perffaith ddibechod ar ddull fel pechadur!  
Cynhaliwr yr holl greadigaeth ddiderfyn  
Ei hunan gynhaliwyd ar liniau y Forwyn.  
O ryfedd, O ryfedd, dirgelwch duwioldeb:  
Y Duwdod a'r dyndod yn awr sydd mewn undeb.

### *Darlleniadau*

Marc 3:31–35

Ioan 19:25b–27

Actau 1:12–14

Rhufeiniaid 8:28–30

Galatiaid 4:4–7

Datguddiad 12:1–6

### *Gweddï i Gloi*

Hollalluog a thragwyddol Dduw,  
a wyraist i lawr i godi teulu'r cwmp  
trwy feichiogrwydd y fendigaidd Fair;  
caniatâ fod i ni,  
a welodd adlewyrchu dy ogoniant yn ein natur ddynol  
a pherffeithio dy gariad yn ein gwendid,  
gael ein hadnewyddu beunydd ar dy lun  
a'n cydffurfio â delw dy Fab,  
Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

## *THE BLESSED VIRGIN MARY*

### *Introductory Meditative Passage*

Maiden yet a mother, daughter of thy Son,  
High beyond all other, lowlier is none;  
Thou the consummation planned by God's decree,  
When our lost creation nobler rose in thee.  
Thus his place prepared, he who all things made,  
'Mid his creatures tarried, in thy bosom laid;  
There his love he nourished, warmth that gave increase  
To the root whence flourished our eternal peace.

### *Readings*

Mark 3:31–35

John 19:25b–27

Acts 1:12–14

Romans 8:28–30

Galatians 4:4–7

Revelation 12:1–6

### *Closing Prayer*

Almighty and everlasting God,  
who stooped to raise fallen humanity  
through the child-bearing of blessed Mary;  
grant that we,  
who have seen your glory revealed in our human nature  
and your love made perfect in our weakness,  
may daily be renewed in your image  
and conformed to the pattern of your Son,  
Jesus Christ our Lord. **Amen.**

## GWYLIAU SAINT

### *Myfyrdod Rhagarweiniol*

Y mae gogoneddus gwmpeini'r apostolion yn dy foli.  
Y mae cymdeithas ardderchog y proffwydi yn dy foli.

Y mae byddin y merthyron  
yn eu gwisgoedd gwynion yn dy foli.

Y mae'r Eglwys lân drwy'r holl fyd yn dy foli:  
Y Tad o anfeidrol fawredd,

Dy wir ac unig Fab, sy'n deilwng o bob moliant,  
a'r Ysbryd Glân, eiriolwr ac arweinydd.

### *Darlleniadau*

Mathew 5:1–12

Mathew 5:13–16

Datguddiad 7:9–10 (13–17)

Datguddiad 22:1–5

### *Gweddï i Gloi*

Dad hollalluog,  
adeiledaist dy Eglwys  
trwy gariad ac ymgysgriad dy saint:  
ysbrydola ni i ddilyn esiampl *E*,  
a goffawn heddiw,  
fel y bo inni o'r diwedd lawenhau gydag *ef/hi*  
o weld dy ogoniant;  
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

## SAINTS' DAYS

### *Introductory Meditative Passage*

The glorious company of apostles praise you.  
The noble fellowship of prophets praise you.

The white-robed army of martyrs praise you.  
Throughout the world the holy Church acclaims you:

Father of majesty unbounded,  
your true and only Son, worthy of all praise,  
the Holy Spirit, advocate and guide.

### *Readings*

Matthew 5:1–12

Matthew 5:13–16

Revelation 7:9–10 (13–17)

Revelation 22:1–5

### *Closing Prayer*

Almighty Father,  
you have built up your Church  
through the love and devotion of your saints:  
inspire us to follow the example of *N*,  
whom we commemorate today,  
that we may at last rejoice with *him/her*  
in the vision of your glory;  
through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

GWEDDI'R NOS  
(CWMPLIN)

NIGHT PRAYER  
(COMPLINE)



## STRWYTHUR GWEDDI'R NOS

*Gellir hepgor yr eitemau a nodwyd â \**

- 1 **Y RHAGARWEINIAD**  
Gweddi agoriadol, gwersiglau ac ymatebion  
\*Edifeirwch  
\*Eryn
- 2 **GWEINIDOGAETH Y GAIR**  
Salm(au)  
Darlleniad o'r Beibl  
\*Ymateb  
Cantigl o'r Efengyl: *Nunc Dimittis*
- 3 **Y GWEDDIAU**  
\*Ymbil a Diolch  
\*Gweddi'r Arglwydd  
Y Colect
- 4 **Y DIWEDDGLO**  
Gweddi o Ymateb i Gloi a Bendith

## THE STRUCTURE OF NIGHT PRAYER

*Items marked \* are optional*

- 1 **THE INTRODUCTION**  
Opening prayer, versicles and responses  
\*Penitence  
\*Hymn
- 2 **THE MINISTRY OF THE WORD**  
Psalm(s)  
Biblical reading  
\*Responsory  
Gospel Canticle: *Nunc Dimittis*
- 3 **THE PRAYERS**  
\*Intercession and Thanksgiving  
\*The Lord's Prayer  
The Collect
- 4 **THE CONCLUSION**  
Closing Responsory Prayer and Blessing

## NODIADAU

- 1 Darperir dwy ffurf ar Weddi'r Nos. Argymhellir y gyntaf ar gyfer achlysuron ffurfiol, er enghraifft pan gynhelir Gweddi'r Nos yn wasanaeth ar noson waith yn ystod y Garawys. Os bydd pregeth ar achlysur o'r fath, dylai ddilyn y darlleniad o'r Beibl neu'r ymateb, os dywedir ef. Cynlluniwyd yr ail ar gyfer y rhai hynny sy'n dymuno cael ffurf seml, strwythuredig ar weddi nos.
- 2 Gellir defnyddio yng Ngweddi'r Nos y tabl a ganlyn o salmau a darlleniadau, a drefnwyd yn ôl dyddiau'r wythnos.

	<i>Salm</i>	<i>Darlleniad</i>
<i>Dydd Sul</i>	91	Datguddiad 22:4–5
<i>Dydd Llun</i>	86	1 Thesalonïaid 5:9–10
<i>Dydd Mawrth</i>	143:1–11	1 Pedr 5:8–9
<i>Dydd Mercher</i>	31:1–5, 130	Effesiaid 4:26–27
<i>Dydd Iau</i>	16	1 Thesalonïaid 5:23
<i>Dydd Gwener</i>	88	Jeremeia 14:9
<i>Dydd Sadwrn</i>	4, 134	Datguddiad 22:4–5

- 3 Gellir defnyddio detholiadau tymhorol o salmau a darlleniadau o'r tablau tymhorol a ddarperir ar gyfer Gweddi'r Dydd (Atodiad VII).

## NOTES

- 1 Two forms of Night Prayer are provided. The first is recommended for more formal occasions, for instance, when Night Prayer is held as a weeknight service in Lent. If a sermon is to be preached on such occasions, it should follow the biblical reading or the responsory if that is said. The second form is designed for those who want a simple, structured form of prayer at night.
- 2 The following table of psalms and readings arranged by days of the week may be used at Night Prayer.

	<i>Psalm</i>	<i>Reading</i>
<i>Sunday</i>	91	Revelation 22:4–5
<i>Monday</i>	86	1 Thessalonians 5:9–10
<i>Tuesday</i>	143:1–11	1 Peter 5:8–9
<i>Wednesday</i>	31:1–5, 130	Ephesians 4:26–27
<i>Thursday</i>	16	1 Thessalonians 5:23
<i>Friday</i>	88	Jeremiah 14:9
<i>Saturday</i>	4, 134	Revelation 22:4–5

- 3 Seasonal selections of psalms and readings may be made from the seasonal tables provided for use at Prayer during the Day (Appendix VII).

# TREFN AR GYFER GWEDDI'R NOS (CWMPLIN)

## **1** Y RHAGARWEINIAD

Rhodded yr Arglwydd hollalluog inni noson heddychlon,  
**a diwedd perffaith.**

Duw, brysia i'n cynorthwyo:  
**Arglwydd, prysura i'n cymorth.**

**Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab,  
ac i'r Ysbryd Glân;  
fel yr oedd yn y dechrau y mae yn awr,  
ac y bydd yn wastad, yn oes oesoedd. Amen.**

*Gweddi ddistaw / myfyrdod ar y diwrnod a fu.*

*Gellir defnyddio'r canlynol, neu weithred briodol arall o edifeirwch.*

**Drugarocaf Dad,  
cyffeswn wrthyt,  
gerbron holl gwmpeini nef a gerbron ein gilydd,  
inni bechu ar feddwl, gair a gweithred  
ac yn yr hyn na wnaethom.  
Maddau inni ein pechodau,  
iachâ ni trwy dy Ysbryd  
a chyfoda ni i fywyd newydd yng Nghrist. Amen.**

Bydded i'r hollalluog Dduw drugarhau wrthym,  
maddau i ni ein pechodau  
a'n dwyn i fywyd tragwyddol;  
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

*Gellir canu emyn addas.*

# AN ORDER FOR NIGHT PRAYER (COMPLINE)

## **1** THE INTRODUCTION

The Lord almighty grant us a quiet night,  
**and a perfect end.**

O God, make speed to save us:  
**O Lord, make haste to help us.**

**Glory to the Father, and to the Son,  
and to the Holy Spirit;  
as it was in the beginning, is now,  
and shall be for ever. Amen.**

*Silent prayer / reflection on the past day.*

*The following or another suitable act of penitence may be used.*

**Most merciful God,  
we confess to you,  
before the whole company of heaven and one another,  
that we have sinned in thought, word and deed  
and in what we have failed to do.  
Forgive us our sins,  
heal us by your Spirit  
and raise us to new life in Christ. Amen.**

May almighty God have mercy on us,  
forgive us our sins  
and bring us to everlasting life;  
through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

*A suitable hymn may be sung.*

## 2 GWEINIDOGAETH Y GAIR

*Gellir defnyddio un neu fwy o'r canlynol, neu salmau eraill addas: 4, 91, 134.*

*Gellir defnyddio un o'r darlenniadau a ganlyn, neu ddarn addas arall o'r Beibl: Jeremeia 14:9; 1 Pedr 5:8–9; Datguddiad 22:4–5.*

*Gall cyfnod o ffyfyrdod distaw ddilyn y darlenniad.*

*Gweler Nodiadau 2 a 3 am ddewisiadau posibl eraill o salmau a darlenniadau.*

*Gellir dweud yr ymateb a ganlyn ar ôl y darlenniad*

I'th ddwylo di, Arglwydd, y cyflwynaf fy ysbryd.

[Halelwia, Halelwia.]

I'th ddwylo di, Arglwydd, y cyflwynaf fy ysbryd.

[Halelwia, Halelwia.]

Oherwydd achubaist fi, Arglwydd Dduw'r gwirionedd.

I'th ddwylo di, Arglwydd, y cyflwynaf fy ysbryd.

[Halelwia, Halelwia.]

Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab, ac i'r Ysbryd Glân.

I'th ddwylo di, Arglwydd, y cyflwynaf fy ysbryd.

[Halelwia, Halelwia.]

Cadw fi fel kannwyll dy lygad,

Cuddia fi o dan gysgod dy adenydd.

*Cantigl o'r Efengyl: Nunc Dimittis*

Gwared ni, Arglwydd, pan fyddom yn effro,  
gwylia drosom pan fyddom yn cysgu,  
fel, pan fyddom yn effro, y cawn wyllo gyda Christ,  
a phan fyddom ynghwsg, y cawn orffwys mewn tangnefedd.  
[Halelwia.]

1 Yn awr yr wyt yn gollwng dy was yn / rhydd, O / Arglwydd :  
mewn tang/nefedd • yn / unol • â'th / air;

2 Oherwydd y mae fy llygaid wedi gweld dy / iachaw/dwriaeth :  
a ddarperaiat yng / ngŵydd yr / holl- / bobloedd:

3 Goleuni i fod yn ddatguddiad / i'r Cen/hedloedd :  
ac yn o/goniant i'th / bobl / Israel.

Gogoniant i'r Tad / ac i'r / Mab :

ac / i'r- / Ysbryd / Glân;

fel yr oedd yn y dechrau, •

y mae yn awr ac y / bydd yn / wastad :  
yn oes / oesoedd. / A-/men.

Gwared ni, Arglwydd, pan fyddom yn effro ...

## 2 THE MINISTRY OF THE WORD

*One or more of the following, or other suitable psalms, may be used: 4, 91, 134.*

*One of the following Biblical readings, or another suitable passage, may be read: Jeremiah 14:9; 1 Peter 5:8–9; Revelation 22:4–5.*

*A time of silent reflection may follow the reading.*

*See Notes 2 and 3 for other possible choices of psalmody and readings.*

*The following responsory may be said after the reading*

Into your hands, Lord, I commend my spirit.

[Alleluia, Alleluia.]

**Into your hands, Lord, I commend my spirit.**

[Alleluia, Alleluia.]

For you have redeemed me, Lord God of truth.

**Into your hands, Lord, I commend my spirit.**

[Alleluia, Alleluia.]

Glory to the Father, and to the Son, and to the Holy Spirit.

**Into your hands, Lord, I commend my spirit.**

[Alleluia, Alleluia.]

Keep me as the apple of your eye.

**Hide me under the shadow of your wings.**

*The Gospel Cantic: Nunc Dimittis*

Save us, O Lord, while waking,  
and guard us while sleeping,  
that awake we may watch with Christ  
and asleep may rest in peace.  
[Alleluia.]

1 Lord, now you have set your / servant / free :  
to go in / peace as / you have / promised.

2 For these eyes of mine have / seen • your sal/vation :  
which you have prepared for / all the / world to / see;

3 A light to re/veal you • to the / nations :  
and to give / glory • to your / people / Israel.

Glory to the Father, and / to the / Son :  
and / to the / Holy / Spirit;  
as it was in the be/ginning, is / now :  
and shall be for / ever. / A-/men.

Save us, O Lord, while waking ...

### 3 Y GWEDDIAU

*Gellir offrymu ymbil a diolch yma.  
Gellir dweud Gweddi'r Arglwydd.*

*Dywedir y colect a ganlyn, neu golect tymhorol*  
Ymwêl â'r tŷ hwn, gweddiwn, O Arglwydd,  
gyr ymaith ymhell ohono holl faglaur gelyn;  
arhosed dy angylion sanctaidd gyda ni  
i'n gwarchod mewn tangnefedd,  
a bydded dy fendith bob amser arnom;  
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

### 4 Y DIWEDDGLO

Gorweddw'n a chysgu mewn tangnefedd,  
**oherwydd ti yn unig, Arglwydd,  
a wna inni breswyllo mewn diogelwch.**

Aros gyda ni, Arglwydd Iesu,  
**oherwydd y mae hi'n nosi, a'r dydd yn dirwyn i ben.**

Fel y bydd gwylwyr y nos yn disgwyl am y bore,  
**felly y disgwyliwn ninnau amdanat, O Grist.**

[Tyrd ar doriad y wawr  
**ac amlyga dy hun inni ar doriad y bara.]**

Bendithied yr Arglwydd ni a chadwed ni;  
llewyrched yr Arglwydd ei wyneb arnom,  
a bydded yn drugarog wrthym;  
edryched yr Arglwydd yn garedig arnom  
[ac ar bawb y gweddiwn drostynt],  
a rhodded inni ei dangnefedd.  
**Amen.**

### 3 THE PRAYERS

*Intercessions and thanksgivings may be offered here.  
The Lord's Prayer may be said.*

*The following collect, or a seasonal alternative, is said*  
Visit this place, Lord, we pray,  
drive far from it all the snares of the enemy;  
may your holy angels dwell with us  
and guard us in peace  
and may your blessing be always upon us;  
through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

### 4 THE CONCLUSION

In peace we will lie down and sleep,  
**for you alone, Lord, make us dwell in safety.**

Abide with us, Lord Jesus,  
**for the night is at hand and the day is now past.**

As the night watch looks for the morning,  
**so do we look for you, O Christ.**

[Come with the dawning of the day  
**and make yourself known in the breaking of bread.]**

The Lord bless us and watch over us;  
the Lord make his face to shine upon us  
and be gracious to us;  
the Lord look kindly on us  
[and all for whom we pray]  
and give us his peace.  
**Amen.**

## GWEDDI'R NOS: TREFN SEML

Rhodded yr Arglwydd hollalluog inni noson heddychlon,  
**a diwedd perffaith.**

**Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab,  
ac i'r Ysbryd Glân;  
fel yr oedd yn y dechrau y mae yn awr,  
ac y bydd yn wastad, yn oes oesoedd. Amen.**

*Gweddi ddistaw/myfyrdod ar y diwrnod a fu.*

Bendithiaf yr Arglwydd, sy'n rhoi imi gyngor.  
Y mae fy nghalon yn fy nysgu, nos ar ôl nos.  
Arglwydd, trugarha.  
**Arglwydd, trugarha.**

Disgwyliasom yn ddistaw am dy drugaredd, O Dduw,  
yng nghanol dy deml.  
Crist, trugarha.  
**Crist, trugarha.**

Gorweddaf mewn tangnefedd, a chysgu ar unwaith,  
canys ti yn unig, Arglwydd, a wna imi breswyllo mewn diogelwch.  
Arglwydd, trugarha.  
**Arglwydd, trugarha.**

### *Y Salm*

### *Y Darlleniad*

*Gall ysbaid o fyfyrdod distaw ddilyn y darlleniad.*

### *Cantigl o'r Efengyl: Nunc Dimittis*

- 1 Yn awr yr wyt yn gollwng dy was yn / rhydd, O / Arglwydd :  
mewn tang/nefedd • yn / unol • â'th / air;
- 2 Oherwydd y mae fy llygaid wedi gweld dy / iachaw/dwriaeth :  
a ddarperaist yng / ngŵydd yr / holl- / bobloedd:
- 3 Goleuni i fod yn ddatguddiad / i'r Cen/hedloedd :  
ac yn o/goniant i'th / bobl / Israel.

**Gogoniant i'r Tad / ac i'r / Mab :  
ac / i'r- / Ysbryd / Glân;  
fel yr oedd yn y dechrau, •  
y mae yn awr ac y / bydd yn / wastad :  
yn oes / oesoedd. / A-/men.**

## NIGHT PRAYER: A SIMPLE ORDER

The Lord almighty grant us a quiet night  
**and a perfect end.**

**Glory to the Father, and to the Son,  
and to the Holy Spirit;  
as it was in the beginning, is now,  
and shall be for ever. Amen.**

*Silent prayer/reflection on the past day.*

I will bless the Lord who gives me counsel.  
My heart teaches me, night after night.  
Lord, have mercy.  
**Lord, have mercy.**

We have waited in silence on your loving kindness, God,  
in the midst of your temple.  
Christ, have mercy.  
**Christ, have mercy.**

I lie down in peace, at once I fall asleep,  
for only you, Lord, make me dwell in safety.  
Lord, have mercy.  
**Lord, have mercy.**

### *The Psalm*

### *The Reading*

*A time of silent reflection may follow the reading.*

### *The Gospel Cantic: Nunc Dimittis*

- 1 Lord, now you have set your / servant / free :  
to go in / peace as / you have / promised.
- 2 For these eyes of mine have / seen • your sal/vation :  
which you have prepared for / all the / world to / see;
- 3 A light to re/veal you • to the / nations :  
and to give / glory • to your / people / Israel.

**Glory to the Father, and / to the / Son :  
and / to the / Holy / Spirit;  
as it was in the be/ginning, is / now :  
and shall be for / ever. / A-/men.**

I'th ddwylo di, O Arglwydd, y cyflwynaf fy ysbryd,  
**oherwydd ti a'm prynaist,**  
**Arglwydd Dduw'r gwirionedd.**

Cadw fi fel kannwyll dy lygad,  
**Cuddia fi o dan gysgod dy adenydd.**

Y mae'r Arglwydd yma.  
**Y mae ei Ysbryd gyda ni.**

Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd,  
sancteiddier dy enw;  
deled dy deyrnas;  
gwneler dy ewyllys;  
megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.  
Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol.  
A maddau i ni ein dyledion,  
fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.  
Ac nac arwain ni i brofedigaeth;  
eithr gwared ni rhag drwg.  
Oherwydd eiddot ti yw'r deyrnas,  
a'r gallu a'r gogoniant,  
yn oes oesoedd. Amen.

Ymwêl â'r tŷ hwn, gweddiwn, O Arglwydd,  
gyr ymaith ymhell ohono holl faglaur gelyn;  
arhosed dy angylion sanctaidd gyda ni  
i'n gwarchod mewn tangnefedd,  
a bydded dy fendith bob amser arnom;  
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

*Neu*

Aros gyda ni, Arglwydd Iesu,  
oherwydd y mae hi'n nosi, a'r dydd yn dirwyn i ben.  
Fel y bydd gwylwyr y nos yn disgwyl am y bore,  
felly y disgwyliwn ninnau amdanat ti, Arglwydd.  
Ar doriad y wawr  
amlyga dy hun inni ar doriad y bara. Amen.

Gwared ni, Arglwydd, pan fyddom yn effro,  
gwylia drosom pan fyddom yn cysgu;  
fel, pan fyddom yn effro, y cawn wyltio gyda Christ,  
a phan fyddom ynghwsg,  
y cawn orffwys mewn tangnefedd. Amen.

Into your hands, Lord, I commend my spirit,  
**for you have redeemed me,**  
**Lord God of truth.**

Keep me as the apple of your eye.  
**Hide me under the shadow of your wings.**

The Lord is here.  
**His Spirit is with us.**

**Our Father, who art in heaven,**  
**hallowed be thy name;**  
**thy kingdom come;**  
**thy will be done;**  
**on earth as it is in heaven.**  
**Give us this day our daily bread.**  
**And forgive us our trespasses,**  
**as we forgive those who trespass against us.**  
**And lead us not into temptation;**  
**but deliver us from evil.**  
**For thine is the kingdom,**  
**the power and the glory,**  
**for ever and ever. Amen.**

Visit this place, Lord, we pray,  
drive far from it all the snares of the enemy;  
may your holy angels dwell with us  
and guard us in peace  
and may your blessing be always upon us;  
through Jesus Christ our Lord. Amen.

*Or*

Stay with us, Lord Jesus,  
for the night is at hand and the day is now past.  
As the night watch longs for the morning,  
so do we long for you, Lord.  
At the dawning of the day  
make yourself known to us in the breaking of the bread. Amen.

**Save us, Lord, while waking,**  
**and guard us, while sleeping;**  
**that, awake, we may watch with Christ**  
**and, asleep, we may rest in peace. Amen.**

Y SALMAU

THE PSALMS



## Salm 1

*Siant senl*

- 1a Gwyn ei / fyd y / sawl :  
nad yw'n dilyn / cyngor / y dryg/ionus,
- 1b Nac yn ymdroi hyd / ffordd • pecha/duriaid :  
nac yn / eistedd • ar / sedd gwat/warwyr,
- 2 Ond sy'n cael ei hyfrydwch yng / nghyfraith • yr / Arglwydd :  
ac yn myfyrio yn ei / gyfraith • ef / ddydd a / nos.
- 3a Y mae fel pren wedi ei blannu wrth / ffrydiau / dŵr :  
ac / yn rhoi / ffrwyth • yn ei / dymor,
- 3b A'i ddeilen heb / fod yn / gwywo :  
beth / bynnag • a / wna fe / lwydda.
- 4 Nid felly y / bydd • y dryg/ionus :  
ond fel us yn / cael ei / yrru • gan / wynt.
- 5 Am hynny, ni saif y drygionus / yn y / farn :  
na phechaduriaid yng / nghynu/lleidfâr / cyfiawn.
- 6 Y mae'r Arglwydd yn gwyllo / ffordd y / cyfiawn :  
ond y mae / ffordd • y dryg/ionus yn / darfod.

## Salm 2

- 1 Pam y mae'r cen/hedloedd • yn ter/fysgu :  
a'r / bobloedd • yn / cynllwyn • yn / ofer?
- 2 Y mae brenhinoedd y ddaear yn barod •  
a'r llywodraethwyr yn ymgy/nghori • â'i / gilydd :  
yn erbyn yr / Arglwydd / a'i e/neiniog,
- 3 "Gadewch inni / ddryllio • eu / rhwymau :  
a thaflu / ymaith / eu rhe/ffynnu."
- 4 Fe chwardd yr un sy'n / eistedd • yn y / nefoedd :  
y mae'r / Arglwydd / yn eu / gwatwar.
- 5 Yna fe lefara wrthynt / yn ei / lid :  
a'u / dychryn / yn ei / ddicter,
- 6 "Yr wyf fi wedi / gosod fy / mrenin :  
ar / Seion • fy / mynydd / sanctaidd."

## Psalm 1

- 1 Blessed are they who have not walked  
in the / counsel of the / wicked :  
nor lingered in the way of sinners,  
nor sat in the as/sembly / of the / scornful.
- 2 Their delight is in the / law of the / Lord :  
and they meditate on his / law / day and / night.
- 3 Like a tree planted by streams of water  
bearing fruit in due season, with leaves that / do not / wither :  
whatever they / do, / it shall / prosper.
- 4 As for the wicked, it is not / so with / them :  
they are like chaff which the / wind / blows a/way.
- 5 Therefore the wicked shall not be able to / stand in the / judgement :  
nor the sinner in the congrega/tion / of the / righteous.
- 6 For the Lord knows the / way of the / righteous :  
but the / way of the / wicked shall / perish.

## Psalm 2

- 1 Why are the / nations in / tumult :  
and why do the peoples de/vise a / vain / plot?
- 2 The kings of the earth rise up,  
and the rulers take / counsel to/gether :  
against the Lord / and a/gainst his a/nointed:
- 3 'Let us break their / bonds a/sunder :  
and / cast a/way their / cords from us.'
- 4 He who dwells in heaven shall / laugh them to / scorn :  
the Lord shall / have them / in de/rision.
- 5 Then shall he speak to them / in his / wrath :  
and / terrify them / in his / fury:
- 6 'Yet have I / set my / king :  
upon my / holy / hill of / Zion.'

- 7 Adroddaf am ddat/ganiad • yr / Arglwydd :  
dywedodd wrthyf • “Fy mab wyt ti •  
myfi a’th gen/hedlodd / di – / heddiw;
- 8 Gofyn, a rhoddaf iti’r cenhedloedd yn / eti/feddiaeth :  
ac eithafoedd / daear • yn / eiddo / iti;
- 9 Fe’u drylli â gwi/alén / haearn :  
a’u ma/lurio • fel / llestr – / pridd.”
- 10 Yn awr, frenhinoedd / byddwch / ddoeth :  
farnwyr y / ddaear • cy/merwch / gyngor;
- 11 Gwasanaethwch yr / Arglwydd • mewn / ofn :  
mewn / cryndod • cu/sanwch • ei / draed,
- 12 Rhag iddo ffromi ac i chwi gael eich difetha •  
oherwydd fe gyneua ei / lid mewn / dim :  
Gwyn eu byd y / rhai • sy’n llo/chesu / ynddo.

### Salm 3

- 1 Arglwydd, mor lluosog yw fy / ngwrthwy/nebwy :  
y mae / llawer • yn / codi • yn / f’erbyn,
- 2 A llawer yn / dweud am/danaf :  
“Ni chaiff / ware/digaeth • yn / Nuw.”
- 3 Ond yr wyt ti, Arglwydd, yn / darian • i / mi :  
yn ogoniant i / mi ac / yn fy • nyr/chafu.
- 4 Gwaeddaf yn uchel / ar yr / Arglwydd :  
ac etyb / fi o’i / fynydd / sanctaidd.
- 5 Yr wyf yn gorwedd / ac yn / cysgu :  
ac yna’n deffro am fod yr / Arglwydd / yn fy / nghynnal.
- 6 Nid ofnwn pe bai / myrddiwn • o / bobl :  
yn ymosod / arnaf / o bob / tu.
- 7 Cyfod, Arglwydd • gwareda fi / O fy / Nuw :  
byddi’n taro fy holl elynion yn eu hwyneb •  
ac yn torri / dannedd / y dryg/ionus.
- 8 I’r Arglwydd y perthyn / gware/digaeth :  
bydded dy / fendith / ar dy / bobl.

- 7 I will proclaim the de/cree of the / Lord :  
he said to me: ‘You are my Son;  
this / day have / I be/gotten you.
- 8 Ask of me and I will give you the nations for / your in/heritance :  
and the ends of the / earth for / your pos/session.
- 9 You shall break them with a / rod of / iron :  
and dash them in pieces / like a / potter’s / vessel.’
- 10 Now therefore be / wise, O / kings :  
be prudent, you / judges / of the / earth.
- 11 Serve the Lord with fear, and with trembling / kiss his / feet :  
lest he be angry and you perish from the way,  
for his / wrath is / quickly / kindled.
- 12 Happy / are all / they :  
who / take / refuge in / him.

### Psalm 3

- 1 Lord, how many / are my / adversaries :  
many are / they who rise / up a/gainst me.
- 2 Many are they who / say to my / soul :  
‘There is no / help for you / in your / God.’
- 3 But you, Lord, are a / shield a/bout me :  
you are my glory, and the / lifter / up of my / head.
- 4 When I cry a/loud to the / Lord :  
he will answer me / from his / holy / hill;
- 5 I lie down and sleep and / rise a/gain :  
be/cause the / Lord sus/tains me.
- 6 I will not be afraid of / hordes of the / peoples :  
that have set themselves a/gainst me / all a/round.
- 7 Rise up, O Lord, and deliver me, / O my / God :  
for you strike all my enemies on the cheek  
and / break the / teeth of the / wicked.
- 8 Salvation be/longs to the / Lord :  
may your blessing / be up/on your / people.

### Salm 4

- 1 Ateb fi pan alwaf, O Dduw / fy nghyf/iawnder :  
pan oeddwn mewn cyfyngder gwaredaist fi •  
bydd drugarog / wrthyf • a / gwrando • fy / ngweddi.
- 2 Bobl, am ba hyd y bydd fy ngo/goniant • yn / warth :  
ac y byddwch yn caru gwagedd / ac yn / ceisio / celwydd?
- 3 Deallwch fod yr Arglwydd wedi neilltuo'r ffyddlon / iddo'i / hun :  
y mae'r Arglwydd yn / gwrando • pan / alwaf / arno.
- 4 Er i chwi gynnedeiriogi / peidiwch • â / phechu :  
er i chwi ymson ar eich / gwely / byddwch / ddistaw.
- 5 Offrymwch a/berthau / cywir :  
ac ymddir/iedwch / yn yr / Arglwydd.
- 6 Y mae llawer yn dweud, "Pwy a ddengys i / ni ddai/oni?" :  
Cyfoded llewyrch dy / wyneb / arnom / Arglwydd.
- 7 Rhoddaist fwy o lawenydd / yn fy / nghalon :  
na'r eiddo hwy pan oedd / llawer • o / yd a / gwin.
- 8 Yn awr gorweddaf mewn / heddwch • a / chysgu :  
oherwydd ti yn unig, Arglwydd, sy'n / peri • imi / fyw'n ddi/ogel.

### Salm 5

- 1 Gwrando ar fy / ngeiriau / Arglwydd :  
y/styr-ia fy / nghwynfan;
- 2 Clyw fy / nghri am / gymorth :  
fy / Mrenin / a'm - / Duw.
- 3a Arnat ti y gwe/ddiaf / Arglwydd :  
yn y / bore • fe / glywi • fy / llais.
- 3b Yn y bore paratoaf / ar dy / gyfer :  
ac / fe ddis/gwy-/liaf.
- 4 Oherwydd nid wyt Dduw sy'n / hoffi • dry/gioni :  
ni chaiff y / drwg • aros / gyda / thi,
- 5 Ni all y trahaus / sefyll • o'th / flaen :  
yr wyt yn casáu'r / holl wneu/thurwyr • dry/gioni
- 6 Ac yn difetha'r rhai sy'n / dweud - / celwydd :  
ffeiddia'r Arglwydd un / gwaedlyd / a thwy/llodrus.

### Psalm 4

- 1 Answer me when I call, O / God of my / righteousness :  
you set me at liberty when I was in trouble;  
have mercy on / me and / hear my / prayer.
- 2 How long will you nobles dis/honour my / glory :  
how long will you love vain / things and / seek after / falsehood?
- 3 But know that the Lord has shown me his / marvellous / kindness :  
when I call upon the / Lord, / he will / hear me.
- 4 Stand in / awe, and / sin not :  
commune with your own heart upon your / bed, / and be / still.
- 5 Offer the / sacrifices of / righteousness :  
and / put your / trust in the / Lord.
- 6 There are many that say, 'Who will show us / any / good?' :  
Lord, lift up the / light of your / countenance up/on us.
- 7 You have put gladness / in my / heart :  
more than when their corn and / wine and / oil in/crease.
- 8 In peace I will lie / down and / sleep :  
for it is you Lord, only, who / make me / dwell in / safety.

### Psalm 5

- 1 Give ear to my / words, O / Lord :  
con/sider my / lamen/tation.
- 2 Hearken to the voice of my crying, my / King and my / God :  
for to / you I / make my / prayer.
- 3 In the morning, Lord, you will / hear my / voice :  
early in the morning I make my ap/peal to you, / and look / up.
- 4 For you are the God who takes no / pleasure in / wickedness :  
no / evil can / dwell with / you.
- 5 The boastful cannot / stand in your / sight :  
you / hate all / those that work / wickedness.
- 6 You destroy / those who speak / lies :  
the bloodthirsty and de/ceitful the / Lord • will ab/hor.
- 7 But as for me, through the greatness of your mercy,  
I will come / into your / house :  
I will bow down towards your holy / temple in / awe of / you.

- 7 Ond oherwydd dy gariad mawr / dof fi • i'th / dŷ :  
plygaf yn dy deml / sanctaidd • mewn / parch i / ti.
- 8 Arglwydd, arwain fi yn dy gyfiawnder oherwydd / fy nge/lynon :  
gwna dy / ffordd yn / union • o'm / blaen.
- 9a Oherwydd nid oes coel / ar eu / geiriau :  
y mae / dinistr / o'u – / mewn;
- 9b Bedd agored / yw eu / llwnc :  
a'u / tafod • yn / llawn – / gweniaith.
- 10a Dwg gosb / arnynt • O / Dduw :  
bydded iddynt / syrthio / trwy • eu cyn/llwynion;
- 10b Bwrw hwy ymaith yn eu / holl be/chodau :  
am iddynt / wrthry/fela • yn dy / erbyn.
- 11a Ond bydded i bawb sy'n llochesu ynot ti / lawen/hau :  
a chanu / mewn lla/wenydd • yn / wastad;
- 11b Bydd yn amddiffyn dros y rhai sy'n / caru • dy / enw :  
fel y bydd iddynt orfo/leddu / ynot / ti.
- 12 Oherwydd yr wyt ti, Arglwydd, yn ben/dithio'r / cyfiawn :  
ac y mae dy ffafr yn ei am/ddiffyn / fel – / tarian.

### Salm 6

- 1 Arglwydd, paid â'm ceryddu / yn dy / ddig :  
paid â'm / cosbi / yn dy / lid.
- 2 Bydd drugarog wrthyf, O Arglwydd •  
oherwydd yr / wyf yn / llesg :  
iachâ fi, Arglwydd, o/herwydd bra/wychwyd • fy / esgyrn,
- 3 Y mae fy enaid mewn / arswyd / mawr :  
tithau / Arglwydd / am ba / hyd?
- 4 Dychwel, Arglwydd / gwared • fy / enaid :  
achub fi er / mwyn / dy ffydd/londeb.
- 5 Oherwydd nid oes cofio amdanat / ti yn / angau :  
pwy sy'n dy / foli / di yn / Sheol?
- 6 Yr wyf wedi diffygio gan fy nghwynfan •  
bob nos y mae fy / ngwely'n / foddfa :  
trochaf fy ngo/bennydd / â'm – / dagrau.
- 7 Pylodd fy / llygaid • gan / ofid :  
a phallu o/herwydd • fy / holl e/lynon.

- 8 Lead me, Lord, in your righteousness,  
be/cause of my / enemies :  
make your way / straight be/fore my / face.
- 9 For there is no truth in their mouth,  
in their / heart is des/truction :  
their throat is an open sepulchre,  
and they / flatter / with their / tongue.
- 10 Punish / them, O / God :  
let them / fall • through their / own de/vices.
- 11 Because of their many transgressions / cast them / out :  
for / they have re/belled a/gainst you.
- 12 But let all who take refuge in / you be / glad :  
let them / sing out their / joy for / ever.
- 13 You will / shelter / them :  
so that those who love your / name • may ex/ult in / you.
- 14 For you, O Lord, will / bless the / righteous :  
and with your favour  
you will de/fend them / as with a / shield.

### Psalm 6

- 1 O Lord, rebuke me / not in your / wrath :  
neither chasten me / in your / fierce / anger.
- 2 Have mercy on me, Lord, for / I am / weak :  
Lord, heal me, / for my / bones are / racked.
- 3 My soul also / shakes with / terror :  
how / long, O / Lord, how / long?
- 4 Turn again, O Lord, and de/liver my / soul :  
save me for your / loving / mercy's / sake.
- 5 For in death no one re/members / you :  
and who can / give you / thanks • in the / grave?
- 6 I am weary / with my / groaning :  
every night I drench my pillow  
and / flood my / bed with my / tears.
- 7 My eyes are / wasted with / grief :  
and worn away be/cause of / all my / enemies.

- 8 Ewch ymaith oddi wrthyf, holl wneu/thurwyr • dryg/ioni :  
oherwydd clywodd yr / Arglwydd / fi'n – / wylo.
- 9 Gwrandawodd yr Arglwydd ar / fy nei/syfiad :  
ac y mae'r / Arglwydd • yn / derbyn • fy / ngweddi.
- 10 Bydded cywilydd a dryswch i'm / holl e/lynion :  
trônt yn ôl a'u / cywi/lyddio'n / sydyn.

### Salm 7

- 1 O Arglwydd fy Nuw, ynot / ti • y llo/chesaf :  
gwared fi rhag fy holl er/lidwyr • ac / arbed / fi,
- 2 Rhag iddynt fy / llarpio • fel / llew :  
a'm / darnio • heb / neb • i'm gwa/redu.
- 3 O Arglwydd fy Nuw, os / gwneuthum / hyn :  
os oes / twyll / ar fy / nwylo,
- 4 Os telais ddrwg am / dda i'm / cyfaill :  
ac ysbeilio fy / ngwrthwy/nebwr • heb / achos,
- 5 Bydded i'm gelyn fy / erlid • a'm / dal :  
bydded iddo sathru fy einioes i'r ddaear •  
a gosod f'an/rhydedd / yn y / llwch.
- 6 Saf i fyny, O Arglwydd, yn dy ddig •  
cyfod yn erbyn / llid • fy nge/lynion :  
deffro, fy / Nuw, i / drefnu / barn.
- 7 Bydded i'r bobloedd ym/gynnull • o'th / amgylch :  
eistedd dithau'n o/ruchel / uwch eu / pennau.
- 8 O Arglwydd, sy'n barnu pobloedd •  
barna fi yn / ôl • fy nghyf/iawnder :  
O Arglwydd, ac yn / ôl • y cy/wirdeb • sydd / ynof.
- 9 Bydded diwedd ar ddrygioni'r drygionus •  
ond cadarnha / di y / cyfiawn :  
ti sy'n profi meddyliau a cha/lonnau / ti Dduw / cyfiawn.
- 10 Duw / yw fy / nharian :  
ef sy'n gwa/redu'r / cywir • o / galon.
- 11 Duw sydd / farnwr / cyfiawn :  
a / Duw • sy'n ded/frydu • bob / amser.
- 12 Yn wir, y mae'r drygionus yn hogi ei / gleddyf / eto :  
yn plygu ei fwa ac / yn ei / wneud yn / barod;

- 8 Depart from me, all / you that do / evil :  
for the Lord has / heard the / voice of my / weeping.
- 9 The Lord has heard my / suppli/cation :  
the Lord / will re/ceive my / prayer.
- 10 All my enemies shall be put to / shame and con/fusion :  
they shall / suddenly turn / back • in their / shame.

### Psalm 7

- 1 O Lord my God, in / you I take / refuge :  
save me from all who pur/sue me, / and de/liver me,
- 2 Lest they rend me like a lion and / tear me in / pieces :  
while / there is / no one to / help me.
- 3 O Lord my God, if I have / done these / things :  
if there is any / wickedness / in my / hands,
- 4 If I have repaid my / friend with / evil :  
or plundered my / enemy with/out a / cause,
- ‡5 Then let my enemy pursue me and / over/take me :  
trample my life to the ground,  
and lay my / honour / in the / dust.
- 6 Rise up, O Lord, in your wrath;  
lift yourself up against the fury / of my / enemies :  
awaken, my God, the judgement / that you / have com/manded.
- 7 Let the assembly of the peoples / gather / round you :  
be seated high above them: O / Lord, / judge the / nations.
- 8 Give judgement for me  
according to my / righteousness, O / Lord :  
and according to the / innocence / that is / in me.
- 9 Let the malice of the wicked come to an end,  
but es/tablish the / righteous :  
for you test the mind and / heart, O / righteous / God.
- 10 God is my shield / that is / over me :  
he / saves the / true of / heart.
- 11 God is a / righteous / judge :  
he is pro/voked / all day / long.
- 12 If they will not repent, God will / whet his / sword :  
he has bent his / bow and / made it / ready.

- 13 Y mae'n darparu ei / arfau / marwol :  
ac yn / gwneud ei / saethau'n / danllyd.
- 14 Y mae'n feichiog / o ddryg/ioni :  
yn cenhedlu niwed / ac yn / geni / twyll.
- 15 Y mae'n cloddio pwll ac / yn ei / geibio :  
ac yn / syrthio • i'r / twll a / wnaeth.
- 16 Fe ddychwel ei niwed arno / ef ei / hun :  
ac ar ei ben / ef y / disgyn • ei / drais.
- 17 Diolchaf i'r Arglwydd / am ei • gyf/iawnder :  
a chanaf fawl i / enw'r / Arglwydd • Go/ruchaf.

### Salm 8

- 1 O Arglwydd, ein Iôr,  
mor ardderchog yw dy enw ar yr / holl / ddaear :  
gosodaist dy o/goniant / uwch y / nefoedd,
- 2 Codaist amddiffyn rhag dy elynion  
o enau babanod / a phlant / sugno :  
a thawelu'r / gelyn / a'r di/alydd.
- 3 Pan edrychaf ar y nefoedd / gwaith dy / fysedd :  
y lloer a'r sêr, a / roddaist / yn eu / lle,
- 4 Beth yw meidrollyn, i/ti ei / gofio :  
a'r teulu dynol, i/ti o/falu am/dano?
- 5 Eto gwnaethost ef ychydig / islaw / duw :  
a'i goroni â go/goniant / ac an/rhydedd.
- 6 Rhoist iddo awdurdod ar / waith dy / ddwylo :  
